



# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

## Y DDOGFEN HOFF STRATEGAETH DRAFFT YMGYNGHOROL



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL




# Tudalen cynnwys


| | |
|---|---|
| Pennod 1 | Cyflwyniad a chefndir |
| Pennod 2 | Asesiadau |
| Pennod 3 | Fframwaith polisi |
| Pennod 4 | Darlun o'r ardal rwan |
| Pennod 5 | Darlun o'r ardal yn 2026 -<br>Y Weledigaeth a'r amcanion |
| Pennod 6 | Faint o dwf ac yn lle? |
| Pennod 7 | Yr Hoff Strategaeth Drafft |
| Pennod 8 | Beth sy'n digwydd nesaf? |






# Pennod 1
# Cyflwyniad a chefndir



## Cyflwyniad

1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardaloedd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi penderfynu paratoi CDLl ar y Cyd ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Môn a Gwynedd.

1.2 Pan gaiff y CDLl ar y Cyd ei fabwysiadu fe fydd yn disodli'r Cynlluniau Datblygu a welir yn y tabl canlynol. Fe fydd hefyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Môn (gafodd ei stopio yn 2005), sy'n ystyriaeth cynllunio berthnasol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan Gyngor Sir Ynys Môn ar hyn o bryd.

## Ardal Awdurdod Cynllunio Môn

- Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993)
- Cynllun Lleol Ynys Môn (1996)

## Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd

- Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009)

Tabl 1: Rhestr o'r Cynlluniau Datblygu a gaiff eu disodli ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd

1.3 Unwaith y caiff y CDLl ar y Cyd ei fabwysiadu bydd rhan fwyaf o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ardal y ddau Awdurdod Cynllunio'n cael eu selio ar gynnwys y CDLl ar y Cyd.


## Y budd o gydweithio

1.4 Bydd y CDLl ar y Cyd yn ymdrin ag Ynys Môn a Gwynedd, ond nid yw'r rhannau o Wynedd sydd du mewn i Barc Cenedlaethol Eryri yn rhan ohono. Mae Map 1 yn dangos ardal y CDLl ar y Cyd. Nid yw'n isranbarth na'n ardal weinyddol ffurfiol ond, tra bod gan bob ardal ei gymeriad arbennig ei hun, mae'r ddau Gyngor yn credu bod yna berthynas swyddogaethol, economaidd, isadeiledd a pholisi trawsffiniol cryf rhyngddynt. Golyga hyn bod cydweithio ar gynllun datblygu yn gwneud synnwyr cynllunio ac economaidd.

1.5 Bydd cydweithio'n galluogi'r ddau Gyngor i daclo materion cymhleth gyda'i gilydd ac fe all roi llais cryfach iddynt wrth drafod materion gyda'u partneriaid. Mae adolygiad o wybodaeth sydd ar gael wedi dangos materion trawsffiniol pwysig sy'n rhoi sail gref i baratoi CDLl ar y Cyd ar gyfer yr ardal dan sylw. Mae'r rhain fel a ganlyn:








## Map 1: Ardal y CDLl ar y Cyd

- Swyddi - mae'r galw am, a'r cyflenwad o swyddi yn creu patrymau teithio cryf rhwng Ynys Môn a gogledd Gwynedd.
- Swyddi – rhaglen dadgomisiynu Trawsfynydd (dros 650 o weithwyr) a rhaglen cynhyrchu trydan a'r gwaith dadgomisiynu yn y Wylfa (dros 600 o weithwyr) yn dod i ben yn ystod oes y CDLl ar y Cyd, - raglenni sy'n cyflogi gweithwyr o wahanol rannau'r ardal
- Cynllun Gofodol Cymru (2008) - mae'n adnabod 6 Ardal a gafodd eu datblygu gan y Grwpiau Ardal drwy gydweithio ac ymchwil helaeth. Aeth pob Ardal ati mewn ffordd wahanol, sy'n adlewyrchu eu blaenoriaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt. Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn disgyn o fewn 2 o'r 6 Ardal a cheir mwy o fanylion amdan y rhain ym Mhennod 3 o'r ddogfen yma
- Rhaglen Ynys Ynni Môn, sef ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid yn y sector gyhoeddus a'r sector breifat (gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru) i roi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygu ynni, cynhyrchu a gwasanaethu, a fydd yn fodd o ddylanwadu ar ddatblygiad prosiectau isadeiledd mawr a ddaw a budd economaidd a chymdeithasol i'r Ynys a Gogledd Orllewin Cymru
- Rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd: mae elfennau pwysig o'r rhwydwaith ffordd a rheilffordd yn croesi ar draws ffiniau gweinyddol y ddwy ardal
- Ardaloedd Marchnad Tai sydd gan ffiniau daearyddol traws-ffiniol a dylanwadau sy'n gyffredin
- Siopa - dylanwad Bangor fel canolfan siopa isranbarthol
- Isadeiledd – capasiti'r rhwydwaith ffyrdd, rhwydwaith trawsyriant ynni, gweithfeydd a'r rhwydwaith trin carthion, cyflenwad dŵr
- Tirwedd – y berthynas ar draws y Fenai

## Beth yw pwrpas y CDLl ar y Cyd?

1.6 Bydd yn dweud beth fydd y strategaeth a'r amcanion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ardal Awdurdodau Cynllunio Môn a Gwynedd ac yn cynnwys polisïau a ddefnyddir i weithredu nhw dros gyfnod o 15 mlynedd (2011 i 2026). Fe fydd gan y CDLl ar y Cyd ddylanwad arwyddocaol ar ddatblygiad yr ardal gyfan a'r cymunedau unigol. Fe fydd yn darparu arweiniad ynglŷn â lle bydd tai newydd, cyfleon gyflogaeth a chyfleusterau hamdden a chymunedol yn cael eu hadeiladu yn yr ardal. Defnyddir y CDLl ar y Cyd i benderfynu pa ddatblygiadau fydd yn cael caniatâd yn y dyfodol gan y Cynghorau ac yn lle.

1.7 Mae gofyn bod y CDLl ar y Cyd yn 'gadarn', h.y. yn arddangos barn dda ac y gellir ymddiried ynddo. Fe fydd rhaid edrych ar y materion sy'n bwysig i'r ardal, ei selio ar dystiolaeth am yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd, ac fe fydd rhaid rhoi ystyriaeth deg i ddewisiadau amgen ymarferol.




## Y broses o lunio'r CDLl ar y Cyd

1.8 Dangosir y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd yn Ffigwr 1.

1.9 Hyd yma mae'r Cynghorau wedi:

- Cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni a sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru (LlC) iddo;
- Casglu tystiolaeth, cynnal asesiadau a gwaith paratoadol arall, a chynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol. Gellir gweld copïau o bapurau cefndir ar wefannau'r ddau Gyngor a cheir rhestr ohonynt yn Atodiad 1: Rhestr of Ddogfennau Allweddol;
- Cyhoeddi dogfen drafod am y materion, amcanion a'r opsiynau amgen i ennyn trafodaeth a chael barn a chynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol;
- Darparu cyfle i unrhyw un gyflwyno Safleoedd Posib i'w rhoi ar y Gofrestr Safleoedd Posib ac ymgynghori a'r cyhoedd am y fethodoleg asesu'r safleoedd;
- Datblygu'r Fframwaith Cynaliadwyedd mewn ymgynghoriad a rhanddeiliaid allweddol a chyhoeddi Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd dechreuol o'r CDLl ar y Cyd;
- Cynnal nifer o asesiadau eraill o'r CDLl ar y Cyd a rhoi sylw i'w canfyddiadau. Dyma'r asesiadau: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Asesiad Effaith Iechyd, Asesiad Cydraddoldeb, Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

# **Ffigwr 1:**
# Diagram o'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol



1.10 Bydd y CDLl ar y Cyd yn cael ei bwyso a'i fesur yn erbyn y Profion Cadernid. Mae'r rhain yn cyfeirio at gynnwys polisi'r CDLl ar y Cyd yn ogystal â'r prosesau ar gyfer ei gynhyrchu. Atgynhyrchir y Profion yn Atodiad 2: "Profion Cadernid: Hunanasesu".

1.11 Dangosir yr amserlen i fynd trwy'r broses yn Ffigwr 2

| | |
|---|---|
| **Casglu tystiolaeth am yr ardal** | Mai 2011 – Hydref 2012 |
| **Gofyn barn am faterion** | Tachwedd 2011 – Ionawr 2012 |
| **Datblygu'r ddogfen Hoff Strategaeth** | Chwefror - Tachwedd 2012 |
| **Ymgynghori am y ddogfen Hoff Strategaeth** | Mai - Mehefin 2013 |
| **Datblygu'r Cynllun Drafft Adneuo** | Ebrill – Hydref 2013 |
| **Cyflwyno'r Cynllun** | Ebrill 2014 |
| **Archwiliad Cyhoeddus** | Ebrill 2015 |
| **Mabwysiadu'r Cynllun** | Ebrill 2016 |

## Beth sydd yn y ddogfen Hoff Strategaeth?

1.12 Y dogfennau Hoff Strategaeth (sy'n cael eu cyfeirio ato fel y Cynllun Cyn-Adnau hefyd) yw cam cyntaf statudol y CDLl ar y Cyd. Mae'n:

- Amlinellu'r fframwaith bolisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n rhoi'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun;
- nodi tueddiadau allweddol a materion sy'n effeithio ar yr ardal;
- rhoi'r Weledigaeth, Amcanion, Opsiynau Twf a Dosbarthiad Amgen a drafodwyd;
- adnabod yr Hoff Strategaeth – bydd y rhan yma'n rhoi'r strategaeth ddrafft am le neu beidio dylai datblygiad fynd iddo yn yr ardal;
- cynnwys y polisïau strategol a fydd yn cyflenwi'r weledigaeth, yr amcanion a'r strategaeth. Mae'r rhan yma'n cynnwys Deiagram Allweddol sy'n dangos pa safleoedd all ymdopi gyda Safleoedd Strategol.

## Beth fydd ddim yn y ddogfen Hoff Strategaeth?

1.13 Ni fydd y ddogfen Hoff Strategaeth yn cyflwyno:

Pob safle datblygu - mae'r ddogfen Hoff Strategaeth yn canolbwyntio ar leoliaidau posib ar gyfer Safleoedd Strategol. Ni fydd yn cynnwys pob safle datblygu ac ni fydd yn cyfeirio at ba rannau o drefi neu bentrefi gaiff eu datblygu. Byddwn yn canolbwyntio ar ddewis amrediad o safleoedd addas ar ôl i ni ymgynghori'n gyhoeddus am y ddogfen Hoff Strategaeth a chael cytundeb bod y strategaeth gyffredinol yn gywir. Caiff amrediad o safleoedd eu cynnwys yn y fersiwn nesaf o'r Cynllun, sef y Cynllun Adnau, a bydd hwnnw'n destun ymgynghoriad cyhoeddus yn nes ymlaen yn 2013.

Polisïau cynllunio manwl - caiff y polisïau cynllunio manwl eu hysgrifennu ar ôl i ni ymgynghori am y ddogfen Hoff Strategaeth a fydd yn cynnwys y polisïau strategol yn unig. Defnyddir y polisïau strategol fel sail ar gyfer llunio'r polisïau mwy manwl. Fel yn achos pob safle datblygu fe gaiff yr amrediad llawn o'r polisïau eu cynnwys yn y Cynllun Adnau, a bydd hwnnw'n destun ymgynghoriad cyhoeddus yn nes ymlaen yn 2013

1.14 Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail ar gyfer y CDLl ar y Cyd mewn nifer o ddogfennau. Ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 1: "Rhestr o Ddogfennau Allweddol". Byddwn yn ychwanegu at y rhestr yma wrth baratoi'r Cynllun Adnau.

1.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori am y ddogfen Hoff Strategaeth hwn, bydd y Cynghorau'n gweithio ar ddatblygu'r Cynllun Adnau. Bydd y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori am y ddogfen Hoff Strategaeth hwn, gwaith i ddatblygu'r sail dystiolaeth ymhellach ac ystyriaeth o opsiynau'n cael eu defnyddio i lunio'r Cynllun Adnau Drafft. Bydd cyhoeddi'r fersiwn yma o'r Cynllun yn cael ei ddilyn gyda chyfnod o ymgynghori ffurfiol arall.

1.16 Caiff y Cynllun Adnau Drafft ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi Arolygydd Annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Bydd yr Arolygydd yn archwilio'r dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r Cynllun a'r sylwadau a dderbyniwyd yn y cyfnod ymgynghori am y Cynllun Adnau ac yn penderfynu a yw'r Cynllun yn bodloni'r Profion Cadernid. Rhagwelir y bydd yr Archwiliad yn digwydd ym mis Ebrill 2015, gyda phenderfyniad yr Arolygydd yn cael ei gyflwyno erbyn mis Ebrill 2016.

## Sut allwch chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus am y ddogfen Hoff Strategaeth?

1.17 Bydd cyfle i chi gyflwyno sylwadau am y ddogfen Hoff Strategaeth hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 6 wythnos. Gellir gweld manylion am y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn y rhybudd statudol fydd ar wefan y Cynghorau ac yn y mannau cyhoeddus lle gellir gweld y ddogfen yma.

1.18 Mae ymgynghoriadau ar wahân yn cael eu cynnal am yr Asesiad Cynaliadwyedd (AC) a'r nodyn am yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Dylid cyflwyno sylwadau ar wahân, fel yr eglurir yn y dogfennau eu hunain.

1.19 Mae casgliadau'r gwaith asesu'r Gofrestr Safleoedd Posib hyd yma hefyd ar gael i'w gweld ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Nid yw hyn yn ofyniad statudol ond gwahoddir sylwadau am y gwaith hyd yma trwy ddefnyddio'r ffurflen sylwadau pwrpasol. Bydd y papur testun yma'n darparu rhestr o Safleoedd Strategol posib. Bydd y broses ffiltro gaiff ei ddisgrifio yn ddogfen sy'n cyfeirio at y fethodoleg o asesu'r Gofrestr o Safleoedd Posib yn cario'n mlaen yn ystod y cyfnod ymgynghori hyd at pan gaiff y Cynllun Adnau ei gyhoeddi.

## Cyflwyno sylwadau ar lein

1.20 Dilynwch y cyfarwyddiadau ar wefan y Cyngor i weld y fersiwn ar lein o'r ddogfen yma er mwyn gallu cynnwys eich sylwadau. Dyma yw'r ffordd sy'n cael ei ffafrio gan y Cyngor er mwyn gwneud y broses o asesu'r sylwadau yn un mor effeithiol ac effeithlon a phosib.

1.21 Gellir cyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig hefyd trwy ddefnyddio'r ffurflen bwrpasol a'i phostio i polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

## Os nad oes gennych fynediad i gyfrifiadur

1.22 Gallwch gyflwyno eich sylwadau'n ysgrifenedig trwy ddefnyddio'r ffurflen sylwadau pwrpasol a'i hanfon i'r cyfeiriad isod. Gofalwch fod unrhyw sylwadau'n nodi'n glir at ba ran/ baragraff o'r Cynllun rydych chi'n cyfeirio ato, a'u bod yn cynnwys manylion cyswllt - eich enw, eich cyfeiriad, eich rhif ffôn ac unrhyw fanylion e-bost, fel bod modd i ni gysylltu â chi os bydd gennym unrhyw gwestiynau. Gallwch weld copïau o'r ddogfen yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, Swyddfeydd y Cynghorau, Siopau dan Un To Cyngor Gwynedd, lle gallwch hefyd dderbyn help i weld y wybodaeth a gedwir ar wefan y CDLl ar y Cyd.

1.23 Os fydd angen dogfen mewn iaith wahanol, neu brint bras, neu fformat gwahanol, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

## Sut allwch chi gysylltu gyda ni?


1.24 Mae manylion cyswllt yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fel a ganlyn:

Trwy e-bost: polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

Drwy ysgrifennu: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn, Neuadd y Dref, Bangor, LL57 1DT

Dros y ffon; 01766 771000 a gofyn am yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

Cyfeiriad ein gwefan: www.gwynedd.gov.uk neu www.ynysmon.gov.uk




Pennod 2
Asesiadau

## Asesiad cynaliadwyedd

2.1 Mae'n rhaid i'r CDLl ar y Cyd gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy. Yn unol â'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gofodol (2004) mae'n ofynnol i'r CDLl fod yn destun Arfarniad Cynaladwyedd (AC). Yn ychwanegol i'r angen i ymgymryd ag AC o'r CDLl ar y Cyd, yn unol â Chyfarwyddeb Ewropeaidd 001/42/EC, mae'n ofynnol hefyd i'r cynllun fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Proses yw AAS sy'n ceisio sicrhau fod yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n codi o gynlluniau a rhaglenni yn cael eu hadnabod, asesu, lliniaru, a'u monitro.

2.2 Mae'r broses Asesiad Cynaliadwyedd (AC) yn mynd ymlaen drwy gydol y cyfnod paratoi'r CDLl ar y Cyd er mwyn asesu ardrawiad y polisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol fel cant eu datblygu. Mae'r AC yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).

2.3 Cam cyntaf yn y broses AC oedd cynhyrchu Adroddiad Cwmpasu. Drwy ystyried y materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sy'n wynebu'r ardal, datblygwyd amcanion a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau cynaladwyedd y Cynllun hyd yma.

2.4 Mae'r Adroddiad AC Dechreuol sydd i'w gweld efo'r ddogfen yma yn rhoi asesiad o'r polisïau a'r cynigion sydd yn y ddogfen Hoff Strategaeth, yn ogystal â'r dewisiadau amgen er mwyn sicrhau bod yr opsiynau mwyaf cynaliadwy wedi cael eu hadnabod. Gellir gweld yr Adroddiad yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, Swyddfeydd y Cyngor, gwefan y Cyngor, a'i lawrlwytho oddi ar gwefan y Cyngor.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd


2.5 Ochr yn ochr â'r broses AC, mae'n angenrheidiol ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o'r CDLl ar y Cyd, yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd (92/43/EEC). ARhC yw'r broses sy'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio ei ymgymryd er mwyn ystyried os yw cynllun neu raglen arfaethedig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd sydd wedi ei ddynodi am ei werth cadwraeth natur.

2.6 Mae'r ddogfen hoff strategaeth wedi cael ei sgrinio er mwyn penderfynu a fyddai'n cael unrhyw effeithiau sylweddol tebygol, o bosibl, ar y safleoedd Ewropeaidd sydd wedi cael eu dynodi. Gellir gweld yr Adroddiad yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, Swyddfeydd y Cyngor, gwefan y Cyngor, a'i lawrlwytho oddi ar gwefan y Cyngor. Bydd y broses ARhC yn un cyfredol fel mae'r Cynllun yn datblygu.

## Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

2.7 Er mwyn sicrhau na fydd y CDLl ar y Cyd yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg, bwriedir ymgymryd ag Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) o'r Cynllun fel mae'n datblygu. Mae'r Opsiynau Strategol a'r Polisïau Strategol wedi bod yn destun AEIG, sydd wedi hysbysu'r Hoff Strategaeth. Gellir gweld yr Adroddiad yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, Swyddfeydd y Cyngor, gwefan y Cyngor, a'i lawrlwytho oddi ar gwefan y Cyngor.

2.8Cydnabyddir bod Asesiad Effaith Ieithyddol (AEI) CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd yn broses ailadroddus ac y bydd angen adolygu'r asesiad pan fo agweddau o'r cynllun yn newid wrth symud tuag at greu cynllun adnau.



## Asesiad Effaith Cydraddoldeb

2.9 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) o rai dogfennau yn ofyn cyfreithiol. Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn declyn sy'n cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r Cyngor yn gwahaniaethu, yn hyrwyddo cydraddoldeb ble bynnag y bo modd ac yn meithrin perthnasau cymunedol da.


2.10 Gan fod y CDLl ar y Cyd yn gynllun defnydd tir, mae ei effaith ar gydraddoldeb hefyd yn gysylltiedig â mynediad at wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd. Yn sgil ei botensial i effeithio ar grwpiau ac unigolion penodol, penderfynwyd cynnal AEC o'r Cynllun i sicrhau nad yw'r CDLl ar y Cyd yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol ac adnabod y cyfraniad positif mae'r CDLl ar y Cyd yn ei wneud at y rhaglen cydraddoldeb. Ymgymerwyd ag AEC o'r CDLl Cyn Adneuo. Gellir gweld yr Adroddiad yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, Swyddfeydd y Cyngor, gwefan y Cyngor, a'i lawrlwytho oddi ar gwefan y Cyngor.

## Asesiad Effaith Iechyd

2.11 Oherwydd ei allu i effeithio ar iechyd rhai grwpiau ac unigolion penodol, penderfynwyd ymgymryd ag Asesiad Effaith Iechyd o'r Cynllun i sicrhau bod y CDLl ar y Cyd yn lliniaru unrhyw effeithiau a hefyd yn hyrwyddo a gwella iechyd a lles y boblogaeth sy'n byw yn yr ardal. Ymgymerwyd ag AEI o'r Hoff Strategaeth drafft. Gellir gweld yr Adroddiad yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, Swyddfeydd y Cyngor, gwefan y Cyngor, a'i lawrlwytho oddi ar gwefan y Cyngor.



# Pennod 3
# Fframwaith Polisi



3.1 Mae yna nifer o gynlluniau, strategaethau a datganiadau polisi cenedlaethol, isranbarthol a lleol yn rhoi'r fframwaith ar gyfer datblygiad yn ardal y CDLl ar y Cyd. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn ei gwneud hi'n ofynnol bod cynlluniau datblygu lleol yn cael eu paratoi a'i fod yn rhoi sylw i'r dogfennau yma. Mae'r rhan yma o'r ddogfen Hoff Strategaeth yn tynnu sylw at elfennau allweddol o'r fframwaith polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y CDLl ar y Cyd hyd yma. Cyfeirir yma at rai o'r prif gynlluniau a pholisïau - nid yw'n rhestr gynhwysol. Mae Papur Testun 2 - Y cyd-destun polisi, yn cynnwys rhestr gynhwysfawr.

3.2 Atgynhyrchir y Profion Cadernid sy'n cynnwys prawf yn ymwneud a'r cyd-destun polisi yn Atodiad 2: "Profion Cadernid: Hunanasesu".

## Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru (PCMC)


3.3 Mae PCC a PCMC, efo'r Nodiadau Cyngor Technegol, Cylchlythyron a dogfennau atodol, e.e. CDLl Cymru, yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu lleol. Mae PCC hefyd yn cynnwys polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru, nad oes angen eu hail-adrodd nhw yn y cynlluniau datblygu lleol.

3.4 Mae'r system gynllunio yn hanfodol ar gyfer sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n bodoli er mwyn rheoleiddio'r broses o ddatblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd. Ei ddiben yw cysoni anghenion o ran datblygu a chadwraeth, gan sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac amwynder yn y modd y caiff tir ei ddefnyddio a chan warchod adnoddau naturiol a'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n gwneud hynny er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.

## Cynllun Gofodol Cymru: Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Diweddariad 2008 (CGC)

3.5 Mae CGC yn cyflwyno fframwaith strategol ar gyfer tywys datblygiad ac ymyriadau polisi yng Nghymru yn y dyfodol. Mae Ynys Môn a Gogledd Gwynedd yn rhan o ardal Ogledd-Orllewin Cymru: Eryri a Môn: Ei weledigaeth ar gyfer y parth yma yw:


'Amgylchedd ffisegol a naturiol o ansawdd uchel yn cynnal economi sy'n seiliedig ar wybodaeth a diwylliant, a fydd yn gymorth i'r ardal gynnal ei chymeriad unigryw, i gadw a denu pobl ifanc yn ôl, ac i gynnal yr iaith Gymraeg'.





3.6 Mae de Gwynedd yn rhan o ardal Canol Cymru. Ei weledigaeth ar gyfer y parth yma yw:

'Safon byw a gweithio uchel mewn aneddiadau llai eu maint o fewn amgylchedd gwych, gan ddarparu modelau deinamig o ddatblygu gwledig cynaliadwy, gan symud pob sector i weithgareddau sy'n cynnig gwerth ychwanegol'




## Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS)


3.7 Mae safle ger gorsaf pwer niwclear Wylfa, sydd yng ngogledd Ynys Môn, wedi cael ei adnabod gan Lywodraeth y DU yn y NPS fel safle posib ar gyfer gorsaf pwer niwclear newydd. Mae adeiladu'r atomfa niwclear newydd yn Brosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol o dan Deddf Cynllunio 2008. Oherwydd ei bwysigrwydd i'r DU fe fydd datblygiad y safle yma'n destun proses ganiatáu gwahanol i'r un mae awdurdod cynllunio lleol fel arfer yn mynd drwyddo. O dan y drefn newydd fe gaiff cais am Rybudd Caniatâd Datblygu ei gyflwyno i'r Adran Isadeiledd Cenedlaethol o fewn yr Arolygaeth Cynllunio, a fydd yn penderfynu os dylid caniatáu'r cais a'i pheidio. Yn wahanol i'r drefn yn Lloegr, yr awdurdod cynllunio lleol a fydd yn penderfynu ceisiadau am ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â'r prif safle. Gall datblygiadau cysylltiedig gynnwys:

- Gwaith hwyluso ar y prif safle
- Gwelliannau ffyrdd sydd ar neu oddi wrth y llwybr presennol
- Isadeiledd logisteg a pharcio a theithio
- Llety i weithwyr adeiladu

3.8 Yng Ngorffennaf 2011 fe gymeradwywyd 6 NPS am Ynni. Mae'r NPS yn rhoi'r polisi cenedlaethol a gaiff eu defnyddio i asesu cynigion am brosiectau mawr am ynni a gwneud penderfyniadau amdanynt gan y NID. NPS EN1, EN-3, EN-5 a EN-6 yw'r rhai sy'n debygol o fod yn berthnasol i ardal y CDLl ar y Cyd oherwydd y prosiectau isadeiledd mawr sy'n debygol o fod ag oblygiadau defnydd tir i'r ardal, e.e. adeiladu gorsaf bwer niwlear newydd yn Wylfa, gwelliannau i'r rhwydwaith trawsgludo trydan y Grid Cenedlaethol, ffermydd gwynt newydd ar y môr neu ar y tir. Mae tudalen 264 o Gyfrol 11 o NPS EN-6 yn adnabod ffin y safle ar gyfer yr orsaf bwer niwclear newydd yn Ynys Mon:

3.9 Er mai bwriad pennaf y NPS yw rhoi arweiniad i'r Arolygaeth Cynllunio i wneud penderfyniadau ar brosiectau mawr perthnasol, fe fydd angen i'r broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd roi sylw llawn iddynt a'u dehongli wrth baratoi unrhyw bolisïau perthnasol.

3.10 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r prif gynlluniau a pholisïau rhanbarthol a lleol Nid yw'n rhestr gynhwysfawr - mae Papur Testun 2 - Y cyd-destun polisi, yn cynnwys rhestr gynhwysfawr.



# Cynllun, polisi neu raglen

## Cynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru (TAITH)

### Crynodeb

Bwriad y cynllun yw cyflenwi rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, gynaliadwy ac effeithlon i gefnogi gweithgareddau economaidd a chymdeithasol cymunedau a busnesau amrywiol Gogledd Cymru gan roi ystyriaeth i'w rôl Ewropeaidd strategol.

Bwriedir cyflawni'r weledigaeth hon drwy:

- Optimeiddio hygyrchedd at gyflogaeth, addysg, iechyd a gwasanaethau ar gyfer holl gymunedau amrywiol Gogledd Cymru
- Gwella ansawdd a darpariaeth trafnidiaeth teithwyr ar draws Gogledd Cymru ac i mewn ac allan o'r Rhanbarth
- Hwyluso symudiad effeithlon nwyddau i gefnogi diwydiant a masnach y Rhanbarth a'i swyddogaethau Porth Rhyngwladol
- Darparu, hyrwyddo a gwella ffurfiau trafnidiaeth a seilwaith cynaliadwy er mwyn isafu effeithiau negyddol trafnidiaeth ar yr amgylchedd lleol ac yn fyd-eang
- Gwella diogelwch pob ffurf o drafnidiaeth
- Gwella effeithlonrwydd a defnydd o'r rhwydwaith drafnidiaeth
- Uwchraddio a chynnal y seilwaith trafnidiaeth, gan ddarparu seilwaith arwyddocaol newydd yn ôl yr angen

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo dulliau cludiant sy'n garedig i'r amgylchedd a datblygu rhwydwaith cludiant craidd wedi'i hintegreiddio'n dda ac sy'n ddiogel, effeithiol, glân a theg.

Mae darparu cludiant cyhoeddus effeithiol yn bwysig wrth ystyried twf yn Ardal y Cynllun. Bydd argaeledd cludiant cyhoeddus yn ystyriaeth flaenllaw wrth lunio strategaeth ar gyfer y CDLl ar y Cyd yn enwedig o safbwynt cynaliadwyedd, hygyrchedd, lleihau dibyniaeth ar geir ac i gynorthwyo i ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau fod datblygiadau newydd yn cael eu tywys i ardaloedd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth effeithiol a chynaliadwy.



# Cynllun Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TRACC)

## Crynodeb

Bwriad y Cynllun yw cynllunio ar gyfer, a darparu mewn partneriaeth, system drafnidiaeth integredig yn Rhanbarth TraCC sy'n hwyluso datblygu economaidd, yn sicrhau mynediad i bawb i wasanaethau a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedol ac yn parchu'r amgylchedd. Blaenoriaethau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC yw:

1. Lleihau'r galw am deithio
2. Lleihau effaith mudo ar yr amgylchedd lleol a byd-eang.
3. Gwella diogelwch eiddo a diogelwch personol holl ddefnyddwyr trafnidiaeth.
4. Gwella hygyrchedd teithio i wasanaethau, swyddi a chyfleusterau ym mhob sector o gymdeithas.
5. Gwella ansawdd ac integreiddiad y system drafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys swyddogaeth trafnidiaeth gymunedol.
6. Darparu, hyrwyddo a gwella dulliau cynaliadwy o deithio.
7. Cynnal a gwella'r seilwaith priffyrdd a thrafnidiaeth bresennol.
8. Sicrhau bod materion teithio a hygyrchedd yn cael eu hintegreiddio'n briodol mewn penderfyniadau defnydd tir.
9. Gwella effeithlonrwydd, dibynadwyedd a chydgysylltiad mudo o fewn Canolbarth Cymru a rhwng y canolbarth a rhanbarthau eraill yng Nghymru a Lloegr.
10. Darparu rhwydwaith cydgysylltiedig ac integredig o deithio a thrafnidiaeth trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

## Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo dulliau cludiant sy'n garedig i'r amgylchedd a datblygu rhwydwaith cludiant craidd wedi'i hintegreiddio'n dda ac sy'n ddiogel, effeithiol, glân a theg.

Mae darparu cludiant cyhoeddus effeithiol yn bwysig wrth ystyried twf yn Ardal y Cynllun. Bydd argaeledd cludiant cyhoeddus yn ystyriaeth flaenllaw wrth lunio strategaeth ar gyfer y CDLl ar y Cyd yn enwedig o safbwynt cynaliadwyedd, hygyrchedd, lleihau dibyniaeth ar geir ac i gynorthwyo i ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau fod datblygiadau newydd yn cael eu tywys i ardaloedd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth effeithiol a chynaliadwy.

## Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru

### Crynodeb

Cytunwyd ar Gynllun Gwastraff Rhanbarthol cyntaf Gogledd Cymru gan y Grŵp Aelodau Rhanbarthol (gydag aelodaeth o'r saith Awdurdod Unedol a Pharc Cenedlaethol Eryri). Mae Cyngor Nodyn Technegol 21 yn gofyn am i'r cynllun gael ei adolygu bob tair blynedd, ac felly cadarnhawyd yr adolygiad cyntaf ym mis Gorffennaf 2009. Bydd y cynllun yn darparu canllaw cynllunio defnydd tir ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy ac adfer adnoddau yn y rhanbarth. Er enghraifft fel canllaw wrth ddyrannu safleoedd yn y CDLl ar y Cyd neu wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau gwastraff.

Gweledigaeth y Cynllun yw darparu fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy ac adfer adnoddau yng Ngogledd Cymru efo'r amcanion canlynol:

- Amcan A: lleihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd ac iechyd dynol.
- Amcan B: lleihau effeithiau negyddol cymdeithasol ac economaidd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd.
- Amcan C: cwrdd ag anghenion cymunedau a busnesau.
- Amcan D: cadw at y gofynion deddfwriaethol, targedau, egwyddorion a pholisïau a bennir gan y fframwaith bolisi Ewropeaidd a Chenedlaethol.

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Mae ymdrin â gwastraff yn fater hynod o bwysig yn enwedig felly yn sgil y penderfyniad i leihau'r defnydd o dirlenwi a'r cyfleon a gynigir ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio'r gwastraff.

Bydd y Strategaeth yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio ac yn darparu fframwaith strategol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ac i ffurfio polisïau a chynigion defnydd tir penodol.

Fe fydd yn bwysig bod yn rhagweithiol wrth roi sylw i'r angen i adnabod safleoedd a mathau o gyfleusterau i ddarparu rhwydwaith cynaliadwy o gyfleusterau rheoli gwastraff yn Ardal y Cynllun.

## Rhaglen Môn a Menai 2011 - 2014

### Crynodeb

Yn amcanu i hwyluso prosiectau sy'n:

1. adeiladu economi dynamig gydag ystod amrywiol o fusnesau newydd sy'n datblygu.

2. datblygu gweithlu gyda sgiliau ac yn hyblyg er mwyn cwrdd ag anghenion economaidd y dyfodol

3. darparu sector dwristiaeth gref sy'n uchafu'r cyfleon sydd ar gael oherwydd treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol unigryw, a'i amgylchedd safon uchel sy'n cynnig cyfleon gweithgareddau awyr agored.

4. arwain i ganol trefi deniadol a llefydd cyhoeddus sy'n darparu cyfleusterau cyfoesol i'w trigolion ac ymwelwyr.

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Fe ddylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso prosiectau sy'n cymryd mantais o gryfderau'r ardal tar ar yr un pryd yn gallu manteisio ar gyfleon newydd yn yr ardal.

## Astudiaeth Marchnad Tai Gogledd Orllewin Cymru (adroddiad gwaelodlin 2008)

### Crynodeb

Bydd Asesiad Marchnad Tai Lleol Gogledd Orllewin Cymru yn datblygu modd ar

gyfer adnabod a monitro angen a'r galw am dai yn siroedd Conwy, Dinbych,

Gwynedd, Ynys Môn ac ardal Parc Cenedlaethol Eryri.

Cyhoeddwyd adroddiad gwaelodlin sy'n amlinellu'r angen am dai fforddiadwy. Cafodd 17 o ardaloedd marchnad tai eu hadnabod ar draws Gogledd Orllewin Cymru ac mae proffil wedi cael ei baratoi ar gyfer pob un.

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Fe fydd yn bwysig fod y CDLl ar y Cyd yn monitro ac yn newid polisi i sicrhau bod polisïau a'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn adlewyrchu casgliadau'r asesiad yma.

## Astudiaeth Angen Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru a Sir Fflint (2012)

### Crynodeb

Mae siroedd Gogledd Orllewin Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a Sir Fflint wedi bod yn cydweithio efo'i gilydd a Phrifysgol Bangor I adnabod yr angen am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Caiff casgliadau'r Astudiaeth ei gyhoeddi'n ystod mis Medi 2012, ac mae'n debygol o ddangos angen am lety parhaol a llety dros dro yn ardal yr Astudiaeth.

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Fe fydd yn ofynnol i'r CDLl ar y Cyd adnabod safle(oedd) os dengys yr Astudiaeth fod angen llety yn ardal y Cynllun.

## Cynllun Integredig Gwynedd – 'Gwella Gwynedd Gyda'n Gilydd' (2011))

### Crynodeb

Pwrpas y Cynllun Integredig yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol

ac amgylcheddol yng Ngwynedd. Wrth lunio amcanion y ddogfen, fe gytunwyd i

anelu at 5 prif ganlyniad sef:

- Ardal ble mae'r economi yn ffynnu
- Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy
- Ardal ble mae plant a phobl ifanc yn llwyddo
- Ardal gyffrous i fyw gyda chymunedau byrlymus
- Ardal gydag iechyd da a'r gofal gorau yn y gymuned anelir amdanynt.

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Dylai'r CDLl ar y Cyd ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy o ran nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel yr amlinellir yn y Cynllun.



## Cynllun Integredig Ynys Môn – Ein Ynys Ein Dyfodol (sydd ar y gweill) (2012)

### Crynodeb

Mae'r Cynllun Integredig yn canolbwyntio ar dri pheth allweddol sef Pobl, Lle a Swyddi. Gweledigaeth y Strategaeth yw gweithio i greu swyddi, gwella iechyd a darparu lle diogel a chynaliadwy. Bwriedir cyflawni hyn drwy'r weithredu'r amcanion canlynol:

- Creu dyfodol llewyrchus i Ynys Môn drwy adfywiad economaidd cynaliadwy
- Hyrwyddo unigolion a chymunedau iach ac egnïol
- Diogelu, gwella a hyrwyddo amgylchedd cyfoethog ac amrywiol yr Ynys
- Hyrwyddo Ynys ddiogel sy'n golygu y gall pobl fyw yn saff yn eu cartrefi a'u cymunedau
- Cefnogi cymunedau cryf, llewyrchus, cynhwysol ac amrywiol
- Cefnogi cymunedau lle gall yr iaith Gymraeg, y diwylliant a'r dreftadaeth Gymreig lewyrchu a datblygu

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Dylai'r CDLl ar y Cyd ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy o ran nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel yr amlinellir yn y Cynllun.

Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso datblygu cymunedau iach e.e. drwy hyrwyddo mynediad i lecynnau agored, cyfleusterau hamdden ayb.

Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso datblygiad economaidd er mwyn creu cymunedau llewyrchus, atyniadol a bywiog.

## Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn (2004 – 2015)

### Crynodeb

Mae'r Cynllun yn darparu'r fframwaith ar gyfer ysgogi twf economaidd dros y cyfnod o 10 mlynedd dan sylw.  Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau'r canlynol er mwyn gwireddu'r weledigaeth:

- Economi ffyniannus a llewyrchus gyda chyfleoedd cyflogaeth o ansawdd wedi'u creu gan gyflogwyr arloesol gyda gwasanaethau cefnogol effeithiol a gweithlu medrus a hyblyg;
- Delwedd all gystadlu â gweddill y byd, gan lawn ddefnyddio asedau diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd unigryw'r Ynys i'w datblygu'n Fam Ynys i'w phobl, buddsoddwyr a'i hymwelwyr;
- Cymunedau ffyniannus a chynaliadwy o fewn economi wledig amrywiol;
- Safleoedd o ansawdd ac amgylchedd busnes cystadleuol wedi'i wasanaethu gan isadeiledd cysylltiadau a thrafnidiaeth gyfoes;
- Trefi sy'n ffynnu ac yn llewyrchu, yn yrwyr twf economaidd;
- Wedi manteisio ar ei safle strategol fel y brif fynedfa i'r Iwerddon a'r llwybr trwy Ewrop i ogledd orllewin Lloegr a thu hwnt;
- Wedi manteisio ar ei agosrwydd at adnoddau Prifysgol Cymru, Bangor.

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso adfywio economaidd cynaliadwy yn yr ardal gan roi ystyriaeth lawn i nodau, amcanion a thargedau'r Strategaeth.

Dylai'r CDLl ar y Cyd wella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.

Dylai'r CDLl ar y Cyd gefnogi gweithgarwch economaidd priodol a gwella rhagolygon a chyfleoedd cyflogaeth gan ystyried y sectorau hynny sydd fwyaf angen cefnogaeth.

Dylai'r CDLl ar y Cyd annog bywiogrwydd economaidd canol trefi yn ogystal ag yng nghefn gwlad.



## Rhaglen Ynys Ynni Môn

### Crynodeb

Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeilaid yn y sector gyhoeddus a'r sector breifat (gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru) i roi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygu ynni, cynhyrchu a gwasanaethu, a fydd yn fodd o ddylanwadu ar ddatblygiad prosiectau isadeiledd mawr ddaw i neu a fydd yn effeithio ar yr ardal.

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Dylai'r CDLl ar y Cyd ymgorffori'r egwyddorion sy'n gynwysedig yn y Rhaglen a hwyluso datblygiadau ar gyfer ynni carbon isel ledled ardal y Cynllun (gan gynnwys ffurfiau o arbed defnydd o ynni a lleihau ôl troed Carbon).

## Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd 2010

### Crynodeb

Pwrpas y Cynllun hwn yw adnabod y sefyllfa cyflogaeth ym Meirionnydd gan gynnwys nifer y gweithlu posib a'r swyddi

ar gael, strwythur yr economi, a sefyllfa ffyniant yr ardal - yn ogystal â nodi rhaglen waith bosib ar gyfer ymateb. Nod y Cynllun yw cau'r bwlch cyfle gan fanteisio'n briodol ar gryfderau ac

adnoddau Meirionnydd er mwyn sicrhau economi flaengar, fywiog a chynaliadwy gydag amrywiaeth o gyfleon gwaith o

ansawdd uchel.

### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso adfywio economaidd cynaliadwy yn yr ardal gan roi ystyriaeth lawn i nodau, amcanion a thargedau'r Strategaeth.

Dylai'r CDLl ar y Cyd wella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.

Dylai'r CDLl ar y Cyd ddynodi safleoedd ar gyfer defnydd economaidd amrywiol ynghyd â'r isadeiledd ar gyfer cyflogaeth.

Dylai'r CDLl ar y Cyd gefnogi gweithgarwch economaidd priodol a gwella rhagolygon a chyfleoedd cyflogaeth gan ystyried y sectorau hynny sydd fwyaf angen cefnogaeth.

Dylai'r CDLl ar y Cyd annog bywiogrwydd economaidd canol trefi yn ogystal ag yng nghefn gwlad.

## Strategaeth Adfywio Economaidd Gwynedd (2007 – 2013)

### Crynodeb

Nod y Cynllun hwn yw datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, byrlymus a hyfyw, gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i'r heriau ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd.

Rhagwelir y gellir gwireddu'r weledigaeth ac ymateb i'r heriau trwy amrywiaeth o weithgareddau ar draws y gwahanol feysydd, gan gynnwys:

• uwchraddio ffisegol a gweledol;

•datblygu delwedd gyfoes, allblyg a

chroesawgar i'r Sir

• datblygu cyfleoedd gwaith, busnes,

menter ac arloesedd;

• sefydlu diwylliant creadigol ac ymagwedd

mentrus ym mhob agwedd o fywyd

• datblygu gallu a sgiliau drwy addysg,

dysgu gydol oes a hyfforddiant;

• ychwanegu gwerth i'r economi drwy

ddatblygu cynnyrch cynhenid o ansawdd a

chadwyni cyflenwi lleol effeithlon

• tai ac unedau byw fforddiadwy;

• iechyd, lles a diogelwch cymunedol;

• diwylliant, y celfyddydau, adloniant a

chwaraeon;

• darpariaeth ffyrdd, llwybrau, cludiant a

thraffig;

• ynni glân, ailgylchu ac amgylchedd o

safon;

• cynyddu gallu ac adnoddau cymunedol

cynaliadwy;

•rhoi sylw i wella'r cydbwysedd demograffig a darparu cyfleusterau a gwasanaethau addas ar gyfer pobl o bob oed.


### Prif negeseuon i'r CDLL ar y Cyd

Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso adfywio economaidd cynaliadwy yn yr ardal gan roi ystyriaeth lawn i nodau, amcanion a thargedau'r Strategaeth.

Dylai'r CDLl ar y Cyd wella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.

Dylai'r CDLl ar y Cyd gefnogi gweithgarwch economaidd priodol a gwella rhagolygon a chyfleoedd cyflogaeth gan ystyried y sectorau hynny sydd fwyaf angen cefnogaeth.

Dylai'r CDLl ar y Cyd annog bywiogrwydd economaidd canol trefi yn ogystal ag yng nghefn gwlad.



## Pennod 4

# Darlun o'r ardal rwan



## Cyd-destun daearyddol

4.1 Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn cynnwys Awdurdod Unedol Ynys Môn ac Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Mae'n rhannu ffin gyda Pharc Cenedlaethol Eryri (ond nid yw'r Cynllun yma'n cynnwys ardal Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri), Cyngor Sir Fwrdeistrefol Conwy, a Chynghorau Sir Ddinbych, Powys a Cheredigion - gweler Map 2: cyd-destun gofodol). Mae'n ardal sy'n dua 3,260 km sg o ran maint. Yn ôl Cyfrifiad 2011, sef y ffynhonnell ddiweddaraf am gyfanswm poblogaeth ac aelwydydd gwahanol Gynghorau, 'roedd gan Ynys Môn boblogaeth o 69,700 ac 'roedd yna 121,900 ar draws Gwynedd. Cofnodwyd fod yna 30,600 o aelwydydd yn Ynys Môn a 52,450 o aelwydydd ar draws Gwynedd. Ceir proffil ystadegol o ardal y CDLl ar y Cyd yn Atodiad 3: Proffil Ystadegol.

4.2 Mae'r A55 (sy'n rhan o'r Rhwydwaith Ffordd Draws Ewrop (TERN)) a'r lein rheilffordd ar hyd arfordir Gogledd Cymru'n cysylltu rhannau o'r ardal gyda gweddill Gogledd Cymru a thu hwnt, sy'n golygu y gall teithwyr a nwyddau symud yn gyflym i mewn iddi ac ohoni. Mae'r porthladd yng Nghaergybi'n darparu gwasanaeth fferi gydag Iwerddon ac yn brif gyswllt rhyngddo a Gogledd Cymru a chanol a Gogledd Lloegr ar gyfer trosglwyddo cargo. Er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i rannau o'r rhwydwaith ffordd i dde Cymru nid yw'r daith yn un mor rhwydd, ond mae yna gynlluniau i wella rhannau ychwanegol ar draws Gwynedd - gweler Map 3: y rhwydwaith trawsgludo.

4.3 Yn ddaearyddol, mynyddoedd ac arfordir a geir yn bennaf yn yr ardal, ac mae'n cynnwys asedau amgylcheddol hynod o arbennig, sydd wedi'u cydnabod a'u dynodi'n genedlaethol a rhyngwladol. Ardaloedd mynyddig sydd amlycaf yn nhirwedd Gwynedd, mae tir Ynys Môn yn isel - gweler Map 4: Topograffi'r ardal a Map 5 - dynodiadau amgylcheddol cenedlaethol a rhyngwladol. Gellir olrhain dylanwad dynol ar y tirlun yn ôl i gyfnod cynhanesyddol ac fe'i gwelir yn y nifer fawr o nodweddion amlwg, h.y. Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig, Parciau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth. Oherwydd yr holl adnoddau amgylcheddol mae'r ardal yn denu nifer fawr o dwristiaid/ ymwelwyr sy'n cyrraedd ar y priffyrdd, rheilffyrdd, porthladd Caergybi a marinas amrywiol, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol.

4.4 Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir, gyda phentrefi a threfi bychan yn ardaloedd y mewndir, a'r rhan fwyaf o'r trefi mwy ar hyd yr arfordir. Yma, ar y cyfan, y ceir y cyflogwyr mwyaf ac yr amrediad mwyaf o wasanaethau, cludiant a thelegyfathrebu. Fodd bynnag, nodweddir y cymunedau hyn yn aml gan wrthgyferbyniad llwyr ac ardaloedd difreintiedig iawn yn ffinio'r rhai mwyaf ffyniannus.

4.5 Y tu allan i'r ardaloedd arfordirol mwy datblygedig, mae'r ardal yn wledig yn bennaf, gyda nifer o ardaloedd anghysbell, yn arbennig ym Meirionnydd a Phenrhyn Llŷn. Mae'r materion sydd angen sylw yn y mannau hyn yn wahanol iawn, gyda'r amgylchedd naturiol trawiadol a rhyfeddol yn cuddio'r amddifadedd a'r cyflogau isel, ac effeithiau negyddol eu lleoliadau ymylol.

4.6 Mae'r ardal hefyd yn cynnwys nifer o gymunedau sydd wedi dioddef dirywiad dros gyfnod hir neu'n fwy diweddar wedi i'r diwydiannau lleol ddod i ben, fel y chwareli a gweithgynhyrchu. Mae anghenion y cymunedau hyn unwaith eto'n gwbl wahanol i rannau eraill o'r ardal ac i Ogledd Cymru, gan fod effeithiau colli cyflogaeth ar raddfa fawr dros gyfnod estynedig o amser wedi amharu mewn nifer o ffyrdd ar y bobl a'r llefydd – gweler Map 6: Prif drefi'r ardal.

## Nodweddion a heriau lleol

4.7 Mae'r tablau isod yn rhoi rhai o'r prif negeseuon a welwyd wrth ddadansoddi'r dystiolaeth am feysydd penodol, sydd ar gael mewn sawl ffynhonnell, e.e. y sail dystiolaeth ar gyfer Cynlluniau Cymunedol Integredig y ddau Gyngor, yr Arfarniad Cynaliadwyedd o'r CDLl ar y Cyd, papurau cefndir ac astudiaethau technegol y CDLl ar y Cyd (nid yw hwn yn rhestr gynhwysfawr).

## Poblogaeth a thai

4.8 'Roedd rhagolygon poblogaeth ddiweddaraf gan y Llywodraeth ar sail ganol blwyddyn 2008 yn rhagweld y gallai'r boblogaeth gynyddu i 72,256 yn Ynys Môn a 124,238 ar draws Gwynedd erbyn 2026. Amcangyfrifir mai tua 101,875 fydd poblogaeth ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Ar sail y rhagolygon rhagwelwyd y byddai yna 35,027 o aelwydydd yn Ynys Môn a 58,498 ar draws Gwynedd, gyda thua 47,383 o'r rheini yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Fodd bynnag, mae casgliadau dechreuol o Gyfrifiad 2011 wedi rhoi ffigwr poblogaeth ac aelwydydd gwahanol ar gyfer yr ardaloedd, sy'n golygu bydd angen trin y rhagolygon yn ofalus iawn.

Mynegwyd pryder ynglyn â lefelau twf a ragwelwyd yn y rhagolygon cenedlaethol yn ystod y cyfnod cyfranogiad cyhoeddus ynglyn a datblygu'r strategaeth. Mae'r Llywodraeth yn selio'r rhagolygon ar batrwm mudo 5 mlynedd yn unig, sydd yn gyfnod cymharol fyr, yn arbennig o gofio mai patrwm mudo yw'r elfen fwyaf cyfnewidiol.

Dim ond dyfaliad gorau ydy rhagolygon o beth all ddigwydd yn y dyfodol. Os yw'r cyfnod o dueddiadau a ddefnyddir yn un byr yna lleiaf tebygol yw'r rhagolygon o fod yn rhoi darlun 'cywir' o'r dyfodol. Y rheol ystadegol cyffredinol yw y gellir defnyddio gwerth pum mlynedd o ddata i roi darlun rhesymol o batrymau dros gyfnod o bum mlynedd ymlaen, gwerth deng mlynedd i ragweld 10 mlynedd ymlaen, ac yn y blaen.

Rhagwelir gwnaiff y Llywodraeth gyhoeddi rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd sail 2011 yn yr Hydref 2013. Mae'n debyg y byddant yn dra gwahanol i'r rhai a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn 2010 (sef y rhai sail 2008), a oedd yn eu tro'n dra gwahanol i'r rhai sail 2006.

Bydd angen parhau i wneud gwaith yn y maes yma er mwyn sicrhau y bydd lefelau twf y CDLl ar y Cyd terfynol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Rhagwelir mai cynnydd mewn aelwydydd un person fydd yn gyfrifol am y mwyafrif o'r cynnydd yma. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn bobl fydd yn 75 oed neu fwy. Bydd angen darparu mwy o unedau tai ar gyfer yr henoed trwy ddefnyddio gwahanol fodelau. Mae yna niferoedd llai o bobl ifanc oed gweithio ac effeithiau negyddol oherwydd mudo allan o'r ardal. Bydd angen fframwaith hefyd sy'n hyrwyddo cyflenwad priodol o dai sy'n ddeniadol i bobl ifanc yn nhermau eu fforddiadwyedd a lleoliad.

Mae'r boblogaeth oed ysgol mewn rhannau o'r ardal (yn arbennig y rhannau mwy gwledig) yn debygol o leihau, sydd ag oblygiadau i'r ddarpariaeth ysgolion yn yr ardal.

Yn 2001 fe gofnodwyd bod 63% yn Ynys Môn a 69% yng Ngwynedd yn siarad Cymraeg, gyda dros 70% o drigolion rhai cymunedau yn gallu siarad Cymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 yn rhoi darlun salach gyda 57% a 65% yn siarad Cymraeg ym Môn a Gwynedd, yn ôl y drefn. Er hynny, mae'r iaith Gymraeg yn parhau'n elfen allweddol ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd pobl yr ardal er gwaethaf y lleihad.

Mae'r boblogaeth ym Mangor yn chwyddo gyda myfyrwyr, sy'n effeithio ar y defnydd o unedau tai sector breifat.

Mae'r diwydiant adeiladu tai'n wynebu anawsterau ar hyn o bryd, gan fod prisiau tai'n gyffredinol a'r nifer sy'n cael eu gwerthu wedi gweld gostyngiad. Yn ôl yr Astudiaeth Tir ar Gyfer Tai 2012 cafodd 119 + 121o unedau tai newydd eu darparu rhwng 2011 a 2012 yn Ynys Môn a Gwynedd (du allan i'r Parc), yn y drefn yna. Ar gyfartaledd adeiladwyd 208 a 188 unedau tai'r flwyddyn rhwng 2002 a 2012 yn Ynys Môn a Gwynedd. Adeiladwyd llai ar gyfartaledd o unedau tai yn flynyddol yn yr ardal ers 2007, sy'n un o effeithiau'r hinsawdd economaidd gyfredol, - 212 yn Ynys Môn a 174 yng Ngwynedd

Mae gwybodaeth waelodlin (2008) yr Astudiaeth Marchnad Tai Lleol Gogledd Orllewin Cymru yn dangos angen rhwng 664 a 828 y flwyddyn o unedau tai fforddiadwy i'w prynu neu i'w rhentu ar draws Gwynedd a rhwng 294 a 304 o unedau yn Ynys Môn. Bydd astudiaeth ddiweddar ar gyfer Ynys Môn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y lefel o alw ar yr Ynys. Mae cyfraniadau trwy'r system cynllunio i'r cyflenwad cyffredinol o unedau tai fforddiadwy wedi bod yn is na'r hyn a ragwelwyd oherwydd y raddfa adeiladu tai araf, yn arbennig ar safleoedd mawr.

Mae Astudiaeth Marchnad Tai Lleol Gogledd Orllewin Cymru wedi adnabod 9 o ardaloedd marchnad tai sydd un ai du mewn i ardal y CDLl ar y Cyd yn gyfan gwbl neu rannol. Nid yw'r cyflenwad o fathau o dai yn cyd-fynd bob tro a'r angen.

Dangosodd yr Asesiad Angen Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru a Sir Fflint (2012) bod yna brinder llety parhaol a dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn ardal yr astudiaeth.

Ym Mawrth 2010, cafodd Yr Wylfa ar Ynys Môn ei enwi fel dewis safle Horizon Nuclear Power (HNP) ar gyfer codi atomfa newydd. Ym Mawrth 2012 fe gyhoeddodd perchnogion HNP (sef Eon a RWE) fod y cwmni ar werth ac na fyddant yn parhau gyda'r datblygiad. Mae Hitachi bellach wedi prynu HNP. Nid oes cyhoeddiad swyddogol eto ynglyn a'r rhaglen arfaethedig o gyflwyno cais cynllunio i'r Arolygaeth Gynllunio er mwyn cael y lle'n weithredol erbyn 2020au cynnar.



Er yr oedi diweddar, mae'n glir bod adeiladu atomfa newydd yn dal i gael cefnogaeth genedlaethol (Deyrnas Unedig a Chymru). Ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd, disgwylir y bydd nifer y swyddi gweithwyr adeiladu ar ei anterth yn 2018 pan gyflogir oddeutu 6,000 o bobl ar y safle. Fodd bynnag nid yr un bobl fydd y 6,000 hwnnw drwy'r amser. Nid oes data ar gael ar hyn o bryd ynglyn a'r nifer fydd yn teithio i weithio yn y Wylfa newydd. Un rhagdybiaeth yw - o'r 6,000 swyddi, bydd 1,815 (30%) yn cael eu dal gan bobl sy'n byw o fewn y dalgylch teithio i waith 90 munud. Bydd 4,185 (70%) o'r swyddi'n cael eu gwneud gan bobl a fydd angen llefydd aros dros dro neu barhaol yn 2018. O gymhwyso'r rhagdybiaethau gorau sydd ar gael i gynllun atomfa'r Wylfa, byddai angen tua 419 o dai parhaol a 1,600 o unedau dros dro yn anterth y cyfnod adeiladu.

Ar ôl adnabod ac asesu dewisiadau posibl i ddiwallu'r galw hwn, y dewis sy'n cael ei ffafrio yw i Gyngor Sir Ynys Môn weithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi cymysgedd o wahanol fathau o lefydd aros i ddiwallu anghenion y gweithwyr adeiladu. Y cydbwysedd a argymhellir yw:

- 1/3 o'r gweithwyr yn cael eu lleoli mewn adeiladau a godwyd yn bwrpasol (nifer fach ar y safle i gwrdd ag anghenion gweithredol ond y mwyafrif ymaith o'r safle)
- 1/3 mewn tai preifat ar rent (cymysgedd o dai newydd a thai sydd eisoes yn bodoli)
- 1/3 mewn llety twristaidd (cymysgedd o lefydd newydd a llefydd sydd eisoes yn bodoli)

*Papur Testun 3: Poblogaeth a Thai; Cyfrifiad 2011; Astudiaeth Tir ar gyfer Tai 2012; Asesiad Angen Tai*

## 4.9 Cyflogaeth a gwaith

Mae economi'r wlad yng nghanol dirwasgiad ar hyn o bryd ac mae'r effeithiau'n cael eu teimlo'n lleol.

Mae yna ddiffyg cyflogaeth gwerth uchel yn yr ardal ac mae hynny i'w weld yn glir yn y data Gross Value Added (GVA). Mae'r GVA yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru

| | Ynys Môn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|
| GVA y pen (2009) | £11,441 | £14,032 | £14,664 |

Dangosodd gwaith ymchwil diweddar a gafodd ei wneud fel rhan o'r Astudiaeth Marchnad Gwaith Gogledd Orllewin Cymru pa mor fregus ydy economi Ynys Môn, oherwydd y crynodiad presennol o gyflogaeth mewn sectorau gyda GVA isel.

Mae pocedi o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yn Ynys Môn a Gwynedd a sefydlwyd nifer o bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf.

Mae'r ffaith bod pobl ifanc ddawnus a medrus yn mudo o'r ardal yn un o'r prif broblemau i'r ardal.

Mae dylanwad harddwch naturiol yr ardal yn glir oherwydd pwysigrwydd y sector dwristiaeth, e.e. gwestai llefydd bwyta. Ond tydi gwaith mewn diwydiannau sydd â chysylltiad â thwristiaeth, h.y. hamdden, dim ond ychydig bach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae trigolion Ynys Môn a Gwynedd yn ennill mwy ar gyfartaledd na'r unigolion sy'n gweithio yn y ddwy ardal, sy'n awgrymu bod trigolion yn teithio allan o Ynys Môn ac o Wynedd i gael gwaith sy'n talu mwy o gyflog. Fodd bynnag, mae enillion trigolion a'r bobl sy'n gweithio yn yr ardal yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Fe all prosiectau isadeiledd mawr o fewn yr ardal neu ar ei gyrion fod yn yrwyr newid pwysig i'r ardal ei hun a thu draw ei ffiniau, a fydd yn ei galluogi i fanteisio ar fuddiannau adfywio, economaidd a chymdeithasol tymor hir. Fe fydd yr atomfa niwclear newydd yn Wylfa, fferm wynt ym Mharth Môr Iwerddon, gwelliannau i rwydwaith trawsgludo ynni National Grid, ac eraill oll yn cael ardrawiad uniongyrchol ar dir yn ardal y Cynllun ond yn arbennig felly ar Ynys Môn, ac fe fyddant yn darparu cyfleon a heriau i'r ardal leol - gweler Map 7: Prosiectau isadeiledd mawr yn neu'n agos at Ynys Môn. Fe fydd yn bwysig y bydd buddsoddiad cenedlaethol ar y raddfa yma'n cyfrannu'n bositif i gael buddiannau tymor hir i'r cymunedau a fydd yn cynnal a chyfoethogi'r ardal. Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeilaiid yn y sector gyhoeddus a'r sector breifat (gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru) i roi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygu ynni, cynhyrchu a gwasanaethu, a fydd yn fodd o ddylanwadu ar ddatblygiad y prosiectau isadeiledd mawr yma. Mae hyn yn cynnwys datblygu sgiliau trigolion lleol fel y gallant fanteisio ar y swyddi ddaw yn sgil y prosiectau mawr yma, sydd yn ei dro'n debygol o fod yn abwyd i ddenu busnesau newydd a fydd yn cynnig swyddi da i ddod i'r ardal.

Mae Cyngor Gwynedd yn anelu i dargedu cymunedau mewn angen, gan roi blaenoriaeth iddynt trwy gefnogi'u hymdrechion nhw. Mae am hyrwyddo twf a buddsoddiad arwyddocaol yn ardal hwb Môn-Menai a hwb Porthmadog/ Pwllheli/ Penrhyndeudraeth. Ond mae o hefyd yn anelu i ddod o hyd i ddulliau i ddosbarthu'r twf ddaw o'r buddsoddiad yma ar draws ardal ehangach. Mae Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd yn nodi cyfres o ymyriadau thematig a gofodol. Mae'r sectorau allweddol a'r sectorau gwerth uchel cyfredol ac i'r dyfodol wedi cael eu hadnabod. Mae gwaith ar y gweill rwan i lunio Cynllun Cyflogaeth i ardal Llyn.

Mae'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth ar gyfer ardal y CDLl ar y Cyd yn dod i'r casgliad y dylid darparu o hyd at 6 ha'r flwyddyn o dir cyflogaeth yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd hyd at 2026. Mae hyn gyfystyr a 84 ha yr un neu 168 ha gyda'i gilydd, sy'n cynnwys lwfans llithriad/ mesur buffer a fydd yn rhoi cyflenwad gwell o dir. Ceir cyflenwad gweddol iach o dir cyflogaeth dros gyfnod 15 mlynedd yn y ddwy Sir, ond mae yna gwestiwn ynglyn a pha mor hawdd i'w datblygu ydy rhai safleoedd heb ymyrraeth o ryw fath neu'i gilydd a pha mor gyson ydy eraill o ran polisi strategol cyflogaeth ac economaidd cyfredol. Awgrymir y dylid cymryd ymagwedd hierarchaeth tuag at y ddarpariaeth o dir cyflogaeth, sy'n cynnwys gwneud darpariaeth ychwanegol yn nhermau safleoedd newydd ym mhrif aneddiadau Porthmadog a Phwllheli.

Mae Ynys Môn wedi cael ei adnabod fel Ardal Menter Môn i ffocysu ar y sector ynni, tra mae safle'r hen orsaf ynni niwclear yn Nhrawsfynydd (sydd du allan i ardal y CDLl ar y Cyd ond yn dylanwadu arno), Gwynedd wedi cael ei adnabod fel canolbwynt ar gyfer Ardal Menter Eryri i ffocysu ar fentrau TGCh a digidol, cynhyrchu ynni carbon isel arloesol a chwmnïau technoleg. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd efo'u partneriaid yn adnabod ac yn datblygu neu'n hyrwyddo cymhellion penodol i ddenu diwydiant a busnesau newydd i'r Ardaloedd Menter yma.

*Astudiaeth Tir Cyflogaeth Mon a Gwynedd 2011; Astudiaeth Cyfleon posib ac ardrawiad economaidd (URS) 2010*



## 4.10 Manwerthu

Yn y sector manwerthu, mae gwariant prynwyr yn genedlaethol wedi gostwng ac mae manwerthwyr yn wynebu amgylchiadau masnachu heriol.

Mae Bangor yn parhau i weithredu fe canolfan siopa isranbarthol.

Mae canol trefi eraill yn Ynys Môn a Gwynedd yn parhau i chwarae rhan bwysig yn darparu gwasanaethau i'r cymunedau gwledig, ond i raddau llai na fuodd nhw'n ei wneud yn hanesyddol. Mae'r Astudiaeth Manwerthu ar gyfer ardal y CDLl ar y Cyd yn rhagweld y bydd angen darparu rhagor o arwynebedd llawr siopa ychwanegol yn rhai canol trefi yn ystod oes y CDLl ar y Cyd.

Mae'r Cynghorau a'u partneriaid wedi bod yn, ac yn bwriadu cario'n'mlaen i fuddsoddi mewn gwelliannau ansoddol i amgylchedd canol trefi penodol ar draws yr ardal, e.e. Bangor, Caernarfon, Caergybi, Llangefni (nid yw hwn yn rhestr gynhwysfawr). Mae hyn yn bwysig o ran galluogi'r trefi i gadw i fyny gyda disgwyliadau eu trigolion a'r ardal o'u cwmpas ac i gynorthwyo i gynnal eu rhan yn y farchnad.

## 4.11 Twristiaeth

Mae economi ardal y Cynllun yn llawer mwy dibynnol ar y diwydiant twristiaeth na Chymru a Phrydain. Yn 2010, amcangyfrifwyd bod twristiaeth yn cefnogi 4,187 + 15,819 o swyddi yn Ynys Môn ac ar draws Gwynedd un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Yn 2010 'roedd y diwydiant werth £851.6 miliwn i economi Gwynedd gyfan a £233.71 miliwn i economi Ynys Môn.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn un dymhorol iawn.

Y prif resymau dros ymweld â'r ardal yw'r golygfeydd, traethau, mynyddoedd, treftadaeth a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ardal yn cynnig amrywiaeth o bethau i'w gweld a gwneud o fewn ardal ddaearyddol gymharol fychan.

Mae diffyg buddsoddiad rheolaidd mewn cyfleusterau newydd ac ychwanegol yn mynd i wneud hi'n anodd cynnal yr apêl gystadleuol ac ymateb yn effeithiol i anghenion ymwelwyr sy'n newid. Mae'n debygol fod yna angen am ychydig o atyniadau newydd ac arloesol, yn arbennig ar gyfer teuluoedd gyda phlant bychain, plant yn eu harddegau a gweithgareddau gyda'r nos.

Mae blaenoriaeth yn cael ei roi i dair marchnad niche: Twristiaeth actifedd; Twristiaeth digwyddiadau; a Thwristiaeth ddiwylliannol.

Mae yna orddibyniaeth ar y sector hunan arlwyo, gyda risg o orddarpariaeth mewn rhai rhannau o'r ardal. Gall cynnal a gwella'r ystod dda o lety gwasanaethol yn yr ardaloedd gwyliau traddodiadol wneud cyfraniad pwysig i'r sector llety gwyliau. Angen rheoli lleoliad safleoedd carafannau gwyliau statig a theithiol gan reoli y cyfleon ag effeithiau'r angen i ymdopi gyda hyrwyddo datblygiad sy'n cynnig llety i weithwyr adeiladu prosiectau isadeiledd mawr, e.e. gorsaf niwclear newydd. Cyfleon posib i ychwanegu at y math o lety gwyliau er mwyn cwrdd â dyheadau cyfredol rhai ymwelwyr, e.e. llety ymwelwyr ecogyfeillgar.

*4 Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru 2010-2015; Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn 2012*

## Amgylchedd

4.12 Mae rhan arwyddocaol o'r ardal yn cael ei warchod gan ddynodiadau amgylcheddol lleol, e.e. ardal tirwedd arbennig, genedlaethol, e.e. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, neu ryngwladol, e.e. Ardal Gadwraeth Arbennig. Mae ganddo asedau treftadaeth arbennig hefyd, e.e. adeiladau rhestredig.

Ceir sawl rhan o afonydd ble bo angen gwella ansawdd y dŵr yn sylweddol. Mae cynllun rheoli basn afonydd Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru, yn adnabod nifer o heriau i ansawdd dŵr wyneb, yn cynnwys: Llygredd tryledol o weithgareddau amaethyddol; llygredd tryledol o fwynfeydd hanesyddol; addasu ffisegol ardaloedd dyfrol; llygredd tarddle pwynt o weithfeydd carthffosiaeth y diwydiant dŵr ac asideiddio. Mae'r asedau amgylcheddol a threftadaeth yma o dan bwysau gan ddatblygiad. Ansawdd y rhain sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd cymunedau ond mae nhw'n dod a budd economaidd a chymdeithasol hefyd.

Tra bo tueddiadau yn dangos gwelliant yn ansawdd cyffredinol dŵr ymdrochi, gyda nifer o draethau ac ardaloedd arfordirol yn cael gwobrau am ansawdd a glanweithdra, mae'n amlwg bod angen codi safonau cyffredinol dŵr ymdrochi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi ddiwygiedig

Mae gweithgareddau yn yr ardal, fel mewn ardaloedd eraill, yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Mae gan y Cynghorau rôl arwain a hyrwyddo, ar y cyd efo'i bartneriaid, i reoli ardrawiad newid yn yr hinsawdd. Mae yna angen i liniaru ac addasu i'w effeithiau:

Lliniaru - trwy, e.e. leihau'r defnydd o geir, hyrwyddo'r defnydd o gerbydau ecogyfeillgar, newid i ddefnyddio ynni adnewyddol

Addasu - ymdopi gyda newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau, e.e. adeiladau'n gorgynnes, mwy o debygolrwydd o lifogydd, prinder dŵr a newid ecolegol.

Bydd yr Asesiad Capasiti Ynni Adnewyddol ar gyfer ardal y CDLl ar y Cyd yn rhoi arweiniad o ran pa fath o adnoddau a ellir manteisio arnynt fwyaf yn yr ardal.

*5 Adroddiad Dechreuol Asesiad Cynaliadwyedd CDLL ar y Cyd 2012; Astudiaeth Capasiti Ynni Adnewyddol Gwynedd 2012; Astudiaeth Capasiti Ynni Adnewyddol Ynys Mon 2012*

## 4.13 Gwastraff

Mae'r galw am ailddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau gwastraff wedi cynyddu'n sylweddol mewn ymateb i'r cyfarwyddyd Ewropeaidd drwy'r Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2000, i ailgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi i ffynonellau lle gellir gwneud defnydd cynaliadwy ohono.

Mae gofynion Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, yn ogystal ag amcanion y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn amlinellu'r angen i ddatblygu rhwydwaith gynaliadwy o gyfleusterau ar gyfer trin gwastraff, gyda phwyslais arbennig ar yr angen i ddarparu cyfleusterau ar gyfer ail ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn cydnabod bydd rhaid rhyddhau tir diwydiannol at ddibenion cyfleusterau fydd yn cyfrannu at drin ac ailgylchu gwastraff, os am gyrraedd targedau i leihau'r gwastraff a gludir i dirlenwi.

Mae'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (Tachwedd 2003 - 2013) yn rhoi sylw i'r gofynion cynllunio o ran defnydd tir ar gyfer holl ffrydiau gwastraff sydd dan reolaeth yng Ngogledd Cymru. Mae Cynllun yma'n rhagweld y bydd angen ailgyfeirio canran sylweddol o wastraff yng Ngogledd Cymru, drwy ddefnyddio cyfleusterau trosglwyddo gwastraff erbyn 2013.

Rydym wedi gostwng yr hyn o wastraff trefol pydradwy i safleoedd tirlenwi ac mae Ynys Môn a Gwynedd bellach yn ailgylchu dros 59%% a 52% o wastraff bwrdeistrefol.

'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yw strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru sydd yn amlinellu fframwaith hirdymor ar gyfer rheoli gwastraff ac yn tynnu sylw at yr angen i leihau faint o wastraff bwyd rydym yn ei daflu i ffwrdd ac mae'r Llywodraeth yn darparu cefnogaeth i awdurdodau lleol geisio sefydlu rhwydwaith o gyfleusterau treulio anerobig ar draws Cymru i reoli gwastraff bwyd a gesglir gan y gwasanaethau rheoli gwastraff (e.e. prosiect Gwyriad). Ymhellach, mae awdurdodau gwastraff gogledd Cymru wedi arwyddo cytundeb i ddatblygu cynllun ar y cyd i ddelio a thrin gwastraff gweddilliol mewn modd cynaliadwy ac sydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar gludo gwastraff i dirlenwi.

*6 Cynllun Gwastraff Gogledd Cymru*

## 4.14 Mwynau

Defnyddir nifer fawr o agregau ac maent yn hanfodol i'r diwydiant adeiladu ac ar gyfer prosiectau isadeiledd megis ffyrdd, ysgolion, tai ac adeiladau eraill. Mae agregau yn cynnwys tywod a graean ac fe'u ceir drwy eu carthu o'r môr, drwy falu creigiau, malu llechi neu ddeunyddiau eraill wedi'u hailgylchu. Golyga daeareg amrywiol gogledd Cymru bod adnoddau mawr yn bodoli o ddeunydd agregau a gafodd eu chwarelu am ganrifoedd ond hefyd mae marchnad yn datblygu am agregau eilaidd a gynhyrchir gan waith dymchwel ac o waith cynhyrchu llechi to.

Bydd y CDLl ar y Cyd yn ymwybodol o ganllawiau polisi cenedlaethol ar gyfer echdynnu mwynau a datblygiadau cysylltiedig. Rhoddir ystyriaeth i wybodaeth a chanllawiau a dderbynnir gan eraill, gan gynnwys adroddiad Technegol Rhanbarthol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRAWP) (2009), sy'n destun adolygiad ar hyn o bryd ac Adroddiadau Blynyddol NWRAWP a gyhoeddwyd yn ddiweddarach i'r data daearegol a oedd ar gael gan Gymdeithas Ddaearegol Prydain ac adroddiadau manwl eraill.

Ceir dyddodion mawr o bron bob un math o graig yn ardal y CDLl ar y cyd, gan gynnwys llechen, carreg galch, glo, nifer o gerrig igneaidd a thywodfaen gan gynnwys dyddodion tywod a graean. Comisiynwyd astudiaeth gan Gyngor Gwynedd yn 2003 (Adnoddau Tywod a Graean Gogledd Orllewin Cymru) gan gychwyn gydag adnabod safleoedd ac ymarfer hidlo er mwyn ystyried y cyfyngiadau primaidd ac eilaidd. Cefnogwyd yr astudiaeth gan ymweliadau safle ac adnabuwyd safleoedd fel ardaloedd i'w diogelu ar gyfer echdynnu tywod a graean.

Y cyfaint mwyaf o ddeunyddiau yn y categori hwn yw gwastraff llechi a geir mewn nifer o chwareli segur ac ychydig o chwareli sy'n gweithio ar hyn o bryd yn y rhanbarth, y mwyafrif ohonynt yng Ngwynedd. Gellid prosesu cyfradd helaeth o'r gwastraff llechi yn agregau yn hawdd. Yn wir, mae hwn yn cynrychioli un o'r adnoddau mwyaf o agregau eilaidd / wedi'u hailgylchu yn y DU.

Daw tywod o'r môr i'r lan ym Mhorth Penrhyn ger Bangor ac fe'i dosberthir oddi yno. Carthir y tywod gan longau carthu sydd hefyd yn ei ddanfon i ddociau glannau Merswy. Fodd bynnag, mae'n bosib bod llawer iawn o'r tywod sy'n cael ei ddanfon i lannau Merswy yn dod o ddyfroedd arfordirol gogledd Cymru, sy'n cael ei osod yn erbyn y pwysau ar adnoddau a echdynnir o'r tir yng ngogledd Cymru. Serch hynny,

dylid nodi bod ffynonellau eraill o dywod meddal a geir drwy garthu gwely'r môr yn cael eu dadlwytho ym Mhorth Penrhyn. Lleolir ffynhonnell y tywod hwn oddi ar arfordir Penrhyn Llŷn a gall ecsploetio hwn fod ag oblygiadau sylweddol i fanc tir tywod a graean yr awdurdod ac i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Yn Ynys Môn mae pedair gwaith calchfaen a dwywaith carreg igneaidd yn gweithio ar hyn o bryd. Yng Ngwynedd mae gweithfeydd agregau sy'n gweithio ar hyn o bryd yn cynnwys tair gwaith carreg igneaidd, pum uned llechi primaidd, deg uned llechi eilaidd ac un waith tywod a graean. Ar hyn o bryd mae chwe chronfa lechi wrth gefn yn segur. Efallai bod potensial ychwanegol i ailgylchu Gwastraff Adeiladu, Dymchwel ac Ynni.

Ymgymerir ag ymarfer i ddiogelu'r cyflenwad mineralau presennol ar gyfer y dyfodol yn unol â MTAN 1 ar gyfer y CDLl ar y cyd Adnau, mewn ymgynghoriad â'r budd-ddeiliaid allweddol, gan gynnwys gweithredwyr mineralau lleol.

Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn argymell y dylai'r CDLl ar y Cyd wneud dyraniadau ar gyfer adnoddau tywod a graean ar y tir y dylid eu diogelu.

*7 Adroddiad Technegol Rhanbarthol y Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (2009)*

## 4.15 Iechyd a lles

Mae trigolion yr ardal yn gyffredinol iach ond mae yna achlysuron o afiechydon cronig, sy'n cael effaith mawr ar ansawdd bywyd. Mae yna gynnydd yn y boblogaeth hŷn a gordewdra ym mysg pobl a phlant, sy'n debygol o arwain at fwy o achlysuron o afiechydon cronig.

Mae angen mwy o waith i gynyddu ffyrdd iachach o fyw ym mysg trigolion yr ardal, e.e. trwy wneud yn siwr y bydd gan gymunedau presennol a newydd gyfle i ymgymryd â gweithgaredd corfforaethol, gan gynnwys llefydd chwarae plant, beicio a cherdded, llefydd i gymunedau hel at ei gilydd a llefydd gwyrdd agored.

Bydd Asesiad Llecynnau Agored sydd ar y gweill yn rhoi darlun o'r cyflenwad presennol, gan gynnwys adnabod lle mae'r bylchau. Mae asesiad o gyfleusterau hamdden mewn adeiladau, e.e. pyllau nofio, canolfannau hamdden, yn dangos fod angen gwneud defnydd effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael yn barod gan gyd-weithio gyda'r sector breifat.

Mae yna le i sicrhau fod pawb yn teimlo'n ddiogel yn ei gymuned, yn arbennig ar ôl iddi dywyllu.

*8 Adroddiad Dechreuol Asesiad Cynaliadwyedd CDLl ar y Cyd 2012*



## 4.16 Trafnidiaeth

Gostyngodd cyfran yr aelwydydd heb gar gan 21% a 18% yng Ngwynedd ac Ynys Môn, yn y drefn honno, rhwng 1991 a 2001. Mae nifer y ceir preifat ar y ffyrdd yn cynyddu yn ardal y CDLl ar y cyd. Mae defnydd o geir preifat gan drigolion i deithio i'r gwaith yn is yng Ngwynedd na'r cyfartaledd cenedlaethol fel y mae'r defnydd o gludiant cyhoeddus. Yn Ynys Môn, ceir mwy o ddibyniaeth ar geir ar gyfer teithio i'r gwaith gyda chyfran lai o bobl yn mynd ar y bws i'r gwaith o gymharu â Chymru (2.9% yn teithio ar gludiant cyhoeddus o gymharu â 6.5% yng Nghymru).

Ar ochr orllewinol Môn y mae porthladd Caergybi lle ceir y prif gyswllt fferi rhwng Iwerddon a Phrydain.

Mae canolfan awyrlu'r Fali'n cynnig gwasanaeth teithiau awyr masnachol i Gaerdydd.

Mae prif reilffordd y Gogledd yn croesi Gogledd Gwynedd, gyda gorsaf ym Mangor, ac mae'n croesi Ynys Môn o Lanfairpwllgwyngyll i Gaergybi ac mae chwe gorsaf drên yma. Ceir gwasanaeth rheilffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Llandudno i'r gogledd ac i Borthmadog i'r de- orllewin. Mae rheilffordd arfordir gorllewin Cymru yn cysylltu Pwllheli gyda threfi fel Aberystwyth a Machynlleth

Un o'r ffactorau mwyaf dylanwadol wrth ystyried y gwahaniaeth rhwng byw mewn ardaloedd trefol a gwledig yw cludiant – beth sydd ar gael a'r gost. Mae gofyn i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig deithio ymhellach i gael mynediad i wasanaethau megis siopau, iechyd, addysg a chyflogaeth. Golyga hyn gostau ychwanegol i'r rheini sydd heb gludiant addas, yn benodol pobl hŷn, pobl ifanc, rhieni sengl a phobl ddi-waith.

*9 Adroddiad Dechreuol Asesiad Cynaliadwyedd CDLl ar y Cyd 2012*

## 4.17 Isadeiledd

Mae darpariaeth o isadeiledd ffisegol, e.e. ffyrdd, cyfleusterau cymunedol, cyfleusterau iechyd, llecynnau agored cyhoeddus, prifion cyhoeddus (e.e. dwr, trin carthion), band eang yn bwysig i ardal y CDLl ar y Cyd. Mae'r mathau o isadeiledd yn bwysig am wahanol resymau, gyda rhai yn fwy pwysig na'i gilydd, i hyrwyddo datblygiad newydd

1) - Isadeiledd 'sylfaenol sef un sydd raid ei gael ymlaen llaw i gefnogi datblygiad, e.e. dwr, trydan, ffyrdd;

2) - Isadeiledd 'hanfodol' sydd ei angen er mwyn sicrhau y gall datblygiad ddigwydd heb effeithiau andwyol, e.e. ysgolion, ysbytai

3) - Isadeiledd 'gofynnol' i sicrhau bod cymunedau cynaliadwy'n cael eu creu, e.e. llyfrgelloedd, llefydd chwarae.

Mae nifer o drefi a phentrefi yn yr ardal yn gweld cyfyngiadau o ran capasiti un neu fwy o isadeiledd ac yn y rhan fwyaf o achosion fe fydd angen gwelliannau/ uwchraddiad i hwyluso datblygiad newydd arwyddocaol. Bydd angen gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr yr isadeiledd perthnasol. Bydd Cynllun Darparu Isadeiledd fydd ar gael fel papur cefndir yn rhoi gwybodaeth am argaeledd isadeiledd yn ardal y Cynllun.

Bydd gwaith yn cael ei wneud hefyd i edrych ar briodoldeb defnyddio Ardoll Isadeiledd Cymunedol, sy'n fecanwaith posib i gael datblygiad isadeiledd yn lle'r Ymrwymiadau Cynllunio traddodiadol (Cytundebau 106).

*10 Adroddiad Dechreuol Asesiad Cynaliadwyedd CDLl ar y Cyd 2012*

# Materion allweddol ardal y CDLl ar y Cyd

4.18 Dechreuodd y gwaith o baratoi'r ddogfen Hoff Strategaeth yn 2011. Gofynnwyd am farn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill o fis Tachwedd 2011 i ddiwedd mis Ionawr 2012. Yn ystod y cyfnod yma fe roddwyd cyfle i unrhyw un fynegi barn am y materion allweddol, gweledigaeth, amcanion ac opsiynau twf a dosbarthu a oedd yn dechrau dod i'r amlwg yn sgil asesiad o lawer o dystiolaeth gyfredol amrywiol. 'Roedd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth am wybodaeth ac yn gyfle i gael mwy o wybodaeth. Fe ddaru oddeutu 70 o unigolion, grwpiau a mudiadau ymateb. Ar ben hynny fe ymwelodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn a nifer o grwpiau oedd yn cynrychioli gwahanol ddiddordebau. Mae adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion a gafwyd un ai'n ysgrifenedig neu ar lafar ar gael ar wahân ar wefan y ddau Gyngor. Mae'r adroddiad yn crynhoi ymateb y ddau Gyngor i'r ymatebion hefyd. (cynnwys cyfeiriad y wefan)

4.19 Mae'r adborth o'r cyfnod cyfranogiad cyhoeddus a'r Asesiad Cynaliadwyedd wedi dylanwadu ar y dewis o faterion allweddol sydd angen eu taclo wrth baratoi a gweithredu'r CDLl ar y Cyd. Cafodd y rhestr yma ei gymeradwyo gan y ddau Gyngor ym mis Mawrth 2012 (Bwrdd Cyngor Gwynedd) a mis Mai 2012 (Cyngor Sir Ynys Môn).

## Tabl 2 – Atodlen o'r materion allweddol (KI)

(Nid yw'r KI wedi eu rhestru mewn unrhyw drefn o ran pwysigrwydd)

### POBLOGAETH, DEMOGRAFFEG A THAI

KI 1. Poblogaeth sy'n heneiddio mwyfwy o hyd o ganlyniad i'r ffaith bod rhannau o'r ardal yn boblogaidd fel cyrchfannau ymddeol

KI 2. Effaith tai haf / ail gartrefi ar gymunedau ac ar y farchnad dai

KI 3. Bod angen darparu ar gyfer myfyrwyr

KI 4. Bod angen darparu ar gyfer gweithwyr adeiladu mewn cysylltiad â phrosiectau seilwaith mawr

KI 5. Colli preswylwyr ifanc sy'n economaidd weithgar

KI 6. Cyflenwad annigonol o dai ac ymateb i'r angen am ystod well o dai o ran lleoliad, math, maint a fforddiadwyedd i bobl leol

KI 7. Ymateb i anghenion tai Sipsiwn a Theithwyr

KI 8. Mae'r tai presennol yn cael eu hystyried i fod yn rhy hen ac o ddyluniad gwael, o ran eu perfformiad a'u cynaliadwyedd, i fodloni anghenion modern

KI 9. Capasiti aneddiadau i ymdopi â thai ychwanegol

K110. Rhesymoli a chanoli cyfleusterau addysg ac iechyd

### LLES

KI 11. Hyrwyddo cyfleoedd i bobl gael byw'n iach a chael mynediad rhesymol at ofal iechyd, yn enwedig o fewn y boblogaeth sy'n heneiddio

KI 12. Ardaloedd gyda lefelau uchel o wahanol fathau o amddifadedd

KI 13. Bod angen cynnal neu wella teimlad y trigolion o fod yn ddiogel yn eu cartrefi neu y tu allan

KI 14. Mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, cyfleusterau hamdden ac adloniant ffurfiol ac anffurfiol, yn ogystal ag at gefn gwlad

## YR ECONOMI, CYFLOGAETH A SGILIAU

KI 15. Cynhyrchedd isel (Gwerth Ychwanegol Crynswth, y pen) yr economi leol

KI 16. Diwallu'r galw am dir ac adeiladau ar gyfer cyflogaeth mewn lleoliadau cynaliadwy i gwrdd â'r angen sydd wedi'i nodi ar draws yr ardal (trefol a gwledig)

KI 17. Ymateb i anghenion datblygu busnes a chyflogaeth cyflogwyr presennol / newydd

KI 18. Mynediad at addysg a hyfforddiant sgiliau priodol

KI 19. Gofynion seilwaith (e.e. telathrebu / TGCh, dwr, cysylltiadau trafnidiaeth, dwr aflan a dwr wyneb) sy'n gysylltiedig â datblygiadau presennol a newydd, gan gynnwys y seilwaith ar gyfer y datblygiadau ynni disgwyliedig / arfaethedig newydd

KI 20. Dirywiad yn ffyniant a bywiogrwydd canol trefi fel llefydd sy'n cynnig cyfleoedd siopa, hamdden, cyflogaeth a chartrefi

KI 21. Ymateb i anghenion y diwydiant ffermio a diwydiannau gwledig eraill, gan gynnwys arallgyfeirio fferm a defnyddio adeiladau fferm segur

KI 22. Bod angen gwella a rheoli'r ddarpariaeth dwristiaeth 'drwy'r flwyddyn' yn yr ardal yn gynaliadwy ac, ar yr un pryd, hyrwyddo treftadaeth, iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yr ardal

KI 23. Bod angen diogelu adnoddau mwynau'r ardal, a manteisio'n llawn ar agregau eilaidd wrth asesu'r lefelau cyflenwi

## YR AMGYLCHEDD

KI 24. Bod angen lliniaru effeithiau'r newid hinsawdd, e.e. lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr, hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel

KI 25. Addasu i effeithiau'r newid hinsawdd sy'n cael eu rhagweld ar gyfer y blynyddoedd nesaf e.e. mwy o lifogydd, lefel y môr yn codi, erydiad arfordirol, stormydd, cyfnodau o dywydd poeth, cyfnodau sychach

KI 26. Lleihau'r angen am ynni, ac adnoddau eraill, ar gyfer datblygiadau yn y lle cyntaf

KI 27. Bod angen cynhyrchu llai o wastraff yn y lle cyntaf, a hwyluso ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yn ogystal â gwaredu gwastraff gweddilliol

KI 28. Bod angen gwarchod, a lle bo hynny'n bosibl gwella amgylchedd naturiol a chynefinoedd a rhywogaethau'r ardal

KI 29. Gwneud y defnydd gorau o'r lefelau cymharol isel o safleoedd tir llwyd yn yr ardal yn ogystal ag adeiladau gwag neu a danddefnyddir.

## TRAFNIDIAETH A HYGYRCHEDD

KI 30. Yr argraff bod rhannau o ardal y CDLl ar y Cyd yn anghysbell

KI 31. Ardaloedd gyda chysylltiadau telathrebu a TGCh gwael

KI 32. Problemau o ran hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, oherwydd y diffyg dewis o ddulliau trafnidiaeth.

## NODWEDDION UNIGRYW

KI 33. Llai o breswylwyr wedi eu cofnodi yn 2001 i fod yn siarad Cymraeg a llai o ardaloedd lle mae mwy na 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg

KI 34. Cynnal nodweddion cadarnhaol sy'n cyfrannu at greu cymeriad unigryw gwahanol rannau o'r ardal

KI 35. Bod angen gwarchod a gwella llefydd, tirweddau ac adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol ac archeolegol, a'u gosodiadau.

## LLEOLIAD

KI 36. Y berthynas agos a'r rhyngweithio rhwng aneddiadau yn ardal awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri

KI 37. Y swyddi a'r gwasanaethau allweddol sy'n cael eu darparu yn y trefi mewn ardaloedd cyfagos

KI 38. Coridor cludiant rhwng Iwerddon a'r DU/ Porthladd Rhyngwladol



4.20 Yn ôl yr ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus y rhain yw'r prif faterion sydd angen eu taclo yn yr ardal.

1af – diffyg tai yn nhermau math, maint a phris i bobl leol

2il – colli trigolion ifanc economaidd weithredol

3ydd - dirywiad ym mywiogrwydd a hyfywedd canol trefi fel llefydd sy'n cynnig cyfleon o ran manwerthu, hamdden, cyflogaeth a chartrefi

4ydd – darparu ar gyfer ymwelwyr i'r ardal mewn dull cynaliadwy a hyrwyddo treftadaeth a diwylliant yr ardal ar yr un pryd


Cyfartal 5ed – llai o drigolion yn dweud eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg a llai o ardaloedd lle mae mwy na 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg

Cyfartal 5ed - Diffyg gwasanaethau lleol mewn cymunedau gwledig a phwysau ar wasanaethau lleol, llefydd agored a chyfleusterau mewn ardaloedd eraill


Cyfartal 5ed – Pryderon o ran hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig oherwydd diffyg dewis mewn dulliau teithio

Cyfartal 5ed – Angen i warchod, cryfhau a hyrwyddo bioamrywiaeth, cysylltiadau ecolegol a mwynderau gweledol

**Cwestiwn 1: Os oes yna faterion eraill sydd yn ymwneud a defnydd tir/ adeiladau y dylid rhoi sylw iddynt, pa rai ydynt a pham?**



Map 3 : Rhwydwaith Trafnidiaeth / Transport Network





©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387
©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
Joint Planning Policy Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

1:500,000

# Map 4 : Topograffi / Topography





©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387
©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
Joint Planning Policy Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

1:500,000

# Map 5 : Dynodiadau Amgylcheddol Cenedlaethol a Rhyngwladol
National and International Environmental Designations





©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387
©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
Joint Planning Policy Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

1:500,000

## Map 6 : Prif Drefi / Main Towns





©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387
©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
Joint Planning Policy Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

1:500,000

## Map 7 : Datblygiadau Isadeiledd Mawr Posib





Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
Joint Planning Policy Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387
©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

1:220,000

# Pennod 5
# Ardal y Cynllun yn 2026 - Y Weledigaeth a'r Amcanion



## Datblygu'r Weledigaeth

5.1 Mae'r weledigaeth ar gyfer dyfodol ardal y CDLl ar y Cyd yn rhoi darlun o sut ddylai'r lle ddatblygu dros y 15 mlynedd nesaf. Diben gweledigaeth yw egluro pwrpas craidd y Cynllun, a darparu fframwaith ar y cyd efo'r amcanion strategol ar gyfer datblygu polisïau'r Cynllun. Mae datblygiad y weledigaeth wedi rhoi sylw i:

- Weledigaethau'r ddau Gynllun Cymunedol/ Integredig
- Blaenoriaethau'r ddau Gyngor yn eu Cynlluniau Busnes
- Nodweddion yr ardal, y pynciau llosg a'r blaenoriaethau
- Yr adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod cyfranogiad cyhoeddus rhwng Tachwedd 2011 a diwedd Ionawr 2012
- Fframwaith Asesiad Cynaliadwyedd y CDLl ar y Cyd

5.2 Fe gafodd y weledigaeth isod ei gymeradwyo gan y ddau Gyngor ym mis Mawrth 2012 (Cyngor Gwynedd) a mis Mai 2012 (Cyngor Sir Ynys Môn).

## Yr Weledigaeth

Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu cymunedau ffyniannus a llawn bywyd sy'n dathlu eu diwylliant, treftadaeth a'u hamgylchedd unigryw ac yn rhywle y bydd pobl yn dewis byw ynddynt.

Mae hyn yn golygu y bydd ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn:

- lle mae anghenion tai cymunedau lleol yr ardal yn cael eu diwallu'n well o ran cyflenwad, math, ansawdd, effeithlonrwydd ynni, lleoliad a fforddiadwyedd
- lle mae'r preswylwyr a busnesau'n gallu achub ar y cyfleoedd economaidd newydd i ffynnu
- sy'n brolio gweithlu medrus priodol ac economi amrywiol, eang, gynaliadwy gyda chysylltiadau da sy'n gwneud y defnydd gorau o gryfderau lleol a chyfleoedd lle mae'r manteision sy'n deillio ohonynt yn aros yn lleol
- sy'n gartref i rwydweithiau egnïol o gymunedau cynhwysol lle mae'r preswylwyr yn mwynhau iechyd a lles da
- lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o gymunedau
- sy'n addasu ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r sialensiau a gyflwynir gan y newid hinsawdd
- lle mae cymeriad unigryw ei threftadaeth adeiledig a diwylliannol, ei chefn gwlad a'i thirwedd, a'i hamgylchedd, yn cael ei werthfawrogi, ei warchod a'i wella
- lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â hi

## Beth yw'r amcanion strategol?

5.3 Mae'r amcanion strategol yn rhan o graidd y CDLl ar y Cyd. Ar sail y prif faterion sydd angen eu taclo, yr adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod cyfranogiad cyhoeddus rhwng Tachwedd 2011 a diwedd Ionawr 2012, a chymhwyso'r Fframwaith Asesiad Cynaliadwyedd, fe gymeradwyodd y ddau Gyngor restr o amcanion strategol, sydd yn eu barn nhw yn egluro sut caiff y weledigaeth ei chyflawni. Y rhain fydd yn ffurfio sail ar gyfer yr Hoff Strategaeth a'r Polisïau Strategol dilynol.

5.4 Dyma'r amcanion strategol:



## POBLOGAETH, DEMOGRAFFEG A THAI

SO1 sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy,

SO2 darparu ar gyfer cyflenwad tai cytbwys gan sicrhau bod yr holl stoc dai o safon dda, yn fforddiadwy, ac yn darparu ar gyfer gwahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

SO3 sicrhau poblogaeth sefydlog a chytbwys mewn cymunedau

SO4 darparu ar gyfer y byd addysg a gwasanaethau cymdeithasol sy'n newid

## LLES

SO5 sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau

SO6 sicrhau bod pob datblygiad wedi'i ddylunio'n dda ac yn rhoi sylw dyledus i'w amgylchoedd er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o droseddu

## YR ECONOMI, CYFLOGAETH A SGILIAU

SO7 sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ac adeiladau yn cael ei ddiogelu a'i ddyrannu mewn lleoliadau cynaliadwy i ddenu buddsoddiad ac i gadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol, cefnogi datblygu gweithgarwch economaidd mewn sectorau â gwerth uwch, sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle, a hyrwyddo gweithio o adref lle bo hynny'n briodol

SO8 arallgyfeirio economi wledig a threfol ardal y CDLl ar y Cyd er mwyn hwyluso economi gymysg a ffyniannus sy'n adeiladu ar gyfleoedd, gan gynnwys y rhai a gyflwynir gan y sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r diwydiannau gwybodaeth

SO9 sicrhau isadeiledd priodol yn ei le neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad

SO10 hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus sydd wedi cael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd

SO11 rheoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr

SO12 diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy

## YR AMGYLCHEDD

SO13 lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd

SO14 rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dwr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir

SO15 lleihau effaith llifogydd drwy sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg lle bynnag y bo hynny'n bosibl

SO16 lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau

SO17 annog rheoli gwastraff ar sail yr hierarchaeth o ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel

SO18 hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal

SO19 defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael

SO20 gwarchod a gwella bioamrywiaeth, drwy gryfhau a gwella ei gydgysylltiad ar draws yr ardal, a hwyluso cymunedau i fwynhau a gwerthfawrogi bioamrywiaeth

## TRAFNIDIAETH A HYGYRCHEDD

SO21 gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, modern ac integredig o ansawdd uchel ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl

SO22 sicrhau bod datblygiadau newydd wedi eu cefnogi gan gyflenwad digonol neu a gynlluniwyd o seilwaith digidol a ffonau symudol

SO23 Gwneud yn fawr o gyfleon Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A487/ A470 fel coridorau cludiant allweddol

## NODWEDDION UNIGRYW

SO24 diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned

SO25 nodi, gwarchod a lle bo hynny'n bosibl gwella llefydd, tirweddau ac adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol ac archeolegol, a'u gosodiadau

SO26 sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol

Cwestiwn 2:
A ydych yn cytuno bod weledigaeth a'r amcanion yn cyfarch y materion a welir yn mhennod 4 yn ddigonol? Os ydych yn anghytuno, pa amcanion ychwanegol sydd angen eu hystyried/neu, pa newid sydd angen ei wneud i'r weledigaeth?

## Pennod 6

# Faint o dwf ac yn lle?



## Datblygu opsiynau twf a gofodol

6.1 Er mwyn adnabod y lefel twf tai a dosbarthiad gofodol y dylai'r CDLl ar y Cyd gynllunio ar ei gyfer, 'roedd rhaid ystyried nifer o opsiynau. Mae'r rhan yma o'r ddogfen Cynllun Cyn-Adnau'n cyfeirio at yr opsiynau strategol a ddatblygwyd ar sail y dystiolaeth oedd ar gael. Cafodd yr opsiynau eu cymeradwyo ar gyfer cael eu hystyried gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill gan Banel y CDLl ar y Cyd, sy'n gweithredu fel grwp seinio. Bwriad cyflwyno'r opsiynau strategol cysyniadol oedd llywio trafodaethau a deall eu goblygiadau a'u heffeithiau. Mae hyn yn gam pwysig wrth ddatblygu strategaeth gadarn a chydlynol ar gyfer y CDLl ar y Cyd. 'Roedd rôl y Grwp Rhanddeiliaid Allweddol fel grwp seinio arall yn bwysig wrth ystyried yr opsiynau hyn yn ystod y cyfnod cyfranogiad cyhoeddus ddigwyddodd rhwng dechrau Tachwedd 2011 a diwedd Ionawr 2012.


6.2 Mae cynhyrchu ac ystyried gwahanol opsiynau yn un o ofynion pwysig y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol. Felly, 'roedd rôl y Grwp Tasg Cynaliadwyedd hefyd yn bwysig i ddylanwadu ar y broses gan ddefnyddio'r Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd i ddatblygu ac ystyried yr opsiynau. O ganlyniad mae'r opsiynau twf strategol wedi cael eu mesur yn erbyn yr amcanion sydd yn y Fframwaith y gellir ei weld yn Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

6.3 Cafodd yr adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod cyfranogiad am yr opsiynau twf tai a gofodol ei ystyried gan y ddau Gyngor a gellir gweld yr adroddiad perthnasol ar wahân ar y gwefannau: (cynnwys cyfeiriad gwefan). Fe ddaru'r ystyriaethau canlynol ddylanwadu ar yr asesiad o'r opsiynau:

- A fydd yr opsiwn yn cyfrannu'n effeithiol i wireddu'r Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun?
- Ydy o'n opsiwn dilys? A gafodd ei gynnwys i wneud opsiynau eraill edrych yn well?
- A fydd yr adnoddau angenrheidiol ar gael gan y partneriaid a fydd yn cynorthwyo/ gyfrifol am gyflawni/ wireddu'r opsiwn?
- Oes yna risg annerbyniol na chaiff yr opsiwn ei wireddu'n llawn yn ystod oes y cynllun?
- Ydy'r opsiwn yn ddigon hyblyg i ymdopi gydag amgylchiadau sy'n newid?
- Ydy'r opsiwn yn weddol gyson a pholisi cenedlaethol?

## Opsiynau twf tai

6.4 Mae Papur Testun 3: Tai a Phoblogaeth yn rhoi gwybodaeth fanwl am y patrymau o ran twf yn y boblogaeth a datblygiadau tai yn ardal y CDLl ar y Cyd. Gwelwyd fod poblogaeth Ynys Môn a Gwynedd ar y cyfan wedi cynyddu dros y degawd rhwng 2000 a 2010. Dengys y graff isod fod y cynnydd yn un graddol, gydag adegau pryd fod y twf wedi bod yn fychan iawn neu fe welwyd poblogaeth yn aros run fath neu'n gostwng ychydig bach o un flwyddyn i'r llall. Felly mae'r boblogaeth wedi amrywio yn ystod y degawd diwethaf. Dengys hyn bwysigrwydd o beidio defnyddio data o gyfnod amser sy'n rhy fyr.




6.5 Ystyriwyd 5 opsiwn twf tai ar gyfer y CDLl ar y Cyd. Mae'r term 'tai' yn cynnwys pob math o unedau preswyl. Ceir disgrifiad mwy manwl o'r opsiynau yma ym Mhapur Testun 4: Disgrifiad o'r opsiynau twf tai a dosbarthiad. Mae'r tabl nesaf yn rhoi crynodeb o'r opsiynau yma.

| Strategaeth Dwf | | Twf tai rhwng 2011 a 2026 | Twf tai pob blwyddyn ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|
| T1 - | Dosraniad Isranbarthol (cytundeb traws Gogledd Cymru seiliedig ar ragolygon Llywodraeth Cymru 2003) | 6,675 | 6,675 |
| T2 – | Tueddiadau'r boblogaeth (rhagolygon Llywodraeth Cymru ar sail 2008 – data o 2003 – 2007) | 9,570 | 9,570 |
| T3 – | Tueddiadau adeiladu'r gorffennol (10 mlynedd 2000 - 2010) | 6,240 | 6,240 |
| T4 – | Twf ar sail economaidd yn unig | 5,835 | 5,835 |

6.6 Fe gafodd y pumed opsiwn ei ddiystyru'n syth sef, Opsiwn Dim Twf gan nad oedd mewn gwirionedd yn un realistig am y rhesymau canlynol:

- mae yna nifer o safleoedd efo caniatâd cynllunio'n barod y caiff eu hadeiladu
- ni fyddai'n cynnig cyfle i gwrdd ag un ai'r angen am dai fforddiadwy, y galw ychwanegol am unedau tai oherwydd bod aelwydydd yn mynd yn llai, nag yr anghenion oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio
- byddai ond yn arwain at ychydig o gyfleoedd i adfywio safleoedd sy'n dod yn wag neu rai sydd ddim yn cael eu defnyddio rhyw lawer
- y byddai dim twf mewn tai yn rhoi'r ardal mewn sefyllfa wan os fydd y sefyllfa economaidd genedlaethol yn gwella

6.7 O bori drwy'r sylwadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd a fynychwyd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, a thrwy brif ddarganfyddiadau'r holiaduron cyhoeddus a aeth allan gyda'r Ddogfen Ymgysylltu Drafft, nodwyd y tueddiadau canlynol wrth ystyried yr opsiynau twf tai drafft:

i. Dymuniad cryf i ddiwallu anghenion tai'r boblogaeth leol yn unig yn lle hwyluso gormod o fewnfudo. Ystyriwyd yr opsiwn amgen hwn a'i ddiystyru am y rhesymau a welir ym Mhapur Testun 4: Disgrifio'r opsiynau twf tai a gofodol.

ii. Mwy o gefnogaeth dros lefel dwf a nodir yn Opsiwn T4, h.y. 389 o dai'r flwyddyn, sef y lefel dwf isaf.

iii. Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion / grwpiau a ddywedodd mai Opsiwn T4 oedd y lefel dwf 'ddewisol' hefyd wedi 'sgorio' gweddill yr opsiynau twf yn ôl maint, h.y. Opsiwn T2, sef y lefel dwf uchaf, oedd yr opsiwn gyda'r lleiaf o gefnogaeth iddo.

iv. Ymhlith y rhesymau a roddwyd dros ddiystyru'r lefel dwf uchaf (Opsiwn T2) oedd y potensial i ddifetha cymeriad / diwylliant y cymunedau unigol, dim galw amlwg am lefel o dwf tai llawer uwch, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, a bod angen cyfateb y twf tai i dwf yr economi.

v. Yn ddiddorol, Opsiwn T2 oedd yr ail opsiwn mwyaf dewisol fel 'Dewis 1af'.

vi. Ymhlith y rhesymau a roddwyd dros ddewis Opsiwn T2 oedd bod yr opsiwn yn seiliedig ar y dystiolaeth ystadegol ddiweddaraf, ei fod yn fwy tebygol o adlewyrchu'r gwir angen am dai yn yr ardal, ei fod yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd, ac y gallai sicrhau dosbarthiad mwy cytbwys o dai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy.

vii. Opsiwn T3 – roedd rhai o blaid yr opsiwn hwn, sef y gyfradd adeiladu ddiweddar, oherwydd yr argraff ei fod yn dangos y gwir alw gan y farchnad am / y gwir bosibilrwydd o ddarparu tai yn yr ardal dros gyfnod o flynyddoedd.

6.8 Fe amlygodd y drafodaeth uchod yr angen i edrych ar opsiwn dwf amgen ychwanegol i'r un a gyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.7 (i) uchod. Ceir disgrifiad o'r Opsiwn yma ym Mhapur Testun 4: Disgrifio'r opsiynau twf tai a gofodol.

6.9 Fe benderfynodd y ddau Gyngor ym mis Mawrth 2012 (Cyngor Gwynedd) a mis Mai 2012 (Cyngor Sir Ynys Môn) mai'r lefel twf tai a ffafrir y bydd y CDLl ar y Cyd yn ceisio ei gyflawni yw Opsiwn twf canolig. Ceir disgrifiad o'r Opsiwn yma ym Mhapur Testun 4: Disgrifio'r opsiynau twf tai a gofodol. Disgwylir felly weld cynnydd o oddeutu 511 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y CDLl ar y Cyd. Mae hyn gyfystyr a chyfanswm o 7,665 o unedau tai ychwanegol erbyn 2026.

6.10 Credir y bydd yr opsiwn twf canolig yma'n darparu cyflenwad digonol o dai a fydd yn:

- Diwallu anghenion y boblogaeth leol
- Potensial i ddarparu lefel resymol o dai fforddiadwy a manteision cymunedol eraill
- Potensial i ddiwallu anghenion dros dro am unedau tai'n gysylltiedig â datblygiadau isadeiledd mawr
- Llai tebygol o ymwthio i leoliadau anghynaladwy
- Llai tebygol o arwain at effeithiau niweidiol, gan gynnwys colli cefn gwlad agored
- Hybu buddsoddiad newydd i helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd
- Helpu i gynnal cymunedau, eu cyfleusterau a'u busnesau a'u gwasanaethau presennol
- Helpu i gynnal ac adfywio'r iaith Gymraeg

## Opsiynau gofodol

6.11 Wrth ystyried yr opsiynau twf tai 'roedd angen ystyried yr opsiynau gofodol ar gyfer y lefelau hynny. 'Roedd gwneud hynny'n bwysig er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o oblygiadau dewis lefel twf.

6.12 Fe ddaru'r ffactorau canlynol a'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod cyfranogiad cyhoeddus rhwng dechrau Tachwedd 2011 a diwedd Rhagfyr 2012 ddylanwadu ar neu gyfrannu at ddewis cyfeiriad strategol i'r CDLl ar y Cyd, gan gynnwys yr hierarchaeth aneddleoedd. Maent yn ffactorau sydd wedi dod i'r amlwg o'r materion a ymchwiliwyd iddynt wrth ddod i adnabod yr ardal ac y cyfeirir atynt ym Mhennod 3 a 4 o'r ddogfen Hoff Strategaeth yma. Ni ddylid ystyried y rhestr yn un gynhwysfawr.

## Cynaliadwyedd

6.13 Mae'r pwyslais a roddir ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru trwy'r system gynllunio tir a gan y ddau Gyngor a'u partneriaid yn dylanwadu'n sylweddol ar y cyfeiriad y bydd rhaid i'r CDLl ar y Cyd ei gymryd, yn arbennig o gofio'r angen i fynd i'r afael a goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd.

## Newid yn yr hinsawdd

6.14 Fe ddylai'r CDLl ar y Cyd fod yn arf bwysig i fynd i'r afael a'r heriau fydd yn codi yn gysylltiedig ag achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae dewis strategaeth ofodol briodol felly'n ystyriaeth bwysig. Mae angen i'r broses o ddethol y dewis a ffafrir rhoi sylw dyledus i'r newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd er mwyn sicrhau y gellir gweithredu'r CDLl ar y Cyd.

## Patrwm aneddiadau

6.15 Mae patrwm cyfredol aneddiadau yn rhoi syniad o'r ffurf drefol a'r cymunedau sefydledig cyfredol. Hyn oedd sail y statws a roddwyd i wahanol aneddiadau yng Nghynllun Gofodol Cymru. Dylid rhoi sylw dyledus i hynny, ond heb gau'r drws i ddefnyddio ymagweddau polisi ymyraethol yn y CDLl ar y Cyd.

## Yr economi a chyflogaeth

6.16 Ni ellir anwybyddu'r ddarpariaeth safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli'n barod wrth ystyried a dewis y strategaeth ofodol. Mae'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth wedi edrych yn fanwl ar y safleoedd cyflogaeth sy'n cael eu gwarchod neu eu dynodi mewn cynllun datblygu, ynghyd ag ambell safle ychwanegol, ac mae canlyniadau hwnnw'n rhoi sail ar gyfer ystyried gofynion y dyfodol o ran y cyflenwad o dir cyflogaeth ar gyfer defnyddiau tir sy'n disgyn i gategori Dosbarth Defnydd B1, B2 neu B8. Gan fwyaf mae dosbarthiad y safleoedd yn adlewyrchu'r hierarchaeth aneddiadau, sy'n golygu byddant yn rhoi cefnogaeth fasnachol i gymunedau sy'n byw yn yr aneddiadau neu o fewn eu dalgylch.

## Manwerthu

6.17 Bydd canlyniadau'r Asesiad Manwerthu'n cael eu defnyddio i lunio'r strategaeth a pholisi o ran y ddarpariaeth manwerthu. Mae'n ofynnol i'r CDLl ar y Cyd weithio o fewn y cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol a chyd-destun polisi lleol o geisio sicrhau y bydd canolfannau sy'n bodoli eisoes yn parhau i fod yn fywiog ac yn hyfyw ac yn ddeniadol i siopa, byw a gweithio ynddynt. Fodd bynnag, wrth gydnabod rôl ambell ganolfan siopa ni ddylid tanbrisio cyfraniad canol aneddiadau eraill llai sydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd y gymuned neu'r gymuned ehangach.

## Opsiynau Gofodol a gafodd ystyriaeth

6.18 Cyflwynwyd 5 opsiwn gofodol amgen i'w hystyried yn ystod y cyfnod cyfranogiad cyhoeddus rhwng dechrau Tachwedd 2011 a diwedd Ionawr 2012. Ceir disgrifiad mwy manwl ohonynt ym Mhapur Testun 4: Disgrifio'r opsiynau twf tai a gofodol. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb ohonynt:

| Rhif yr opsiwn gofodol | Enw'r opsiwn a disgrifiad ohono |
|---|---|
| D1 | Canolbwyntio ar Fangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol - golygu bod y rhan fwyaf o'r datblygu newydd yn cael ei dargedu at Fangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol. |
| D2 | Canolbwyntio ar Fangor, y Prif Aneddiadau Allweddol a'r Brif Ardal Ffocws a'r Ail Ardal Ffocws a'u dalgylchoedd - fel y disgrifir yng Nghynllun Gofodol Cymru (Diweddariad) ac yn Strategaeth Ddatblygu Gogledd Orllewin Cymru ("Cau'r Bwlch") - a allai arwain at gyfeirio cyfran fymryn yn is at Fangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol nag a ddarperir yn Opsiwn D1 a mwy at aneddiadau yn y Prif a'r Ail Ardaloedd Ffocws a'u parthau dylanwad |
| D3 | Dosbarthiad Cymesur Trefol a Gwledig - a allai arwain at ddatblygu newydd ar draws ardal y Cynllun, gyda datblygiadau mawr yn cael eu targedu at safleoedd mwy yn neu o gwmpas Bangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol. Byddai'r dull hwn yn parhau'r dosbarthiad gofodol a gynlluniwyd ar ei gyfer yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd ac yng Nghynllun Datblygu Lleol Môn a dynnwyd yn ôl. |
| D3a | Ffocws ar ardaloedd gwledig - a fyddai'n dosbarthu mwy o'r datblygiadau newydd i'r Aneddiadau Allweddol a wasgerir ar draws ardal y Cynllun. Byddai llawer llai o'r twf yn cael ei gyfeirio at Fangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol. |
| D4 | Canolbwyntio ar ddatblygiadau mawr raddfa gymysg - a fyddai'n fwy tebygol o gael eu lleoli gerllaw Bangor a rhai o'r Prif Aneddiadau Allweddol. |

6.19 O bori drwy'r sylwadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd a fynychwyd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, a thrwy brif ddarganfyddiadau'r holiaduron cyhoeddus a aeth allan gyda'r Ddogfen Ymgysylltu Drafft, gwelir fod mwy o gefnogaeth i Opsiynau D3 yna D2. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys bod angen cynnal y lefelau presennol o ran poblogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau mewn trefi a phentrefi, capasiti aneddiadau i gynnig safleoedd i'w datblygu, y potensial i wrth-droi dirywiad hirdymor rhai aneddiadau gwledig, eu bod yn cynnig mwy o ddewis i breswylwyr a dylent olygu y gallai preswylwyr aros yn neu'n agos at eu cymunedau presennol, eu bod dal yn debygol o greu digon o fas critigol i gefnogi darparu tai fforddiadwy, prosiectau adfywio, a systemau seilwaith gwell. Gellir gweld crynodeb o'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod cyfranogiad cyhoeddus mewn adroddiad ar wahân sydd i'w gweld ar wefan y ddau Gyngor (cynnwys cyfeiriad gwefan).

6.20 Yn dilyn asesu'r opsiynau gofodol posibl yn erbyn Fframwaith yr Asesiad Cynaliadwyedd, ar gyfartaledd, mae Opsiwn D3 yn cynnig dull mwy cytbwys a chynaliadwy na'r Opsiynau eraill ac y gellid lliniaru rhai o'r effeithiau negyddol drwy dargedu mwy o'r datblygu at yr aneddiadau mwy na thrwy fabwysiadu'r Opsiwn fel y mae.

6.21 Penderfynodd y Cynghorau i gefnogi opsiwn dosbarthu lle byddai datblygu'n cael ei leoli yn aneddiadau ardal y Cynllun ar raddfa briodol yn unol â hierarchaeth aneddiadau i'w chytuno arni, sy'n debyg i Opsiwn D3:

i) Drwy ganolbwyntio'r datblygiadau a'r adfywio mwyaf ar y Prif Aneddleoedd a'r safleoedd strategol yno

ii) Drwy gefnogi datblygu sy'n adlewyrchu maint, swyddogaethau a chapasiti amgylcheddol a diwylliannol y rhwydwaith o wahanol Aneddiadau Allweddol a Phentrefi Allweddol

iii) Drwy gefnogi mân ddatblygu, mewn mân Bentrefi diffiniedig ac yng nghefn gwlad, sy'n helpu i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol

6.22 Mae Pennod 7 o'r ddogfen Hoff Strategaeth yn rhoi darlun o sut caiff y strategaeth ofodol gyffredinol yma ei weithredu.

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno mai'r Lefel Twf Tai a Ffafrir yw'r un fwyaf addas i gwrdd â materion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ardal y Cynllun? Os ydych yn anghytuno, beth fyddai'r lefel twf tai gorau a pham?

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno mai'r Opsiwn Ofodol a Ffafrir yw'r un gorau i ddosbarthu twf yn yr ardal? Os ydych yn anghytuno, beth fyddai'r strategaeth ofodol a pham?

# Pennod 7
# Yr hoff strategaeth



## Gweledigaeth y CDLl ar y Cyd

### Y Weledigaeth

Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu cymunedau ffyniannus a llawn bywyd sy'n dathlu eu diwylliant, treftadaeth a'u hamgylchedd unigryw ac yn rhywle y bydd pobl yn dewis byw ynddynt.

Mae hyn yn golygu y bydd ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn:

- lle mae anghenion tai cymunedau lleol yr ardal yn cael eu diwallu'n well o ran cyflenwad, math, ansawdd, effeithlonrwydd ynni, lleoliad a fforddiadwyedd
- lle mae'r preswylwyr a busnesau'n gallu achub ar y cyfleoedd economaidd newydd i ffynnu
- sy'n brolio gweithlu medrus priodol ac economi amrywiol, eang, gynaliadwy gyda chysylltiadau da sy'n gwneud y defnydd gorau o gryfderau lleol a chyfleoedd lle mae'r manteision sy'n deillio ohonynt yn aros yn lleol
- sy'n gartref i rwydweithiau egnïol o gymunedau cynhwysol lle mae'r preswylwyr yn mwynhau iechyd a lles da
- lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o gymunedau
- sy'n addasu ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r sialensiau a gyflwynir gan y newid hinsawdd
- lle mae cymeriad unigryw ei threftadaeth adeiledig a diwylliannol, ei chefn gwlad a'i thirwedd, a'i hamgylchedd, yn cael ei werthfawrogi, ei warchod a'i wella
- lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â hi

7.1 Mae cyflawni'r Weledigaeth erbyn 2026 yn dibynnu ar lwyddo i gyflawni pedwar o ddeilliannau:

### DEILLIANT 1: UCHAFU CYFLEON O DDATBLYGIADAU ECONOMAIDD

7.2 Mae cael dyfodol economaidd mwy disglair i ardal y Cynllun yn golygu bod angen codi'r allbwn economaidd (Gwerth Ychwanegol Crynswth neu "GVA") yn ogystal â nifer y swyddi. Mae gan y sectorau nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, technoleg forol, twristiaeth, sector gyhoeddus, gweithgynhyrchu, ynni adnewyddol a charbon isel gan gynnwys niwclear y potensial i gynhyrchu'r lefelau uwch o Werth Ychwanegol Crynswth sydd eu hangen. Rhai o'r sectorau pwysig eraill yw manwerthu, iechyd a gofal. Mae angen darparu ar gyfer yr holl sectorau hyn er mwyn cael safonau byw uwch a digon o swyddi ar gyfer trigolion ardal y Cynllun. I bob sector, mae'n hanfodol darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd, ar gyfer ehangu gan gwmnïau sy'n bodoli'n barod (fel nad oes rhaid iddynt symud i rywle arall), ac ar gyfer buddsoddiad.

7.3 Mae'r ffigyrau o ddarpariaeth tir ar gyfer cyflogaeth ar safleoedd diwydiannol a busnes (h.y. 84ha o dir i bob ardal Awdurdod Lleol) wedi'u seilio ar gasgliadau gwaith cyfrif sydd wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth Môn a Gwynedd (2011). Bydd gweithgaredd datblygu, yn ôl y dystiolaeth gyfredol, yn parhau'n dawel yn ystod y tymor byr ac wedyn yn cyflymu rywfaint yn y tymor canolig a'r tymor hirach, wedi'i gysylltu'n bennaf gyda phrosiectau isadeiledd mawr yn ardal y Cynllun neu'n effeithio arni. Mae'r ffigyrau darpariaeth arwynebedd llawr cyflogaeth ychydig yn fwy na beth sy'n debygol o gael ei adeiladu. Mae cynllunio ar gyfer yr ychydig ychwanegol yma'n fwriadol er mwyn cynnig dewis i ddatblygwyr a meddianwyr, a sicrhau bod gan y farchnad y cyfle i 'symud a throi'. Os bydd yr economi'n tyfu'n arafach neu'n gyflymach na sy'n cael ei ddisgwyl ar hyn o bryd, bydd modd ail asesu'r ffigyrau a'u newid os bydd angen, ar adeg adolygu'r Strategaeth hon fel rhan o adolygiad y CDLl ar y Cyd.

7.4 Mae pwyslais arbennig wedi cael ei roi ar adnabod safleoedd sy'n addas ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â sectorau allweddol fel gweithgynhyrchu, ynni adnewyddol a charbon isel. Mae pa mor hawdd yw datblygu safleoedd a pha

mor addas yw adeiladau yr un mor bwysig ag yw'r niferoedd cyffredinol ohonynt, felly mae angen i safleoedd ac adeiladau cyflogaeth fod yn addas ar gyfer gofynion busnes modern a bod tystiolaeth o ffordd hyfyw o'u datblygu ar gael. Bydd y safleoedd ac adeiladau cyflogaeth bresennol a'r rhai arfaethedig sy'n ateb y gofynion hynny'n cael eu diogelu neu eu dyrannu, yn eu trefn, ar gyfer defnydd cyflogaeth.

7.5I gael cynhyrchiant uwch a lefel uwch o Werth Ychwanegol Crynswth, mae'n rhaid cael lefelau uwch o sgiliau, ac yn y dyfodol bydd cyfran uwch o swyddi angen sgiliau uchel. Bydd y Strategaeth yn hwyluso amrediad o gynlluniau i gael sgiliau uwch, yn cynnwys hyrwyddo mwy o brentisiaethau, cael mwy o'r graddedigion o'r brifysgol sydd yn yr ardal hon i aros yma, a negodi cytundebau lleol gyda datblygwyr i ddarparu hyfforddiant i'r gweithlu.

7.6Bydd Polisïau Strategol yn diogelu safleoedd cyflogaeth addas sy'n bodoli'n barod a dyrannu'n benodol ar gyfer cyflogaeth, yn bennaf yn yr Is-ganolfan Ranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol ar draws yr ardal, gyda rhai mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig. Bydd cyfleoedd cyflogaeth briodol ar raddfa fechan yn cael eu cefnogi tu mewn i ac o gwmpas Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad trwy ddefnyddio polisïau meini prawf. Mae'r ymagwedd yma'n gyson a'r Strategaeth i ddosbarthu'r twf tai ar draws ardal y Cynllun. Trwy hyrwyddo datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig a threfol i annog pobl ifanc a theuluoedd ifanc i aros yn yr ardal neu i ddychwelyd i'r ardal bydd yr ymagwedd yma'n creu'r amgylchiadau cywir a allai gynnal neu greu cymunedau lle gall yr iaith Gymraeg ffynnu neu bara'n fyw.

## DEILLIANT 2: TAI I GWRDD AG ANGEN LLEOL

7.7 Bydd unedau tai newydd, trwy adeiladu newydd neu brosiectau trawsnewid, yn gwella'r tai sydd ar gael ac yn gwella'r dewis i bobl sydd eisiau bod yn berchnogion neu'n rhentu eu cartrefi eu hunain. Mae ardal y Cynllun angen mwy o gartrefi i ddarparu ar gyfer twf mewn aelwydydd – sy'n digwydd yn bennaf am fod pobl yn byw yn hŷn a bod trigolion lleol eisiau eu cartrefi eu hunain. Mae hefyd niferoedd o bobl ar y rhestrau aros am dai cymdeithasol.

7.8 Bydd y cynllun yn mynd i'r afael a materion sy'n codi o:

- Ddefnyddio pwerau cynllunio i ddylanwadu ar ddaliadaeth tai
- Cyfnerthiad o bolisïau cyfredol sy'n cefnogi prynwyr a gwerthwyr tai fforddiadwy
- Sicrhau bod tai fforddiadwy o ddyluniad a maint priodol.

7.9 Mae'r Strategaeth yn darparu ar gyfer 7,665 o gartrefi ychwanegol yn ystod 2011-2026 yn ardal y Cynllun, gyda hyn wedi'i seilio ar ragolygon gofynion tai'r Hoff Senario Twf. Mae hyn yn gyfartaledd o tua 511 o gartrefi newydd bob blwyddyn - cyfradd ychydig yn uwch nag yn strategaethau cynlluniau datblygu yn y gorffennol, a chyfradd uwch na'r gyfradd cyfartaledd adeiladu yn ardal y Cynllun yn y cyfnod 10 mlynedd gynharach. Mae'r gyfradd hon yn adlewyrchu'r rhagolygon economaidd mwy optimistaidd yn yr Hoff Senario Twf. Fodd bynnag, mae rhagolygon y farchnad dai'n golygu y bydd yn her i allu cyflawni hyd yn oed y gyfradd ychydig yn uwch yma, yn enwedig yn y tymor byr.

7.10 Mae'r Hoff Strategaeth yn anelu i gyfarch y twf sy'n cael ei ragweld mewn tai trwy ddarparu ar gyfer:

- O gwmpas 55% o'r twf hwn yn yr Is-ganolfan Ranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol;
- O gwmpas 20% yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol; a hefyd
- O gwmpas 25% yn y Pentrefi a Chlystyrau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y patrwm dosbarthu yma ym mharagraffau 7.16. – 7.23 isod.

7.11 Mae cael amrediad o wahanol feintiau a mathau o dai newydd yr un mor bwysig â'r cyfanswm nifer tai. Gan gydnabod y bydd perchnogaeth o gartref yn parhau i fod allan o gyrraedd llawer o bobl, bydd rhaid i gyfran o gartrefi newydd fod yn 'dai fforddiadwy', naill ai'n rhai canolradd neu ar rent, yn amodol ar ba mor hyfyw yw hynny. Hefyd, mae'n hanfodol annog twf yn y sector rhentu preifat. Bydd cyfran sylweddol o'r cynnydd sy'n cael ei ragweld mewn aelwydydd yn bobl dros 65 oed, felly bydd ymgais i gael cyfran o dai addas i bobl hŷn, yn enwedig tu mewn i gynlluniau datblygu mwy o faint. Yn gyffredinol mae'n rhaid i iaith gael ei ddefnyddio mewn cymaint o lefydd ag sy'n bosib er mwyn iddo ffynnu neu bara'n fyw. Mae'r iaith wedi llwyddo i bara'n fyw dros y canrifoedd hyd at heddiw fel iaith yr aelwyd ac iaith cymdogaethau lleol. Trwy hyrwyddo'r math cywir o dai (h.y. yn nhermau pris, daliadaeth, maint) yn y llefydd cywir (e.e. yn hygyrch i gyfleon gwaith, cyfleusterau addysgol, llefydd byw ddigidol), bydd y Strategaeth yn gwneud ardal y Cynllun yn lle fydd pobl yn dewis byw ynddo yn hytrach na symud i fwrdd oddi wrtho. Gall yr ymagwedd yma helpu i gynnal neu greu cymunedau lle gall yr iaith Gymraeg ffynnu neu bara'n fyw.

## DEILLIANT 3: CRYFHAU EIN CYMUNEDAU – GWLEDIG A THREFOL

7.12 Bydd y Strategaeth yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn cael ei ddosbarthu er mwyn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol gyda'r rolau fydd i'w gweld yn y Goeden Aneddiadau yn y Cynllun. Bydd y ffordd yma o weithredu'n ceisio atgyfnerthu cymeriad arbennig ardal y Cynllun o gymysgedd o drefol a gwledig, yn ogystal â'i gymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig. Er gwaethaf y dirywiad diweddar yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun, mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o ffabrig cymunedau'r ardal, ac mae'r ddau Gyngor am i hynny barhau. Un ffordd o wneud hynny yw cynaladwyedd y cymunedau presennol. Mae strategaeth ddosbarthu sy'n cefnogi cymunedau gwledig yn ogystal â'r rhai mwy trefol yn hanfodol i iechyd yr iaith Gymraeg a'r diwylliant.

7.13 Wrth ddewis lle i leoli datblygiad, dylid cadw at drefn o aneddiadau sy'n nodedig ac ar wahân, trwy osgoi cael aneddiadau'n tyfu nes llifo, un i mewn i'r llall. Lle bydd modd, bydd blaenoriaeth i ailddefnyddio tir ac adeiladau sydd wedi cael eu datblygu o'r blaen, tu mewn i aneddiadau neu'n agos atynt. Mae'r cyflenwad o safleoedd tir llwyd addas yn gyfyng yn y tymor hir, ac felly bydd angen am safleoedd maes glas tu mewn i aneddiadau neu'n agos atynt ac yn hawdd eu cyrraedd gyda dewis o ddulliau o deithio. Bydd y Strategaeth yn dangos sut bydd cymeriad unigol a rolau canol trefi wrth gyfrannu at ei gilydd yn cael eu gwella trwy gael datblygiad, gwelliannau i'r rhannau cyhoeddus, gwelliannau i gyfleusterau cludiant cyhoeddus, ac i gysylltiadau i gerddwyr/beicwyr. Bydd yn diffinio rôl canolfannau siopa unigol ac yn dangos y math o ddatblygiadau manwerthu a ffyrdd eraill o ddefnyddio yng nghanol trefi y dylent gael eu lleoli yn y canolfannau hyn.

7.14 Bydd y Strategaeth yn sefydlu beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad a chydweithio cyhoeddus a phreifat yn y dyfodol. Bydd yn gymorth i gael darpariaeth ar gyfer yr isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i gynnal a gwella cymunedau a chefnogi datblygiad newydd. Bydd polisïau i gynorthwyo i gyflawni'r deilliant hwn yn cynnwys asedau cymunedol, darparu isadeiledd ffisegol a gwyrdd, a pheirianweithiau i ddarparu isadeiledd. Bydd yn cefnogi cynlluniau sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf, sy'n golygu parchu a gwella'r Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig; cynllunio datblygiad newydd i gynorthwyo i leihau trosedd, ymddygiad gwrth cymdeithasol a'r ofn o drosedd; hyrwyddo lles ac iechyd; sicrhau bod cymeriad lleol yn perthyn i ddatblygiad.

## DEILLIANT 4: CYFOETHOGI ASEDAU AMGYLCHEDDOL YR ARDAL

7.15 Mae'n nod gan y Strategaeth i wella cynaliadwyedd amgylcheddol ardal y Cynllun a chynorthwyo i wella'i gallu i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd. Mae risg o lifogydd i rannau o'r ardal, a bydd y risg hwnnw'n cynyddu wrth i lefel y môr godi fel sy'n cael ei ragweld. Felly mae angen lleoli a dylunio datblygiad newydd er mwyn lleihau gymaint ag y bo modd ar y risg o lifogydd. Bydd y Strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer gwarchod a chadw cymeriad nodedig yr ardal, trwy gynnal a gwella cymeriad y dirwedd a'r treflun. Bydd polisïau i gynorthwyo i gyflawni'r deilliant hwn hefyd yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, a chael isadeiledd a dyluniad gwyrdd.

## STRATEGAETH OFODOL

7.16Nodwedd amlwg o'r system CDLl ydy'r angen i ystyried opsiynau gofodol a datblygu amrywiol wrth lunio'r strategaeth. Cafodd nifer o opsiynau datblygu eu hystyried o ran lefelau o dwf tai a phatrwm datblygu cyffredinol. Cafodd yr opsiynau yma eu hasesu yn nhermau eu hardrawiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

7.17 Mae'r Strategaeth Ofodol sy'n cael ei gynnig yn y Ddogfen Hoff Strategaeth yma'n cydnabod rôl prif drefi ardal y Cynllun ac felly'r angen i'w cryfhau, a chydnabod fod gan yr ardaloedd mwy gwledig rôl hefyd wrth ddarparu cyfleon cyflogaeth a chartrefi ar gyfer trigolion ardal y Cynllun. Gyda chanran uwch o boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig roedd hi'n amlwg felly fod gwella cynaliadwyedd y cymunedau gwledig presennol yn bwysig. Er mwyn gallu cyrraedd y nod o gael cymunedau cynaliadwy, iaith Gymraeg hyfyw a gwella mynediad i gyfleusterau mae hyrwyddo mentergarwch gwledig ac annog ystod o wasanaethau basig mewn mannau hwylus i boblogaeth wledig yn sail i'r Strategaeth Ofodol gyffredinol.

7.18 Mae'r strategaeth ofodol gyffredinol felly'n anelu i wella cynaliadwyedd trwy:

i) ganolbwyntio'r datblygiadau a'r adfywio mwyaf

ar y Prif Aneddleoedd  a'r safleoedd strategol yno

ii) gefnogi datblygu sy'n adlewyrchu maint, swyddogaethau a chapasiti amgylcheddol a diwylliannol y rhwydwaith o wahanol Aneddiadau Allweddol a Phentrefi Allweddol

iii) gefnogi mân ddatblygu, mewn mân Bentrefi diffiniedig ac yng nghefn gwlad, sy'n helpu i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol

*Prif Aneddleoedd = Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaethol Trefol yn y Goeden Aneddleoedd*

*Aneddiadau Allweddol a Phentrefi Allweddol = Canolfannau Gwasanaethol Lleol a Phentrefi yn y Goeden Aneddleoedd*

*Man Bentrefi diffiniedig = Clystyrau yn y Goeden Aneddleoedd*

7.19 Mae Strategaeth Aneddleoedd wedi cael ei pharatoi i helpu i gyfarch y strategaeth. Mae'r Strategaeth Aneddleoedd yn rhoi'r ymagwedd oferôl ar gyfer darparu cartrefi newydd, gwaith, isadeiledd a chyfleusterau cymunedol dros oes y Cynllun ar gyfer ardal y Cynllun. Mae'r rhoi'r cyd-destun ar gyfer y Polisïau Strategol sydd yn y Ddogfen Hoff Strategaeth draft ac yn amlinellu sut caiff y Weledigaeth a'r Amcanion eu cyfarch.

7.20 Mae'r Strategaeth Aneddleoedd yn dangos yr aneddleoedd lle bydd twf a buddsoddiad yn cael ei gyfeirio. Mae'r Goeden ganlynol o wahanol fathau o aneddleoedd yn cael ei gynnig:

• Is-Ganolfan Ranbarthol - yn gweithredu fel canolfan traws ffiniol yn  nhermau cyflogaeth, addysg uwch a phellach a manwerthu. Mae ganddo gysylltiadau da o fewn yr ardal ac ar draws y ffin.

• Canolfannau Gwasanaethol Trefol - yn cyflawni rol canolfan leol ar gyfer anghenion basig yr aneddleoedd o fewn eu dalgylch yn ogystal â rol gwasanaethau uwch i gwrdd ag anghenion nad ellir eu cwrdd yn ymarferol o fewn canolfannau rheng is neu bentrefi. Fel y cyfryw maent yn cyfarch ardal ddaearyddol fawr.

• Canolfannau Gwasanaeth Lleol - canolfannau sydd wedi cael eu hadnabod oherwydd eu maint, ystod ac ansawdd eu gwasanaethau a chyfleusterau, cysylltiadau swyddogaethol gyda chanolfannau uwch. Trwy adnabod yr aneddleoedd yma a chanolbwyntio datblygiad gwledig ynddynt mae strategaeth y CDLl ar y Cyd yn amcanu i gryfhau eu rol o fewn y rhwydwaith o aneddleoedd a gwella cyfleon cymunedau gwledig i gwrdd â'u hanghenion basig eu hunain.

• Pentrefi – gan o leiaf un cyfleuster cymunedol a chysylltiad cynaliadwy gyda chanolfan lefel uwch. Er mwyn gallu rheoli datblygiad o fewn y categori yma awgrymir yr is-gategoriau canlynol: Pentrefi Gwasanaethol, Pentrefi Lleol, Pentrefi Arfordirol/ Gwledig

• Clystyrau – clwstwr cydlynol o 10 o dai yng nghefn gwlad gyda chysylltiad swyddogaethol efo pentref neu ganolfan lefel uwch

• Cefn gwlad – gweddill ardal y Cynllun

Bydd Papur Testun 5 – Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd yn rhoi mwy o wybodaeth ynglyn a'r gwahanol fathau o aneddleoedd sydd yn y Goeden.

7.21 Er mwyn cyfarch y Strategaeth mae angen rhoi sylw i berthynas ofodol a swyddogaethol rhwng y gwahanol fathau o aneddleoedd yn nhermau tai, gwasanaethau cymunedol, cyfleusterau hamdden, cyflogaeth ac unrhyw rwydweithiau cefnogol anffurfiol. Fe ddefnyddiwyd ardaloedd dalgylch dibyniaeth neu is-ardaloedd yn y cynlluniau datblygu blaenorol oedd yn gofalu am ardal y Cynllun. Mae'r CDLl ar y Cyd yn adnabod grwpiau o aneddleoedd sydd gan berthynas ofodol a swyddogaethol gyda'i gilydd. Mae gan bob Grwp un ai Ganolfan Isranbarthol neu Ganolfan Wasanaethol Drefol, yn ogystal â Chanolfan(nau) Gwasanaethol Lleol, Pentrefi a Chlystyrau a ffermydd. Derbynnir ei bod hi'n bosib fod yna grwpiau amgen eraill posib. Ceir mwy o wybodaeth am adnabod y Grwpiau yma ym Mhapur Testun 5 - Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd.

7.22 Mae'n bwysig nodi bydd dosbarthiad y gwahanol fathau o dwf yn rhoi sylw i boblogaeth bresennol, graddfeydd adeiladu diweddar, rol aneddleoedd mewn dogfennau allweddol cenedlaethol neu leol eraill (gan gynnwys y Cynllun Gofodol Cymru) ynghyd a gyrwyr polisi eraill fel cynigion adfywio, lefel gwasanaethau a chyfleusterau a chapasiti i ddatblygu. Wrth ddatblygu'r Strategaeth Aneddleoedd a'r goeden aneddleoedd, mae'n bwysig edrych i mewn i allu'r gwahanol lefydd yn nhermau capasiti amgylcheddol, cyfyngiadau isadeiledd, argaeledd safleoedd priodol ac anghenion y cymunedau lleol am dai.

7.23 Tra bod strategaeth ofodol gyffredinol y CDLl ar y Cyd yn anelu i ganolbwyntio ar y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaethol Trefol i ildio safleoedd datblygu mawr, mae'n debyg y bydd cyfyngiadau ffisegol ar dir yn rhai o'r Canolfannau yma'n golygu y bydd angen chwilio am aneddleoedd amgen i gynorthwyo i gwrdd â'r diffyg a fyddai fel arfer yn cael ei gyfeirio at y Canolfannau. Caiff yr aneddleoedd amgen eu dewis ar sail ystod o ffactorau a fydd yn cynnwys: agosrwydd at y Ganolfan, hygyrchedd i'r Ganolfan trwy ddulliau teithio ar wahân i'r car, lefel y gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael yn yr anheddle sy'n rhoi rhyw gymaint o gyfle i leihau'r angen i deithio i'r Ganolfan ar gyfer anghenion dydd i ddydd. Mae'n debyg y caiff unrhyw ddiffyg ei ddiwallu o fewn yr un Grwp o Aneddleoedd yn hytrach na'i gyfeirio at Ganolfan arall ar yr un lefel yn y Goeden.


## CRYNODEB O'R HOFF STRATEGAETH DRAFFT

7.24 Strategaeth drafft y CDLl ar y Cyd ydy cofleidio cyfleon a newid a darparu ar gyfer twf Economaidd a thwf tai a ragwelir. Mae'n cynnwys darparu ar gyfer ystod o gyfleon gyflogaeth ac anghenion tai.

7.25 Bydd yn gwneud hynny trwy ddosbarthu twf mewn ffordd sy'n cryfhau rhwydwaith dinas, terfi a phentrefi'r ardal a'r iaith Gymraeg a diwylliant, h.y. cynnal a chreu cymunedau cynaliadwy. Mae'n rhaid gwneud hynny wrth warchod a gwella amgylchedd ardal y cynllun a'i adnoddau a'i wneud yn fwy ymatebol i newid trwy ddatblygiad cynaliadwy, sicrhau bod yr isadeiledd a gwasanaethau'n gallu cwrdd â'r heriau yma.

7.26 Mae'r Diagram Allweddol yn darparu dehongliad diagramatig o Hoff Strategaeth y CDLl ar y Cyd ar raddfa cynllun cyfan. Mae'n dangos yr egwyddorion gofodol bras sydd yn y Strategaeth ac nid ei fwriad ydy body n fanwl neu'n benodol i safle. Mae'r cyfeiriadau gofodol yn cael ei ddangos er mwyn hwyluso ymgynghoriad cyhoeddus ac asesiad cynaliadwyedd.






©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387
©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
Joint Planning Policy Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

1:500,000

# POLISÏAU TRAWSFWOL

## DATBLYGIAD CYNALIADWY

### Y cyd-destun

- Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yng Nghymru, ac mae gan y system gynllunio rhan sylweddol i'w chwarae;
- Mae deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau datblygu lleol gyfrannu at y gwaith o gyflawni datblygiad cynaliadwy;
- Pwrpas y Strategaethau Integredig Cymunedol yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn;
- Mae angen cefnogi cymunedau cynaliadwy trwy sicrhau argaeledd cyfleon cyflogaeth amrywiol a nifer ddigonol gartrefi amrywiol fydd yn cwrdd ag anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes, lle mae yna ddewis digonol o gyfleon i hamddena ac adloniadol, a lle mae yna ond ychydig o drosedd ac mae pobl yn teimlo'n saff;
- Fe ddylid lleihau'r angen i deithio a theithio mewn cerbydau sy'n defnyddio tanwydd anghynaladwy

### Cyflwyniad

7.27 Pwrpas y drefn gynllunio defnydd tir yw cynorthwyo i gael datblygiad cynaliadwy:

> Ystyr datblygiad cynaliadwy yw gwneud yn sicr fod pobl yn gallu ateb eu hanghenion sylfaenol yn y cyfnod presennol, gan sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol edrych ymlaen at yr un ansawdd bywyd.
>
> Mae tair 'colofn' o ddatblygiad cynaliadwy, wedi'u rhyng-gysylltu gyda'i gilydd, ac mae angen eu hystyried gyda'i gilydd er mwyn cael datblygiad sy'n wirioneddol gynaliadwy:
>
> AMGYLCHEDDOL
>
> CYMDEITHASOL
>
> ECONOMAIDD

7.28 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Tachwedd 2012) yn rhoi'r egwyddorion sy'n sail i ymagwedd y Llywodraeth i bolisi cynllunio ar gyfer datblygiad cynaliadwy ac yn adlewyrchu'r egwyddorion mae'n disgwyl i bawb sy'n rhan o'r system gynllunio lynu wrtho. Gan fod y CDLl ar y Cyd yn erfyn allweddol i gyflawni hyn, mae angen am bolisi strategol trawsfwaol i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn ei holl ffurfiau ym mhob rhan o ardal y Cynllun. Caiff sut ddylid gweithredu'r amcanion yma ei egluro mewn cyfres o bolisïau strategol eraill sydd yn y Ddogfen Hoff Strategaeth Drafft ac mewn cyfres o bolisïau manwl, a fydd yn dweud beth fydd y gofynion manwl perthnasol o ran cyflawni'r amcanion.

# Polisi Strategol PS1 Datblygiad Cynaliadwy

**Cefnogir cynigion datblygu pryd maent yn dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy. Bydd rhaid i gynigion datblygu symud tuag at gyflawni'r amcanion perthnasol canlynol i gyd:**

1. Lliniaru achosion newid hinsawdd ac addasu i'r ardrawiadau nad ellir eu hosgoi nhw;
2. Rhoi blaenoriaeth i ddefnydd effeithiol o dir ac isadeiledd, gan roi blaenoriaeth lle mae hynny'n bosib i ail-ddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau sydd o fewn y Ganolfan Is-ranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol, Pentrefi neu yn y llefydd mwyaf priodol du allan iddynt;
3. Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi i fod yn fwy hunangynhwysol trwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau digonol; gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon ac adloniadol; ystod amrywiol o gyfleon cyflogaeth; isadeiledd ffisegol a chymdeithasol; a dewis mewn dulliau teithio o un lle i'r llall;
4. Bod unedau tai, mewn achosion perthnasol yn cwrdd ag anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran ansawdd, math o ddaliadaeth a fforddiadwyedd;
5. Gwarchod, hyrwyddo a gwella defnydd o'r iaith Gymraeg;
6. Economi leol amrywiol ac ymatebol sy'n annog buddsoddiad a fydd yn cynnal ein Canolfannau, Pentrefi ac ardaloedd gwledig;
7. Cefnogi'r economi leol a busnesau trwy ddarparu cyfleon i ddysgu gydol-oes a datblygu sgiliau;
8. Lleihau'r angen i deithio ac annog a chynyddu'r cyfleon sy'n golygu y gellir teithio pan mae angen gwneud hynny mor aml ag sy'n bosib trwy ddefnyddio dulliau amgen gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus;
9. Hyrwyddo safonau uchel o ddyluniad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr ardal leol, mannau sy'n hawdd cael mynediad atynt ac yn lleihau trosedd, ymddygiad gwrth gymdeithasol ac ofn trosedd.
10. Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu'n gynaliadwy er mwyn cyfrannu at effeithlonrwydd ynni; y defnydd o ynni adnewyddol; lleihau/ailgylchu gwastraff; y defnydd o ddeunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a gwarchod ansawdd pridd;
11. Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac sy'n cael ei wastraffu; lleihau'r effaith ar adnoddau ac ansawdd dwr; rheoli bygythiad llifogydd a gwneud y defnydd mwyaf o gynlluniau draenio cynaliadwy; a chyflawni amcanion y Cynllun Rheoli Dwr Basn Afon Gorllewin Cymru;
12. Gwarchod a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad), gan wella'r ddealltwriaeth ohonynt a'u gwerthfawrogiad a'u defnydd cynaliadwy;
13. Gwarchod a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd naturiol, ei dirluniau a bioamrywiaeth, gan gynnwys ein dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad ohonynt oherwydd y gwasanaethau cymdeithasol ac economaidd maent yn darparu.

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| Amcanion strategol | Yn berthnasol i'r holl amcanion strategol |
|---|---|
| Cynllun Integredig Gwynedd | Mae'n plethu gyda'r allbynnau lefel uchel i gyd. |
| Cynllun Integredig Môn | Mae'n plethu gyda'r allbynnau lefel uchel i gyd. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Mae'n plethu gyda'r allbynnau lefel uchel i gyd. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Môn | Mae'n plethu gyda'r allbynnau lefel uchel i gyd. |



# LLINIARU AC ADDASU I EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD

## Y cyd-destun

- Mae mynd i'r afael yn newid hinsawdd yn un o amcanion allweddol y Llywodraeth ac mae Polisi Cynllunio Cymru'n disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau lleoliad a phatrwm datblygu priodol, hyrwyddo lleihad yn y defnydd o'r car, gwarchod a gwella bioamrywiaeth a sicrhau bod pob datblygiad newydd yn hydwyth i effeithiau newid hinsawdd er mwyn lliniaru ac addasu i newid hinsawdd;

- Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, trwy gyfrwng eu Cynlluniau Busnes, wedi ymrwymo eu hunain i weithio mewn ffordd sy'n gwrthweithio newid hinsawdd;

- Fe ddylid ymgorffori ystyriaethau newid hinsawdd yn natblygiad polisïau gofodol yr ardal;

- Fe ddylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau bod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn hydwyth i newid hinsawdd ac yn gallu addasu iddo.

## Cyflwyniad

7.29 Bydd y CDLl ar y Cyd yn darparu cyfarwyddyd ar sut bydd yr ardal yn cyfrannu at amcanion cenedlaethol ac Ewropeaidd i leihau allyriadau carbon, sy'n brif achos cynhesu byd eang. Rhaid i ni geisio lliniaru a lleihau effeithiau newid hinsawdd yn ogystal ag addasu i'r effeithiau sy'n cael eu rhagweld ac rydym yn debygol o'u gweld yn y dyfodol. Bydd y CDLl ar y Cyd yn ceisio, ymysg pethau eraill, cefnogi datblygiad i gael gymaint ag y bo modd o ddatblygiad ynni adnewyddol a charbon isel, cefnogi trosi i economi carbon isel, cefnogi gwelliannau sy'n effeithlon gydag ynni ac angen caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladau sy'n bodoli'n barod ac osgoi datblygiad amhriodol mewn rhannau lle mae risg llifogydd. Mae'r saith Awdurdod Cynllunio yng Ngogledd Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno i Femorandwm o Ddealltwriaeth yn ystod 2011 ynglyn a dulliau i weithio. O fewn y Memorandwm mae'r ACLl wedi cytuno i hyrwyddo bod angen i unrhyw ddatblygiad preswyl ystyried 100 mlynedd o newid hinsawdd ac y byddai angen i ddatblygiadau dibreswyl ystyried 75 mlynedd o newid hinsawdd. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod newid hinsawdd yn cael sylw fel thema trosfwol.

# Polisi Strategol PS2 Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd

**Er mwyn lliniaru effeithiau newid hinsawdd fe ddylai pob datblygiad ymdrechu i:**

1. wneud y defnydd mwyaf effeithiol a chynaliadwy o dir, adeiladau a lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol trwy ddefnyddio deunyddiau o ffynhonnell gynaliadwy neu trwy ailddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau lle mae hynny'n bosib
2. roi sylw i'r Goeden ynni trwy:
   a. Leihau'r angen am ynni;
   b. Defnyddio ynni'n fwy effeithiol;
   c. Cyflenwi ynni'n effeithiol, a
   ch. Defnyddio ynni carbon isel neu ynni adnewyddol lle mae hynny'n ymarferol a hyfyw ac yn gyson a'r angen i ymgysylltu a chynnwys cymunedau, gwarchod mwynderau gweledol, amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol a'r dirwedd
3. leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, helpu i leihau gwastraff ac annog dulliau teithio ar wahân i'r car

Er mwyn addasu i effeithiau newid hinsawdd fe ddylai pob datblygiad ymdrechu i:

4. weithredu mesurau rheoli dŵr yn gynaliadwy yn gyson ag amcanion Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru;
5. gael eu lleoli i ffwrdd o ardaloedd sydd dan fygythiad llifogydd, ac yn anelu i leihau'r bygythiad oferôl o lifogydd o fewn ardal y Cynllun ac ardaloedd du allan iddo, gan roi ystyriaeth i 100 mlynedd a 75 mlynedd o newid hinsawdd yn achos datblygiad preswyl a dibreswyl yn y drefn honno;
6. gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd cymaint â phosib oherwydd safon uchel ei ddyluniad cynaliadwy, leoliad, gynllun a dulliau adeiladu cynaliadwy;
7. trwy ddiogelu tir amaeth o safon uchel a hyrwyddo rhandiroedd, cefnogi cyfleon i gynhyrchu bwyd yn lleol a ffermio er mwyn lleihau cyfraniad yr ardal i filltiroedd bwyd;
8. darparu mesurau ychwanegol fel cysgod ac oeri naturiol a darparu rhwydweithiau o isadeiledd gwyrdd a phlannu coed i ddigolledu'r allyriadau CO2;
9. sicrhau nad yw gallu tirweddau, cynefinoedd a rhywogaethau i addasu i effeithiau andwyol newid hinsawdd yn cael ei effeithio ac os oes angen, bod cynefinoedd cydadferol yn cael eu darparu;
10. anelu at y safon uchaf posib o ran effeithlonrwydd dwr a gweithredu mesurau eraill i wrthsefyll sychder, cynnal llif dwr a chynnal neu wella ansawdd dwr, gan gynnwys defnyddio systemau draenio cynaliadwy;
11. gwarchod pridd er mwyn sicrhau y gellir gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd;
12. ychwanegu at gyfleon i gerdded neu feicio i baratoi am adeg pryd fydd tanwydd yn prinhau neu'n mynd yn ddrytach.

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO13, SO14, SO15, SO16, SO18, SO20, SO2, SO26 |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy |
| Cynllun Integredig Môn | Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Amgylchedd diogel a chynaliadwy |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Môn | Pobl ym Môn yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol |

# STRATEGAETH ANEDDLEOEDD

## Cefndir

• Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori y dylai cynlluniau datblygu lleol sicrhau patrwm cynaliadwy o ddatblygiad sy'n ateb anghenion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd, gan barchu amrywiaeth lleol ac amddiffyn cymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol cymunedau

• Dylai polisïau cynllun datblygu lleol geisio lleihau'r angen i deithio a gwneud gymaint ag y bo modd o ddefnydd o ffurfiau amgen o gludiant

• Mae angen cyfyngu ar ddatblygiad nad yw'n hanfodol yng nghefn gwlad agored.

• Dylai polisïau cynllun datblygu lleol geisio bod â'r nod o greu cymunedau cymysg cynaliadwy

• Mae'n nod allweddol gan y CDLl ar y Cyd i geisio sicrhau bod datblygiadau tai a chyflogaeth yn cael eu taenu mewn ffordd sy'n rhesymol yn ddaearyddol, gan gael gymaint ag y bo modd o fynediad at swyddi a gwasanaethau a chyfleusterau allweddol

## Cyflwyniad

7.30 Mae strategaeth ofodol y CDLl ar y Cyd, fel sydd wedi'i gosod allan yn y Strategaeth Anheddiad, yn hollbwysig ar gyfer llywio twf yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae Polisi Strategol PS3 yn gosod allan yn gyffredinol y ffordd o weithredu o ran lleoliad a dosbarthiad datblygiad yn ardal y Cynllun. Mae'n diffinio rolau trefi a phentrefi ac mae Polisi PS4 yn gosod allan y math o ddatblygiad fyddai'n dderbyniol mewn cefn gwlad agored.

7.31 Mae Polisi Strategol PS3 hefyd yn rhoi amlinelliad o'r Goeden ar gyfer darparu gwasanaethau a buddsoddiad, dosbarthiad gofodol twf tai a chyflogaeth.

7.32 Mae'r hoff ddewis ar gyfer y strategaeth ofodol yn ceisio sicrhau bod, lle bynnag bo modd, y mwyafrif (55%) o ddatblygiad preswyl yn cael ei leoli tu mewn i neu wrth ymyl y Ganolfan Is-ranbarthol bresennol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol, gan mai hwy sy'n darparu'r amrediad gorau o wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad at gludiant cyhoeddus. Mae'r ffordd hon o weithredu'n gwneud y defnydd mwyaf o'r isadeiledd sy'n bodoli'n barod, lleihau'r angen i deithio a sicrhau bod y Canolfannau hyn yn parhau i fod yn gynaliadwy.

7.33 Fodd bynnag, mae'r hoff ddewis yn cydnabod y dylai Canolfannau llai o faint (h.y. Canolfannau Gwasanaeth Gwledig) a Phentrefi, os ydynt i barhau'n gynaliadwy, gael y cyfle lle bo'n briodol i gymryd datblygiad newydd. Er hynny, nid yw pob Pentref yr un fath â'i gilydd. Mae'n cael ei gredu bod Prif Bentrefi yn darparu lefel uwch o gyfleusterau a gwasanaethau na'r Pentrefi Pellach ac yn gyffredinol mae ganddynt fwy o fynediad cynaliadwy at, a chysylltiad gweithredol gyda Chanolfannau sy'n uwch i fyny yn y drefn. Ar yr adeg hon, mae'n cael ei gredu y gall rhai o'r Prif Bentrefi hyn gymryd rywfaint o'r twf a fyddai fel arfer yn cael ei gyfeirio at Ganolfan lefel uwch. Mae'n bwysig diogelu eu rôl bresennol, lefel o gyfleusterau a gwasanaethau lle bynnag bo modd. Yn wrthgyferbyniad i hyn, mae'n cael ei gredu mai cynlluniau llai o faint sy'n fwy priodol yn y Pentrefi Pellach, oherwydd naill ai eu lleoliad a lefel gymharol is o wasanaethau allweddol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cymunedau mewn Pentrefi Arfordirol yn wynebu mwy o heriau o ran cael mynediad at y farchnad dai lleol - her sy'n cael ei chynyddu am fod y Pentrefi'n boblogaidd gyda pherchnogion ail gartrefi / cartrefi gwyliau. Mae angen i ddatblygiad yn y Pentrefi hyn fod yn briodol o ran graddfa a math i geisio ateb angen y gymuned am dai a diogelu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

7.34 Er mwyn rhoi sylw i rywfaint o'r angen lleol am dai tu allan i'r Canolfannau a Phentrefi, mae'r Strategaeth Aneddleoedd hefyd yn enwi Clystyrau sy'n gallu cymryd datblygiad i lenwi bylchau, ddim ond ar raddfa fechan.

7.35 Mae'r egwyddorion sy'n sylfaen i sut bydd twf yn cael ei ddosbarthu yn y dyfodol yn adlewyrchu rôl y Canolfannau, Pentrefi a Chlystyrau a'u perthynas gyda'i gilydd, gan sicrhau bod graddfa'r datblygiad yn briodol i faint yr anheddiad a bod ystyriaeth i'r capasiti amgylcheddol, ieithyddol ac o ran isadeiledd.

## Polisi Cynllun Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri

7.36 Mae rhan sylweddol o dde Gwynedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r Bala a Dolgellau wedi'u dynodi'n Ganolfannau yng Nghynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Eryri ac yn hynny'n darparu cyfleoedd i ateb yr angen am dai mewn ardaloedd Cyngor Cymuned yn union y tu allan i ffiniau'r Parc Cenedlaethol neu ar y ffiniau, yn ogystal ag ardaloedd tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Yn yr un modd, mae'r Canolfannau hyn yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol gwerthfawr i gymunedau tu allan i ffiniau'r Parc Cenedlaethol

# Polisi Strategol PS3 Strategaeth Aneddleoedd

**Bydd datblygiad yn cael ei ddosbarthu yn unol â'r strategaeth aneddleoedd a ganlyn, wedi'i seilio ar y lefelau o ddarpariaeth gwasanaethau sydd gan yr anheddle, ei maint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gallu amgylcheddol, cymdeithasol ac o ran isadeiledd i ddarparu ar gyfer datblygiad:**

## (i) Canolfan Is-ranbarthol

### Bangor

Mae ganddi fanteision coridor rheilffordd a phriffordd strategol yn rhedeg trwy Ogledd Cymru ac yn cysylltu'r ffocysau allweddol fel sy'n cael ei gydnabod yng Nghynllun Gofodol Cymru. Mae'n ganolfan fanwerthu isranbarthol strategol ac yn gweithredu fel Canolfan ar draws ffiniau, yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth fechan, ganolig a mawr ar safleoedd wedi'u sefydlu'n barod a safleoedd newydd; cyfleoedd / gwasanaethau addysg, addysg uwch, hamdden ac iechyd. Mae ganddi gysylltiadau cludiant cyhoeddus ardderchog gydag anheddau sy'n is yn y drefn tu mewn i ardal y Cynllun a thu allan iddi.

Yn ystod cyfnod y Cynllun, bydd cyfran uwch o'r datblygiad newydd y bydd ei angen yn digwydd tu mewn i Fangor ac ar ei hymylon, trwy gyfrwng cwblhau, ymrwymiadau, safleoedd ar hap a dyraniadau newydd. Bydd ffiniau datblygu'n cael eu newid i adlewyrchu'r datblygiad arfaethedig. Bydd y Ganolfan yn darparu ar gyfer cyfuniad o dai ar y farchnad a thai fforddiadwy.

## (ii) Canolfannau Gwasanaeth Trefol

### Ynys Môn

Amlwch, Caergybi, Llangefni

### Gwynedd

Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli

### Disgrifiad o'r rôl

Mae'r Strategaeth yn cydnabod rôl fawr y Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Maen nhw'n cynnig amrediad da o gyflogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau sy'n gwasanaethu eu poblogaeth eu hunain yn ogystal â'u dalgylchoedd eang. Maen nhw'n cael eu cydnabod yng Nghynllun Gofodol Cymru fel Prif Aneddiadau Allweddol, naill ai tu mewn i'r ffocysau sydd wedi cael eu henwi neu, fel yn achos Blaenau Ffestiniog, yn cyflawni rôl allweddol ar draws ffiniau rhwng ardaloedd dau gynllun gofodol cenedlaethol. Mae gan yr ardaloedd hyn, yn enwedig Caergybi, raddau uchel o fynediad o ran chludiant cyhoeddus a dulliau cynaliadwy eraill. Bydd y rhan fwyaf o ddatblygiad newydd yn digwydd tu mewn i'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol hyn neu ar eu cyrion.

Yn ystod cyfnod y Cynllun, bydd cyfran uwch o'r datblygiad newydd y bydd ei angen yn ardal y Cynllun yn cael ei gyfeirio tuag at y Canolfannau hyn. Bydd rhan fwyaf o ddatblygiad newydd yn digwydd du mewn ac ar ymyl y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a chaiff datblygiad ei wireddu trwy unedau wedi eu cwblhau, ymrwymiadau, ar hap a dynodiadau newydd. Bydd ffiniau datblygu'n cael eu haddasu i adlewyrchu'r datblygiad arfaethedig. Bydd y Ganolfan yn darparu ar gyfer cyfuniad o dai marchnad a thai fforddiadwy.

## (iii) Canolfannau Gwasanaeth Lleol

### Ynys Môn

Biwmaris, Benllech, Bodedern, Cemaes, Gaerwen, Llanfairpwll, Pentraeth, Porthaethwy, Rhosneigr, Y Fali

### Gwynedd

Abermaw, Abersoch, Bethesda, Criccieth, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn

### Disgrifiad o'r rôl

Mae'r Strategaeth yn cydnabod rôl gyfrannol y Canolfannau Gwasanaeth Lleol, yn darparu ar gyfer anghenion hanfodol eu poblogaeth eu hunain and y dalgylch gweledig cyfagos yn ogystal â rhywfaint o gyfleon cyflogaeth a manwerthu. Maent yn eithaf hygyrch ar gludiant cyhoeddus i Ganolfannau rheng uwch. Yn ystod oes y Cynllun fe gaiff tua 20% o'r twf tai cyfan ei gyfeirio at dir du mewn i neu ar gyrion y Canolfannau Gwasanaeth Lleol. Caiff datblygiad ei wireddu trwy gwblhau, ymrwymiadau, ar hap, a lle mae'n briodol, dynodiadau newydd. Caiff ffiniau datblygu eu newid i gyfarch y datblygiad newydd. Bydd y Ganolfan yn darparu ar gyfer tai marchnad a thai fforddiadwy.

## (iv) Pentrefi

Pentref Gwasanaethol

### Ynys Môn

Gwalchmai, Niwbwrch, Llannerchymedd

### Gwynedd

Bethel, Bontnewydd, Botwnnog, Chwilog, Deiniolen, Rachub, Tremadog, Y Ffor

## Pentref Lleol

### Ynys Môn

Bethel, Bodffordd, Bryngwran, Brynsiencyn, Caergeiliog, Dwyran, Llandegfan, Llanddaniel Fab, Llanfachraeth, Llanfaethlu, Llanfechell, Llanfihangel yn Nhowyn, Llangaffo, Llangristiolus, Pencarneision, Penysarn, Rhosybol, Talwrn, Tregele

### Gwynedd

Abererch, Brynrefail, Caeathro, Carmel, Cwm y Glo, Dinas (Llanwnda), Dinas Dinlle, Dolydd ac Maen Coch, Efailnewydd, Garndolbenmaen, Groeslon, Llandwrog, Llandygai, Llangybi, Llanllyfni, Llanystumdwy, Nantlle, Penisarwaun, Pentref Uchaf, Rhiwlas, Rhosgadfan, Rhostryfan, Sarn Mellteyrn, Talysarn, Tregarth, Trefor, Tudweiliog, Waunfawr, Y Garreg – Llanfrothen, Y Fron.

## Pentref Arfordirol/ Gwledig

### Ynys Môn

Aberffraw, Carreglefn, Llanbedrgoch, Llanddona, Llanfaelog, Llangoed, Malltraeth, Moelfre, Pont Rhyd y Bont, Trearddur

### Gwynedd

Aberdaron, Borth y Gest, Clynnog Fawr, Corris, Edern, Fairbourne, Llanaelhaearn, Llanbedrog, Llangian, Llithfaen, Morfa Bychan, Morfa Nefyn, Mynytho, Rhoshirwaun, Sarn Bach, Y Felinheli

## Disgrifiad o'r rôl

Bydd graddfa datblygiad y dyfodol yn adlewyrchu anghenion y pentref yn nhermau eu maint a swyddogaeth a pherthynas ffisegol a swyddogaethol gyda Chanolfannau lefel uwch. Bydd yn adlewyrchu eu cymeriad cymdeithasol a statws y farchnad dai. Dros oes y Cynllun caiff lefel uwch o dwf tai a chyflogaeth ddigwydd yn y Pentrefi Gwasanaethol. Mewn Pentrefi Gwasanaethol caiff datblygiad ei gyfarch trwy gyfrwng cwblhau, ymrwymiadau, ar hap, a dynodiadau os yn briodol ar gyfer cymysgedd o dai marchnad a thai fforddiadwy angen lleol.

Er mwyn adlewyrchu cymeriad y Pentrefi Lleol a'r Pentrefi Arfordirol/ Gwledig, caiff datblygiad tai ei gyfyngu i raddfa a math sy'n cyfarch anghenion y gymuned am dai. Bydd llai o ddatblygu'n digwydd yn y Pentrefi yma i warchod eu cymeriad, cefnogi angen cymunedol am dai neu dai fforddiadwy angen lleol. Ni fydd dynodiadau tai marchnad agored neu gyflogaeth yn y Pentrefi yma ond ceir polisïau meini prawf manwl fydd yn hyrwyddo datblygiad ar raddfa briodol.

## (v) Clystyrau

### Ynys Môn

Bodorgan
Bro Iarddur (Trearddur)
Bryn Du
Brynminceg
Brynrefail
Brynteg
Bwlch Gwyn
Capel Coch
Capel Mawr
Capel Parc
Carmel
Cerrigman
Cichle
Haulfre (Llangoed)
Elim
Glanyrafon
Glyn Garth
Gorsaf Gaerwen
Hebron
Hendre Hywel
Hermon
Llanddeusant
Llaneilian
Llanfaes
Llanfairynghornwy
Llangadwaladr
Llanrhyddlad
Llansadwrn
Llanynghenedl
Llynfaes
Marianglas
Mynydd Mechell
Nebo
Pen y Groes
Pen y Marian
Pengorffwysfa
Penlon
Penmon
Pentre Berw
Pentre Canol
Penygraigwen
Porth Llechog (Bull Bay)
Rhoscefnhir
Rhosmeirch
Rhostrehwfa
Bryn y Môr (Y Fali)
Rhydwyn
Star
Traeth Coch
Trefor
Tyn Lon (Glan yr Afon)
Tynygongl

### Gwynedd

Aberdesach
Aberllefenni
Aberpwll
Bethesda Bach
Bryncir
Bryncroes
Bwlchtocyn
Penrhos (Caeathro)
Caerhun/Waen Wen
Capel Uchaf
Capel y Graig
Ceidio
Corris Uchaf
Crawiau
Dinas (Llyn)
Dinorwig
Friog
Gallt y Foel
Glasinfryn
Groeslon Waunfawr
Llanaber
Llandderfel
Llanengan
Llanfor
Llangwnnadl
Llaniestyn
Llanllechid
Llannor
Llanwnda
Llwyn Hudol
Maes Tryfan
Minffordd
Minffordd (Bangor)
Mynydd Llandygai
Nebo
Pantglas
Pencaenewydd
Penmorfa
Penrhos
Pentir
Pentrefelin
Pistyll
Pontllyfni
Rhiw
Rhos Isaf
Rhoslan
Rhydyclafdy
Saron (Llanwnda)
Sling
Swan
Tai'n Lon
Talwaenydd
Talybont
Tan y Coed
Treborth
Ty'n y Lon
Waun (Penisarwaun)



## Disgrifiad o'r rôl

Dros oes y Cynllun ni fydd yna ddynodiad datblygu o fewn y Clystyrau a gaiff eu henwi uchod. Caiff unedau tai angen lleol fforddiadwy eu caniatáu ar leiniau mewnlenwi neu leiniau sy'n ymestyn y clwstwr mewn lleoliadau derbyniol a chynaliadwy

## (vi) Patrwm lledaenu sy'n gweddu

Fel arfer, bydd y lefelau uwch o dwf yn cael eu cyfeirio tuag at y Ganolfan Is-ranbarthol neu Ganolfannau Gwasanaeth Trefol sydd wedi'u dangos yn y diagram allweddol. Lle na fydd y Canolfannau hyn yn gallu darparu ar gyfer lefelau uwch disgwyliedig o dwf gall y diffyg cael ei ateb mewn Canolfan Wasanaeth Drefol, Canolfannau Gwasanaeth Leol neu Bentrefi Gwasanaethol sydd â chysylltiad cydnabyddedig a gweithredol gyda naill ai'r Ganolfan Is-ranbarthol neu'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol.

Cysondeb gyda pholisïau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO1, SO3, SO5 |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Lle bywiog i fyw gyda chymunedau bywiog; Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy |
| Cynllun Integredig Môn | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywydau; gwarchod a gwella'r amgylchedd |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Amgylchedd diogel a chynaliadwy |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Môn hamgylchedd naturiol | Pobl ym Môn yn mwynhau, gwarchod a gwella eu |

# DATBLYGIAD YNG NGHEFN GWLAD

## Cyflwyniad

7.37 Bydd gweddill ardal y Cynllun, yn cynnwys yr holl grwpiau o dai nad ydynt wedi'u rhestru uchod, yn cael ei dynodi'n Gefn Gwlad a bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i fathau penodol o ddatblygiad i gefnogi'r economi wledig, ateb angen lleol am dai fforddiadwy a darparu ynni adnewyddol.

# Polisi Strategol PS4 Datblygiad yng Nghefn Gwlad

**Mewn ardaloedd wedi'u dynodi'n Gefn Gwlad, yn amodol ar allu amgylcheddol, cymdeithasol ac o ran isadeiledd i ymdopi gyda newid, bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i beth sydd angen lleoliad gwledig ac sydd ar gyfer un neu fwy o'r rhai a ganlyn:**

1. amaethyddiaeth;
2. coedwigaeth;
3. cadwraeth Adeiladau Rhestredig;
4. ailddefnyddio ac addasu adeiladu at ddibenion priodol;
5. amddiffyn yr arfordir ac amddiffyn rhag llifogydd;
6. tai fforddiadwy yn unol gyda 'pholisi safleoedd eithriad gwledig' y CDLl ar y Cyd;
7. estyn adeiladau annedd a chodi rhai eraill yn eu lle;
8. estyniadau i fusnesau sy'n bodoli'n barod;
9. safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr;
10. cynigion adeiladu newydd sy'n creu cyflogaeth lle mae cyfiawnhad penodol yn amgylcheddol neu o ran gweithredu;
11. gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol sy'n ateb angen lleol wedi'i brofi;
12. datblygiad gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfleustodau cyhoeddus;
13. adloniant a thwristiaeth;
14. prosiectau ynni adnewyddadwy;
15. cludiant;
16. alldynnu mwynau;
17. cyfleusterau rheoli gwastraff a ddylid cael eu lleoli i ffwrdd oddi wrth ganolfannau poblogaeth er mwyn lleihau materion sy'n achosi poendod

Cysondeb gyda pholisïau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO3, SO5, SO7, SO8, SO18 |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy |
| Cynllun Integredig Môn | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd; Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Môn | Pobl ym Môn yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol |

# UCHAFU CYFLEON O DDATBLYGIADAU ECONOMAIDD

## ISADEILEDD A CHYFRANIADAU DATBLYGWYR

### Cefndir

- Mae datblygiad newydd yn aml angen isadeiledd sylweddol i'w gynnal
- O dan bolisi cenedlaethol, mae angen agwedd leol tuag at gyfraniadau datblygwyr
- Mae'n bwysig dangos yn eglur beth yw'r gofynion, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr
- Bydd rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gydbwyso'r angen am rai mathau o isadeiledd yn erbyn hyfywdra datblygiad

### Cyflwyniad

7.38 Mae rhwymedigaeth gynllunio (Cytundeb Adran 106) yn gytundeb gorfodol rhwng Awdurdod Cynllunio Lleol a datblygwr / perchen tir neu'n cynnig ymrwymiad penodol gan berchen tir. Fe all y fath rwymedigaeth ei gwneud yn orfodol i'r datblygwr / perchennog tir wneud gwaith penodol, neu ddarparu neu gyfrannu at ddarparu mesurau i liniaru effeithiau negyddol eu datblygiad. Mae Rheoliadau CIL 122 (2) yn dweud fel a ganlyn:

Gall rhwymedigaeth gynllunio fod yn rheswm dros roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad ddim ond os yw'r rhwymedigaeth yn: –

a angenrheidiol er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol o ran cynllunio;

b ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad; a hefyd,

c yn deg a rhesymol o ran graddfa a math mewn perthynas â'r datblygiad.

7.39 Fe ddaeth ardoll cynllunio newydd i rym ar 6 Ebrill 2010 trwy'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010. Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu



i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr godi arian oddi wrth ddatblygwyr i ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd yn eu hardal hwy. Bydd modd defnyddio'r arian i dalu am amrediad eang o isadeiledd mae angen amdano o ganlyniad i ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau cludiant, amddiffynfeydd rhag llifogydd, ysgolion, ysbytai a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, parciau, llecynnau gwyrdd a chanolfannau hamdden.

# Polisi Strategol PS5 Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr

**Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda phartneriaid i ddarparu isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol er mwyn gwella cynaliadwyedd eu cymunedau.**

Bydd y Cynghorau'n disgwyl i ddatblygiadau newydd sicrhau bod darpariaeth ddigonol o isadeiledd sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud y datblygiad yn dderbyniol trwy amod neu rwymedigaeth cynllunio. Fe ellir fod angen rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer taliadau cynnal er mwyn cwrdd â chostau dechreuol i redeg gwasanaethau a chyfleusterau ac i ddigolledu cymunedau am golled neu ddifrod achosir gan ddatblygiad

Lle nad ellir darparu'r isadeiledd angenrheidiol ar safle (mewn nwyddau "in kind"), gofynnir am gyfraniadau ariannol, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i gael y buddsoddiad angenrheidiol oddi ar y safle. Os yw effaith y datblygiad yn un cronnol fe ellir cronni'r cyfraniadau ariannol er mwyn lliniaru'r effaith cronnol.

Mae'r isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol ellir fod eu hangen fel a ganlyn, ond nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth:

### Isadeiledd ffisegol

- Rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy (gan gynnwys cludiant cyhoeddus, llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio)
- Meysydd parcio
- Llwybrau cyhoeddus a beicio
- Isadeiledd draenio
- Rheoli bygythiad llifogydd
- Rheoli gwastraff cynaliadwy
- Rheoli cynaliadwy o ddwr
- Rhwydwaith band eang a ffôn symudol
- Isadeiledd ynni carbon isel ac ynni adnewyddol

### Isadeiledd cymdeithasol

- Tai fforddiadwy, gan gynnwys angen lleol
- Llecynnau agored cyhoeddus, cyfleusterau hamdden a chwarae
- Darpariaeth addysgol (gan gynnwys hyfforddiant i ddysgu Cymraeg)
- Cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys lechyd, llyfrgelloedd, canolfannau crefydd)
- Mynwentydd
- Mentrau cyflogaeth a hyfforddiant lleol

### Isadeiledd gwyrdd/ glas

- Mesurau cadwraeth natur a lliniaru effeithiau, e.e. cynlluniau bioamrywiaeth
- Gwelliannau i'r rhwydwaith presennol o isadeiledd gwyrdd/ glas
- Gwelliannau amgylcheddol
- Cylch cyhoeddus ("public realm")

Mae'r Cynghorau'n ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Isadeiledd Cymunedol (CIL), gan roi sylw i effaith hynny ar hyfywdra datblygiad. Bydd y CIL yn destun proses a dogfennau ar wahân i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

#### Cysondeb gyda pholisïau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO5, SO9 |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy |
| Cynllun Integredig Mon | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon hamgylchedd naturiol | Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u |

# Cynigion am brosiectau isadeiledd mawr

## Cefndir

- Mae gan y Deyrnas Unedig darged sy'n ymrwymiad cyfreithiol i gael toriad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050, gyda tharged interim o leiaf o 34% yn is na'r lefelau blwyddyn sail erbyn 2020 (Deddf Newid Hinsawdd 2008)
- Mae'n nod allweddol o bolisi cenedlaethol i wella diogelwch ynni'r wlad
- Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn sefydlu'r angen am Brosiectau Isadeiledd penodol o Bwysigrwydd Cenedlaethol
- Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dewis safle ger yr Wylfa ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd
- Mae'r Fferm Wynt Rhiannon arfaethedig wedi'i lleoli 19 km o Fôn
- Fe allai'r prosiectau isadeiledd hyn o bwysigrwydd cenedlaethol rydym yn gwybod amdanynt fod ag oblygiadau isadeiledd mawr ar gyfer ardal y Cynllun, ar ffurf llinellau trawsgludo trydan newydd a datblygiad cysylltiedig

## Cyflwyniad

7.40 Mae Prosiectau Isadeiledd Mawr yn brosiectau o bwysigrwydd cenedlaethol fel cefnffyrdd newydd, meysydd awyr, porthladdoedd, gorsafoedd pŵer (yn cynnwys niwclear), llinellau trawsgludo trydan, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd cemegau.

7.41 Ar gyfer y CDLl ar y Cyd, mae Prosiectau Isadeiledd Mawr yn cynnwys y rhai wedi'u diffinio fel Prosiectau Mawr o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn Neddf Cynllunio 2008. Lle mae datblygiad cysylltiedig neu ategol yn ymwneud gydag adeiladu neu weithredu Prosiect, bydd y cynigion hyn hefyd yn dod o dan Bolisïau Strategol PS6 a PS7, yn ogystal â pholisïau perthnasol eraill yn y CDLl ar y Cyd.

7.42 Bydd ceisiadau am Orchmynion Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiectau'n cael eu harchwilio gan yr Arolygiaeth Cynllunio, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y penderfyniad terfynol i roi neu wrthod caniatâd. Awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill fyddai'n penderfynu ar ddatblygiad cysylltiedig neu berthnasol nad ydynt yn y prif gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, a bydd polisi cenedlaethol yn ystyriaeth berthnasol fel sy'n briodol.

7.43 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n edrych ar geisiadau am ddatblygiad Prosiect newydd, gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen cenedlaethol, buddion ac ardrawiad, fel sydd i'w gweld mewn polisi perthnasol. Ar gyfer isadeiledd ynni, bydd hyn yn cynnwys y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Isadeiledd Ynni (EN-1- 6), 4 ac, yn unol gyda'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, gall yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd ystyried materion eraill sy'n bwysig a pherthnasol i'w benderfyniadau, yn cynnwys y cynllun datblygu defnydd tir presennol (hyd nes bydd y CDLl ar y Cyd yn ddigon pwysig fel ystyriaeth gynllunio berthnasol neu fod y CDLl ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu), y Rhaglen Ynys Ynni, Cynlluniau Rheoli Cyrchfan, Cynlluniau Sengl Integredig, a dogfennau perthnasol eraill sy'n gallu bod yn ystyriaethau perthnasol. Ar gyfer cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, rôl ddewisol ar y cyfan fydd gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf, ond fe fyddant yn cael eu gwahodd i asesu pa mor ddigonol yw'r ymgynghori a'r effeithiau lleol ac adrodd ar y rhain wrth yr Arolygiaeth Gynllunio mewn Adroddiad Ardrawiad Lleol. Yn yr un modd, bydd yn bosibl i geisiadau gael eu gwneud i gyrff eraill, fel cais i'r Sefydliad Rheoli Morol i adeiladu glanfa, lle mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn un statudol i ymgynghori â hwy. Yng Nghymru, yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r awdurdodau penderfynu ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn gysylltiedig gyda'r cais Gorchymyn Rheoli Datblygiad, er enghraifft llefydd byw i weithwyr adeiladu.

7.44 Mae'r rhan hon o'r Ddogfen Hoff Strategaeth yn delio gyda Phrosiectau Isadeiledd Mawr le mai naill ai Gyngor Sir Ynys Môn neu Gyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynllunio sy'n penderfynu, a datblygiadau Prosiectau Cenedlaethol (fel Adeiladu Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd yr Wylfa lle mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu) yn ogystal â cheisiadau i asiantaethau eraill (fel i'r Sefydliad Rheoli Morol ar gyfer glanfa) lle mae'r Cyngor yn ymgynghorai statudol.

7.45 Boed yn eu rôl fel y rhai sy'n penderfynu, neu i ymgynghori â hwy ar gyfer ceisiadau i gyrff eraill, bydd y Cynghorau'n ceisio cyflawni'n ddiogel eu blaenoriaethau statudol fel sydd i'w gweld yn eu Cynlluniau Integredig Sengl ac yn y CDLl ar y Cyd.

7.46 Ar hyn o bryd, mae tri Prosiect Cenedlaethol arfaethedig yn y cyfnod cyn ymgeisio, gyda'r tri naill ai tu mewn i ardal y Cynllun neu'n debygol o effeithio arni o fewn cyfnod y Cynllun:

1) Adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ger yr Wylfa, bwriad gan Horizon Nuclear Power, fel sydd i'w weld yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer



Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6);

2) Fferm Wynt Rhiannon – fferm wynt allan yn y môr wedi'i chynnig gan Centrica Energy

3) Gwelliannau / gwaith newydd gyda Llinellau Trawsgludo'r Grid Cenedlaethol yn cysylltu'r orsaf niwclear newydd arfaethedig yn yr Wylfa a'r Fferm Wynt Rhiannon arfaethedig gydag Is-orsaf Pentir a thu hwnt, wedi'u cynnig gan y Grid Cenedlaethol;

7.47 Mae'n bosibl y daw cynlluniau Prosiectau Cenedlaethol/ Mawr eraill ymlaen yn ystod oes y CDLl ar y Cyd, yn cynnwys gwelliannau i linellau trawsgludo'r National Grid yn cysylltu gyda fferm wynt bosibl yn Iwerddon.

7.48 Mae'n bwysig bod y CDLl ar y Cyd yn gosod allan fframwaith polisi er mwyn i'r Cynghorau allu roi sylw i ac ymateb i gynigion MIP sy'n dod ymlaen, yn cynnwys er enghraifft:

- Darparu cyngor a gwybodaeth i hysbysu hyrwyddwyr prosiectau yn ystod datblygiad eu cynigion ar gyfer ymgynghori a datblygu prosiectau;
- ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol yn ystod datblygiad prosiectau ac ar geisiadau i gyrff eraill sy'n penderfynu, fel yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Sefydliad Rheoli Morol;
- awgrymu gofynion priodol i'w cynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac ymrwymiadau (fel Adran 106 ac Ardoll Isadeiledd Cymunedol);
- penderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiad cysylltiedig, ategol neu berthnasol tu allan i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu; hefyd
- asesu pa mor ddigonol yw'r ymgynghori; hefyd
- asesu ardrawiadau'r prosiect, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn yr Adroddiad Ardrawiad Lleol y bydd yr Arolygiaeth Cynllunio'n gwahodd y Cyngor/ Cynghorau i'w gyflwyno ar ôl i unrhyw gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu gael ei gyflwyno; hefyd
- gwneud sylwadau fel rhan o drefn ffurfiol yr Arolygiaeth Gynllunio i archwilio'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu, hefyd
- wrth benderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth yn dilyn y caniatâd (yn cynnwys 'amodau' cynllunio), ac wrth gyflawni swyddogaethau fel yr awdurdod gorfodi.

7.49 Gall graddfa ac ardrawiad Prosiect olygu bod angen pecyn priodol a chynhwysfawr o gyfraniadau oddi wrth ddatblygwr er mwyn lliniaru a digolledu am unrhyw lefelau newydd neu fwy o niwed. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu negodi fel rhan o'r broses gynllunio, yn cynnwys trwy gytundebau Adran 106 a'r Ardoll Isadeiledd Cymunedol pan fydd yn cael ei weithredu.

7.50 Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol gan y Cynghorau i'r datblygwr ddarparu pecynnau o fuddiannau cymunedol er mwyn cael eu gosod yn erbyn a digolledu'r gymuned am y baich o fod yn lleoliad i'r prosiect. Bydd unrhyw gronfa o'r fath yn cael ei defnyddio i'w rhoi yn erbyn y baich ar yr ardal, ac yn enwi ffyrdd etifeddiaeth posibl o'i ddefnyddio, yn cynnwys isadeiledd cludiant, cymdeithasol, economaidd a chymunedol fyddai o fudd i'r gymuned yn y tymor hir.

7.51 Gallai fod modd ceisio cael budd cymunedol trwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol, y Deddfau Cynllunio, neu ddeddfwriaeth arall, neu fel dewis arall trwy gytundeb gwirfoddol gyda darparwr y prosiect, neu yn unol gyda phrotocol y diwydiant.

7.52 Taliadau ariannol yw'r Taliadau Budd Cymunedol gan ddatblygwr er budd cymunedau sy'n lletya'r datblygiad. Mae Taliadau Budd Cymunedol yn wahanol ac yn hollol ar wahân i'r broses gynllunio. Nid ydynt yn ystyriaethau o bwys y gellir eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd neu ymateb yn gadarnhaol neu fel arall i gais i ymgynghori. Ni fwriadwyd i unrhyw daliad a wneir wneud iawn am effeithiau uniongyrchol y datblygiad ac ni ellir dweud eu bod yn rhywbeth sydd ei angen i wneud datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio.

7.53 Mae Polisi Strategol PS6 yn bolisi trosfwol yn ymwneud â phob MIP, boed hwy'n cael eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd neu unrhyw asiantaeth arall. Mae Polisi Strategol PS7 yn gymwys ar gyfer yr orsaf bŵer niwclear newydd, yn cynnwys unrhyw ddatblygiad yn gysylltiedig gyda hi.

# Polisi Strategol PS6 Cynigion am brosiectau isadeiledd mawr

**Yn ei rôl fel yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd i ddatblygiad cysylltiol neu fel rhywun sy'n cael ei ymgynghori am geisiadau i gyrff eraill, o fewn cyd-destun datganiadau polisi cenedlaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd y Cynghorau'n anelu i sicrhau y bydd datblygiad yn gwneud cyfraniad positif i wireddu'r weledigaeth, amcanion strategol a strategaeth datblygu a welir yn rhan 6 a strategaeth ddatblygu'r Cynllun. Rhoddir ystyriaeth i natur, graddfa, ystod ac ardrawiad posib unrhyw ddatblygiad wrth wneud hynny.**

Bydd y Cynghorau felly'n amcanu i sicrhau cydymffurfiaeth, fel mae'n briodol neu berthnasol, gyda'r canlynol:

1. Bydd y datblygiad a'i isadeiledd cysylltiol/ ategol, gan gynnwys unrhyw gynigion am lety, gyfleusterau addysg a hyfforddiant, cyflogaeth, cadwynau cyflenwi, ac isadeiledd cludiant, cymunedol, amgylcheddol a gwyrdd yn cyfrannu at gydbwysedd o allbynnau positif i gymunedau lleol a'r amgylchedd; a

2. Bod asesiad o sut ddaru ystyriaeth o ddewisiadau amgen ddylanwadu ar y cynigion yn cael ei gyflwyno; a

3. Bod asesiad cynhwysfawr o ardrawiadau amgylcheddol (tirwedd, adeiledig, hanesyddol a naturiol), cymdeithasol (gan gynnwys iechyd a mwynderau), ieithyddol a diwylliannol, cludiant ac economaidd (positif, negyddol a chronnol) o'r cynnig yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredol a'r cyfnodau dadgomisiynu ac adferiad (os yw hynny'n berthnasol) yn cael ei ddarparu, yn ogystal â mesurau cyflawni lle mae'n briodol i osgoi, lleihau, lleddfu a/neu ddigolledu'r niwed a achosir; a

4. Darparu cyfraniadau i'r Cyngor neu gorff arall priodol a chytunedig er mwyn gwneud iawn am unrhyw effeithiau anffafriol a niwed wedi'u hachosi gan y prosiect trwy ymgysylltu'n effeithiol gyda chymunedau lleol a'r Cyngor yn yr adeg cyn cyflwyno'r cais. Yr amcan fydd canfod mesurau, prosiectau a gwasanaethau i wella lles a chynaladwyedd tymor hir y cymunedau mae'n effeithio arnynt; a hefyd

5. I gydnabod unrhyw faich a tharfu sy'n digwydd i'r gymuned wrth fod yn lleoliad i unrhyw brosiect isadeiledd cenedlaethol neu ranbarthol mawr, gall fod yn ofynnol gan y Cyngor i'r datblygwr ddarparu pecynnau priodol o fuddiannau cymunedol er mwyn gwneud iawn am a digolledu'r gymuned am y baich sy'n dod gyda bod yn lleoliad i'r prosiect; a hefyd

6. Cael cymaint ag y bo modd o fudd economaidd a chymunedol lle bo hynny'n ymarferol, trwy gytuno gyda'r Cyngor yn gynnar yn ystod camau datblygu'r prosiect ar strategaethau ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio; a hefyd

7. Ateb gofynion darpariaethau deddfwriaethol Rheoliadau Cynefinoedd 2012; a hefyd

8. Darparu mesurau i amddiffyn rhag llifogydd i reoli risg llifogydd, a lle bo'n ymarferol, cael gwelliannau yn yr ardal honno. Darparu asesiad o'r ardrawiadau sy'n cael eu rhagweld oddi wrth y cynnig ar yr amgylchedd morol a thir o gwmpas a darparu mesurau i reoli a lleihau unrhyw niwed sy'n cael ei achosi.

Er mwyn cael digon o wybodaeth i fedru asesu effeithiau'r cynigion, gall y Cyngor ofyn am baratoi cynlluniau rheoli neu gynlluniau cyflawni, sy'n dangos y mesurau ar gyfer cael cymaint o fudd ag y bo modd ac i leddfu a/neu ddigolledu am ardrawiadau lle mae cyfiawnhad dros hyn mewn polisi cenedlaethol neu leol. Dylai'r cynlluniau hyn ddangos yr amserlenni ar gyfer darparu a'r systemau ac adnoddau fydd yn cael eu defnyddio i weithredu'r mesurau arfaethedig.

## Cysondeb gyda pholisïau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO3, SO7, SO8, SO9, SO26 |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy |
| Cynllun Integredig Mon | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd; Uchafu cyfleon gwaith gydag addysg a sgiliau o ansawdd dda |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mon gydag economi wledig ffyniannus a llewyrchus; Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol |



# DATBLYGIAD YN YMWNEUD Â NIWCLEAR YN YR WYLFA

## Cefndir

- Mae gan y Deyrnas Unedig darged sy'n ymrwymiad cyfreithiol i gael toriad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050, gyda tharged interim o leiaf o 34% yn is na'r lefelau blwyddyn sail erbyn 2020 (Deddf Newid Hinsawdd 2008)
- Mae'n nod allweddol o bolisi cenedlaethol i wella diogelwch ynni'r wlad
- Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dewis safle ger yr Wylfa ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd
- Bydd gan y prosiect hwn, sy'n brosiect isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol, oblygiadau mawr o ran isadeiledd i Fôn yn ogystal ag oblygiadau gyda darparu ar gyfer datblygiad arall yn gysylltiedig gyda phrosiect mor fawr.

## Cyflwyniad

7.54 Mae gan bŵer niwclear ran bwysig i'w chwarae mewn cyrraedd targedau'r Deyrnas Unedig ar gyfer allyrru nwyon tŷ gwydr, ac mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi enwi safle ger yr Wylfa ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae adeiladu gorsaf bŵer niwclear yn cael ei ddosbarthu fel Prosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol. Bydd datblygiadau Prosiectau Cenedlaethol yn cael eu penderfynu gan yr Uned Gynllunio Isadeiledd Mawr, sy'n adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn wahanol i'r sefyllfa yn Loegr, yr awdurdod cynllunio lleol fydd yn penderfynu ar ddatblygiad yn gysylltiedig gydag adeiladu niwclear newydd e.e. llefydd byw i weithwyr adeiladu, canolfan logisteg, cyfleuster parcio a theithio. Er nad Cyngor Sir Ynys Môn yw'r awdurdod i roi caniatâd ar gyfer y Prosiect Cenedlaethol, fe fydd yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn ystyried Polisïau Strategol ac egwyddorion Dogfen Hoff Strategaeth y CDLl ar y Cyd, yn cynnwys y Polisi Strategol a ganlyn.

# Polisi Strategol PS7 Datblygiad yn ymwneud â niwclear yn yr Wylfa

**Yn ei rôl naill ai fel yr awdurdod penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig, neu fel un i ymgynghori ag ef ar gyfer ceisiadau i gyrff eraill, ac o fewn darpariaethau polisi cenedlaethol, bydd y Cyngor, wrth asesu ac ymateb i gynigion sy'n dod yn amlwg ar gyfer datblygiad yn ymwneud â niwclear, yn cynnwys beth sy'n gysylltiedig gyda neu'n ategol at yr orsaf bŵer niwclear presennol neu Orsaf Bŵer Niwclear Adeiladu Newydd yr Wylfa, yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n briodol neu'n berthnasol, gyda'r pwyntiau a ganlyn:**

1. Dylai unrhyw bolisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac unrhyw ganllawiau cynllunio, fod yn siapio'r agwedd tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer datblygiad yn ymwneud â niwclear ac unrhyw ddatblygiad neu isadeiledd cysylltiedig; a hefyd

2. Er mwyn cael cyn lleied o ardrawiad ag y bo modd a chymaint ag y bo modd o ailddefnyddio'r cyfleusterau a deunyddiau sy'n bodoli'n barod, bod cyfleoedd wedi cael eu cymryd lle bo'n ymarferol i integreiddio gofynion adeiladu niwclear newydd yn yr Wylfa gyda'r bwriad i ddadgomisiynu'r orsaf bŵer bresennol; a hefyd

3. Bydd cynigion priffyrdd a chludiant ar gyfer adeiladu niwclear newydd yn yr Wylfa'n rhan o gynllun cludiant a logisteg gadarn sy'n ystyried Polisi Strategol PS22 ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol o ran cludiant i lefel sy'n dderbyniol, yn cynnwys y rhai'n codi yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu ac adfer. Dylai cynigion, lle bo'n ymarferol, wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion polisi cludiant yn yr ardal, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio; a hefyd

4. Dylai gofynion gweithwyr adeiladu gael eu hateb mewn ffordd sy'n lleihau gymaint ag y bo modd yr effaith ar y farchnad dai lleol i lawr i lefel sy'n dderbyniol, yn cynnwys gallu rhai ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy neu wasanaethau tai eraill, neu na fydd yn arwain at effeithiau economaidd, cymdeithasol ieithyddol neu amgylcheddol niweidiol; a hefyd

5. Dylid ystyried ffurfiau etifeddiaeth o ddefnyddio, a'r ystyriaeth honno ddarparu gwybodaeth ar gyfer lleoliad a dyluniad datblygiad cysylltiedig, fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir. Lle bo'n briodol, dylai cynlluniau darparu ar gyfer ffyrdd etifeddiaeth o ddefnyddio cael eu cytuno yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, a'r cynlluniau hynny ddarparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd o weithredu tuag at ddyluniad a chynllun y safleoedd datblygu cysylltiedig, yn ogystal â fframio cytundeb Adran 106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau Ardoll Isadeiledd Cymunedol (os yn gymwys); a hefyd

6. Dylai sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio a'i ddyluniad a graddfa'r isadeiledd gwyrdd arfaethedig osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am ardrawiadau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach, yn ogystal ag ar agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hirach. Bydd disgwyl i gynigion fod yn gymesur gyda graddfa'r datblygiad, a maint ei ardrawiad; a hefyd

7. Ateb gofynion darpariaethau deddfwriaethol Rheoliadau Cynefinoedd 2012; a hefyd

8. Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu strategaethau a chynlluniau darparu ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach; a hefyd

9. Lle bydd isadeiledd cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu, er enghraifft cyfleusterau parcio a theithio, siopau, gofal iechyd a chwaraeon a hamdden, lle bo'n ymarferol dylai'r rheiny gael eu lleoli a'u dylunio fel eu bod ar gael i'r gymuned eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu ac, ymhen amser, lle bo'n briodol, i wasanaethau defnydd etifeddiaeth. Lle bydd ardrawiadau neu alwadau ychwanegol yn digwydd ar gyfleusterau sy'n bodoli'n barod, bydd y Cyngor yn ceisio cael cyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle; a hefyd

10. Dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniad cymunedol a diogelwch cymunedol; a hefyd

11. Dylai'r baich a'r tarfu at y gymuned oherwydd ei bod yn lleoliad i brosiect mawr cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud gyda'r diwydiant niwclear gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr i wirfoddoli i ddarparu pecynnau priodol o fuddion i'r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu'r gymuned am y baich a'r tarfu sy'n digwydd trwy fod yn lleoliad i'r prosiect.

12. Byddai angen i unrhyw gynnig (tu allan i Orchymyn Caniatâd Datblygu) ar gyfer trin, storio neu gael gwared â Gwastraff Lefel Isel Iawn, Lefel Isel neu Lefel Canolig neu i drin neu storio gweddillion tanwydd sy'n deillio o'r orsaf bŵer niwclear bresennol neu unrhyw ddatblygiad niwclear yn y dyfodol neu o rywle arall tu mewn i neu du allan i ardal y Cyngor, mewn cyfleuster sy'n bodoli'n barod neu yn yr arfaeth ar neu du allan i'r safle niwclear fod:

a. Gyda chyfiawnhad cryf drosto

b. Yn dangos bod yr ardrawiadau cynllunio'n dderbyniol; a hefyd

c. Ddangos y byddai'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gryfach nag unrhyw effeithiau negyddol.

Mae'n bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld oddi wrth adeiladu a gweithredu adeiladu niwclear newydd yr Wylfa, y bydd y Cyngor angen gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y datblygwr, neu i waith gael ei wneud ganddo a gall, o ganlyniad i hynny, fod eisiau ail negodi unrhyw becyn lleddfu neu ddigolledu er mwyn gwneud iawn am unrhyw ardrawiadau neu feichiau ychwanegol ar y gymuned mae hynny'n effeithio arni. Dylai'r datblygwr gynnwys peirianweithiau adolygu er mwyn monitro'r amrediad llawn o ardrawiadau, ac adolygu pa mor ddigonol yw mesurau lleddfu neu ddigolledu, a gwneud newidiadau fel bydd angen.

### Cysondeb gyda pholisïau a strategaethau eraill

| Amcanion strategol | SO3, SO7, SO8, SO9, SO26 |
|---|---|
| Cynllun Integredig Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy |
| Cynllun Integredig Mon | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd; Uchafu cyfleon gwaith gydag addysg a sgiliau o ansawdd dda |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mon gydag economi wledig ffyniannus a llewyrchus; Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol |

# DARPARU CYFLEON AR GYFER ECONOMI FFYNIANNUS

## Cefndir

• Mae datblygu economaidd yn rhan gynhaliol bwysig o ddatblygu cynaliadwy

• O dan bolisi cenedlaethol, mae'n ofynnol gweithredu mewn ffordd sy'n hwyluso a hyrwyddo datblygu tir cyflogaeth trwy wneud yn sicr fod digon ar gael, o ran swm ac ansawdd

• Pwrpas y Strategaethau Cymunedol Integredig yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Môn a Gwynedd.

• Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd trwy eu Cynlluniau Busnes, gan gymryd i ystyriaeth yr adegau economaidd anodd, yn ceisio yn y tymor hir i drawsnewid ardal y Cynllun i fod yn un fentrus a hyfyw yn economaidd ac yn gymdeithasol, gyda phobl o bob oed yn gallu cymryd y cyfleoedd newydd ac yn dewis aros yn yr ardal i fyw a gweithio

• Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn yn gosod fframwaith ar gyfer manteisio ar botensial bwriedig y sector ynni carbon isel, o ran buddsoddiad a thwf. Mae'n cael ei ragweld y bydd yn dod yn ffactor sy'n gyrru'r economi ymlaen ar gyfer Môn, Gogledd Cymru a Chymru.

• Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Ynys yn Barth Menter i ganolbwyntio ar y sector ynni. Mae safle'r gyn orsaf bŵer niwclear yn Nhrawsfynydd (sydd du allan i ardal y CDLl ar y Cyd) yng Ngwynedd wedi cael ei ddynodi fel canolfan ar gyfer Parth Menter Eryri, i ganolbwyntio ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a mentrau digidol, gan gynhyrchu ynni carbon isel a chwmnïau technoleg sy'n defnyddio syniadau newydd.

## Cyflwyniad

7.55 Mae'n amcan gan y CDLl ar y Cyd i hwyluso strategaethau'r ddau Gyngor i dyfu ac amrywio economi ardal y Cynllun.

7.56 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi lansio Rhaglen Ynys Ynni Môn sy'n brosiect cydweithio rhwng nifer o randdeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat (yn cynnwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru) i roi Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygiad, cynhyrchu a gwasanaethu ynni, a fydd yn fodd o ddylanwadu ar brosiectau isadeiledd mawr sydd i gael eu lleoli yn ardal y Cynllun neu ar y cyrion. Mae hyn yn cynnwys datblygu sgiliau preswylwyr lleol fel eu bod yn gallu manteisio ar y swyddi sydd ar gael o ganlyniad i'r prosiectau mawr hyn, sydd yn eu tro'n debygol o fod yn ddeniadol i fusnesau newydd i leoli eu hunain yn yr ardal, gan gynnig swyddi o ansawdd uchel. Mae'n nod penodol i fod yn manteisio ar y buddsoddiad o £8 billion mewn cyfleuster niwclear newydd yn yr Wylfa, gan fod yn ganolbwynt i gynlluniau buddsoddi partneriaid sector cyhoeddus a phreifat, wrth drawsnewid ac amrywio economi'r ardal.

7.57 Yn yr un modd, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn ceisio canolbwyntio ar sectorau a gweithgareddau lle mae gan yr ardal fanteision cystadleuol, fydd yn dod â'r buddion economaidd mwyaf ac yn cynnig y potensial mwyaf o ran amrywiaeth. Bydd hyn yn golygu cyfuno cryfderau yng nghapasiti ymchwil yr ardal, ei phobl (a'u sgiliau) ac adnoddau naturiol toreithiog yr ardal. Mae'r sectorau penodol sy'n darparu cyfle i'r ardal yn cynnwys:

Adeiladu; Amgylcheddol – cynhyrchion a gwasanaethau sector Gwyrdd; Amaethyddiaeth – cynnyrch a chynhyrchion bwyd; Diwydiannau Creadigol – Cyfryngau a'r Celfyddydau; Gofal; Sectorau Technoleg Uchel a Digidol; Gwasanaethau a Masnach e.e. Manwerthu; Ynni Niwclear – Cynhyrchu, Gwasanaethau a Pheirianneg; Twristiaeth; Ynni Amgen Adnewyddol - Cynhyrchu, Gwasanaethau a Pheirianneg.

7.58 Mae'n nod allweddol gan Gyngor Gwynedd i geisio sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu taenu ar draws yr ardal. Yn ogystal, mae gan yr economi wledig rôl bwysig yn yr ardal o ran y sector amaethyddol, twristiaeth a busnesau bychan gwledig.

7.59 Roedd Adolygiad Tir Cyflogaeth 2011 yn gweld bod mwy na digon o dir cyflogaeth sy'n bodoli'n barod ac yn annhebyg o ateb anghenion busnes modern. Yn ôl amcangyfrif yr Adolygiad, bydd angen 6ha bob blwyddyn o dir parc busnes neu barc diwydiannol yn ystod cyfnod y Cynllun ym mhob ardal Awdurdod Cynllunio. Mae hynny wedi'i seilio ar gyfuniad o ddangosyddion o ofynion i'r dyfodol ar gyfer gwahanol sectorau o gyflogaeth ac yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd a dewis yn y farchnad, yn ogystal â chyflawni'r dyheadau i'r dyfodol gyda Rhaglen Ynys Ynni Môn a blaenoriaethau'r Cynghorau. Mae'r Adolygiad wedi sefydlu Goeden o safleoedd cyflogaeth y gallent ateb anghenion busnes modern, gyda gobeithion o gael eu datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun, a dylent gael eu diogelu rhag eu hailddatblygu at ddibenion eraill. Mae angen dyrannu safleoedd newydd at ddefnydd cyflogaeth (B1, B2 neu B8) yn neu ger Pwllheli a Phorthmadog er mwyn ateb yr anghydbwysedd presennol yn nhaeniad daearyddol tir cyflogaeth yng Ngwynedd.

# Polisi Strategol PS8 Darparu cyfle ar gyfer economi ffyniannus

**Wrth anelu i amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig, bydd y Cynghorau'r hwyluso twf economaidd trwy:**

1. alluogi entrepreneuriaeth ym mhob rhan o ardal y Cynllun, fydd yn ei dro'n cynorthwyo cynaliadwyedd cymunedau ac yn lleihau'r angen i deithio;

2. diogelu 168 ha o dir at ddibenion cyflogaeth a busnes fyddai angen neu'n cael budd oddi wrth fod mewn lleoliad parc busnes neu ddiwydiannol mewn perthynas â B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis ar safleoedd wedi'u cynnwys yn y Goeden tir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun;

3. dyrannu cyfanswm o 5 ha o dir at ddibenion cyflogaeth a busnes fyddai angen neu'n cael budd oddi wrth leoliad o fath parc busnes neu barc diwydiannol mewn perthynas â defnydd B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis ar safleoedd yn neu ger Canolfannau Gwasanaethau Trefol Pwllheli a Phorthmadog

4. darparu safleoedd sy'n cefnogi adeiladu isadeiledd cynhyrchu ynni ychwanegol ac isadeiledd arall, e.e. darparwyr cadwyn cyflenwi, datblygiad cysylltiol oddi ar y safle, mewn lleoliadau sy'n gyson a'r strategaeth anheddu (wedi'i osod allan ym Mholisi Strategol PS3), a gaiff eu dewis i leihau ardrawiadau annymunol (yn unol â Pholisiau Strategol PS1 a PS2), ac y gellir, lle bynnag sy'n bosib, i ddarparu etifeddiaeth fuddiol i ardal y Cynllun;

5. cefnogi ffyniant economaidd a chynaladwyedd cymunedau gwledig trwy hwyluso twf ar raddfa briodol mewn mentrau gwledig, estyn busnesau sy'n bodoli'n barod, ac arallgyfeirio trwy gefnogi ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli'n barod, datblygiad unedau 'live work', gweithio o'r cartref, a thrwy annog darparu safleoedd a thir ac adeiladau mewn lleoliadau hygyrch priodol tu mewn i'r strategaeth anheddiad (Polisïau Strategol PS3 a PS4) ac yn unol â Pholisiau Strategol PS1 a PS2;

6. cefnogi gwasanaethau sector gwasanaeth wedi'u seilio ar ymwelwyr a'r diwydiant twristiaeth yn lleol fel sydd wedi'i ddangos ym Mholisi PS9

7. cefnogi gwella sgiliau'r gweithlu trwy weithio gydag asiantaethau addysg a sgiliau lleol, a chyrff busnes lleol i ddarparu cyfleusterau hyfforddi cyfoes, yn ac o gwmpas Bangor a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol, lle mae mynediad da at y rhwydwaith ffyrdd strategol lle gellir defnyddio gymaint ag a bo modd ar gludiant cyhoeddus i sicrhau bod

trigolion yn ennill y sgiliau maen nhw eu hangen;

8. gwella cyfathrebu o fewn ardal y Cynllun yn ogystal ag yn genedlaethol a rhyngwladol, o ran isadeiledd cludiant a chysylltiadau ffôn symudol a band eang;

9. gwella beth sydd ar gael a chapasiti isadeiledd ffisegol sylfaenol arall yn ardal y Cynllun;

10. negodi cytundebau llafur lleol gyda datblygwyr yn ymwneud yn benodol gyda datblygiad yn unol gyda Pholisi Strategol PS5 fel bod pobl leol yn gallu cael cyflogaeth a datblygu eu sgiliau, gan dargedu prif ardaloedd neu gymunedau fel sy'n briodol.

Cysondeb gyda pholisïau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO3, SO7, SO8, SO10, SO11 |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag economi lewyrchus; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus |
| Cynllun Integredig Mon | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd; Uchafu cyfleon gwaith gydag addysg a sgiliau o ansawdd dda |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Bydd yna gyfleon teg i bawb fod yn rhan o fyd gwaith |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mon gydag economi wledig ffyniannus a llewyrchus; Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol |

# YR ECONOMI YMWELWYR

## Cefndir

• Mae twristiaeth wedi bod yn bwysig erioed yn ardal y Cynllun. Mae'n cefnogi llawer o swyddi a busnesau yn yr ardal yn barod.

• Mae twristiaeth gwyliau wedi cynyddu wrth i rai pobl ddewis cymryd eu gwyliau gartref.

• Mae strategaeth twristiaeth Cymru 'Cyflawni ein Potensial' yn canolbwyntio ar yr angen i gael 'brand' arbennig, ansawdd uwch, mynediad hawddach, sgiliau gwell a phartneriaeth gryfach

• Mae Strategaeth Twristiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru'n pwysleisio'r angen i hyrwyddo cryfderau arbennig, buddsoddi mewn rhagoriaeth cynnyrch, darparu profiad arbennig iawn i ymwelwyr a gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid lleol.

• Mae Cynlluniau Busnes y ddau Gyngor hefyd yn enwi twristiaeth fel blaenoriaeth allweddol.

## Cyflwyniad

7.60 Mae twristiaeth yn ffynhonnell incwm pwysig i nifer o drefi a chymunedau gwledig ar ffurf gwariant gan ymwelwyr ar lety, bwyd, diod, gweithgareddau hamdden a siopa, a hefyd i gadwyni cyflenwi busnes a chyfanwerthwyr lleol. Fe fydd twristiaeth yn dod â £233 miliwn i mewn i economi leol Môn ac £851 miliwn i Wynedd (yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri) bob blwyddyn ac yn cynnal dros 4,000 o swyddi lleol ym Môn a 15,819 yng Ngwynedd.

7.61 Mae ased twristiaeth fwyaf ardal y Cynllun yn ei amgylchedd naturiol a hanesyddol. Fodd bynnag, yn ogystal â bod yn asedau twristiaeth fwyaf gwerthfawr ardal y Cynllun, mae'r cefn gwlad ac arfordir, sydd heb gael eu difetha, a'r nodweddion hanesyddol hefyd yn adnoddau mwyaf sensitif yr ardal. Mae llawer o ardal y Cynllun wedi'i diogelu gan ddynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae rhannau o ardal y Cynllun hefyd yn gefndir i Barc Cenedlaethol Eryri.

7.62 Fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu ei Gynllun Rheoli Cyrchfan yn ddiweddar, tra bo Cyngor Gwynedd yn gweithio ar lunio un. Yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan, bydd nod, amcanion a gweledigaeth ar gyfer ardal yr Awdurdod, gan dynnu ar y strategaeth dwristiaeth ranbarthol bresennol. O dan bob amcan, bydd prosiectau allweddol yn cael eu henwi ar gyfer y Cynllun Darparu. Bydd y Cynllun Darparu wedyn yn rhoi mwy o fanylion ar bob un o'r prosiectau sydd wedi cael eu henwi. Ar adeg ysgrifennu'r fersiwn hwn o'r Ddogfen Hoff Strategaeth, mae modd gweld Cynllun Rheoli Cyrchfan Môn ar www.ynysmon.gov.uk/

# Polisi Strategol PS9 Yr Economi Ymwelwyr

**Wrth sicrhau perthynas dda gyda'r economi leol a chymunedau a sicrhau diogelu'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol, yn enwedig ardaloedd wedi'u cynnwys mewn dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygu diwydiant twristiaeth sy'n parhau gydol y flwyddyn trwy:**

1. ganolbwyntio datblygiad twristiaeth, diwylliannol a hamdden sydd ar raddfa fwyfwy yn weithredol ac yn gynaliadwy yn y ganolfan is-ranbarthol, canolfannau gwasanaeth trefol, a lle bo'n briodol, canolfannau gwasanaeth gwledig;

2. cadw a gwella'r llety gyda gwasanaeth sy'n bodoli'n barod a chefnogi darparu llety gyda gwasanaeth newydd o ansawdd uchel yn y ganolfan is-ranbarthol, canolfannau trefol a chanolfannau gwasanaeth gwledig a phentrefi;

3. rheoli'r ddarpariaeth o lety twristiaeth o ansawdd uchel ar ffurf parciau gwersylla, carafán statig neu deithiol a chabanau gwyliau i ddigwydd yn lle mae'r lleoliad yn gallu cefnogi niferoedd ychwanegol o ymwelwyr;

4. cefnogi darpariaeth a mentrau twristiaeth newydd ar raddfa briodol mewn lleoliadau cynaliadwy yng nghefn gwlad trwy ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli'n barod lle bo'n briodol, neu fel rhan o arallgyfeirio ffermydd, yn enwedig lle byddai'r rhain o fudd hefyd i gymunedau lleol ac yn cefnogi'r economi leol a lle maen nhw'n unol gydag amcanion datblygiad cynaliadwy;

5. atal datblygiad fyddai'n cael ardrawiad niweidiol annerbyniol ar nodweddion a mannau o ddiddordeb ar gyfer twristiaeth neu eu lleoliad cefndir.

Cysondeb gyda pholisïau a strategaethau eraill

| Amcanion strategol | SO11 |
|---|---|
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag economi lewyrchus; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus |
| Cynllun Integredig Mon | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd; Uchafu cyfleon gwaith gydag addysg a sgiliau o ansawdd dda |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Bydd yna gyfleon teg i bawb fod yn rhan o fyd gwaith |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mon gydag economi wledig ffyniannus a llewyrchus |



# CANOL TREFI A MANWERTHU

## Cefndir

• Un o amcanion y Llywodraeth ar gyfer canol trefi a manwerthu yw hyrwyddo canol trefi, canolfannau ardaloedd, lleol a phentrefi fel y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer manwerthu, hamdden a swyddogaethau eraill sy'n cyd-fynd gyda hynny.

• Wrth benderfynu a ydynt am enwi safleoedd ar gyfer datblygiad manwerthu, dylai awdurdodau cynllunio lleol yn gyntaf ystyried a oes angen am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer y mathau hyn o ddefnydd.

• Dylai Cynlluniau Datblygu sefydlu beth yw Goeden bresennol y canolfannau, gan enwi'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau arbenigol a bod yn eglur am eu rolau i'r dyfodol.

• Mae twf wedi digwydd mewn manwerthu tu allan i ganol trefi yn ystod y degawd diwethaf.

• Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn gweithredu rhaglenni gyda'r nod o wella rhai adeiladau gwael nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn, yn ogystal â gwella'r strydlun mewn ymgais i ddenu mwy o siopwyr a chynyddu nifer y bobl yn dod i mewn i nifer o ganol trefi.

## Rhagarweiniad

7.63 Mae canol dinasoedd a threfi'n rhan hanfodol o'r economi leol ac yn parhau i fod yn ganolbwynt i gymunedau. Bydd canol dinasoedd a threfi bywiog yn darparu cymysgedd o fathau o ddefnydd, yn cynnwys unedau preswyl, gweithgaredd busnes, darpariaeth gwasanaethau, unedau adwerthu, cyfleusterau hamdden a diwylliannol a llety i ymwelwyr. Mae gan y CDLl ar y Cyd rôl i'w chwarae i hwyluso a chefnogi datblygiad sy'n hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywdra.

7.64 Roedd yr astudiaeth manwerthu a ddigwyddodd er mwyn darparu gwybodaeth i hysbysu'r Ddogfen Hoff Strategaeth yn nodi bod gan Fangor ddylanwad cryf fel canolfan siopa is-ranbarthol. Mae Goeden fanwerthu o ganolfannau wedi cael ei sefydlu. Fe wnaeth yr astudiaeth 'brofion iechyd' ar ganol dinas/trefi ardal y Cynllun a thynnu sylw at eu cryfderau a'u gwendidau unigol. Roedd yr astudiaeth yn ystyried bod angen cyfyngedig yn bodoli o ran maint, am ddarparu tua 372 metr sgwâr o arwynebedd llawr hwylustod, a'i ddosbarthu fel sydd i'w weld isod. Fodd bynnag, ar gyfer nwyddau cymhariaeth, credai'r Astudiaeth bod potensial i ddarparu tua 9,353 metr sgwâr o arwynebedd llawr, a'i ddosbarthu fel sydd i'w weld yn y tabl isod.

7.65 Mae siopau pentref a gwasanaethau cymunedol (e.e. swyddfa bost, tafarn) yn bwysig i gymunedau gwledig gan eu bod yn darparu ar gyfer anghenion pobl o ddydd i ddydd, yn enwedig pobl sydd wedi'u hynysu naill ai oherwydd eu lleoliad neu amgylchiadau. Mae'n nod gan y CDLl ar y Cyd i hyrwyddo a gwella'r gwasanaethau hynny ac annog darparu gwasanaethau cymunedol amlbwrpas lle bo modd.

| | Arwynebedd llawr cymhariaeth, metrau sgwâr | Arwynebedd llawr hwylustod, metrau sgwâr |
|---|---|---|
| Bangor | 7,913 | Dim |
| Caergybi | Dim | Dim |
| Caernarfon | 176 | 200 |
| Pwllheli | 772 | 172 |
| Porthmadog | Dim | Dim |
| Llangefni | 492 | Dim |

# Polisi Strategol PS10 Canol Trefi a Manwerthu

**Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda chyrff partner a'r gymuned leol i amddiffyn a gwella bywiogrwydd a hyfywdra canol trefi yn ardal y Cynllun gan gydnabod eu swyddogaethau manwerthu, gwasanaeth a chymdeithasol:**

Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywdra canol y ddinas/dref trwy:

1. annog cymysgedd amrywiol o fathau o ddefnydd addas (fel sydd wedi'i ddiffinio ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN4) mewn amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n denu amrediad eang o bobl ar wahanol adegau o'r dydd, ac sy'n ddiogel a gyda mynediad i bawb;
2. sicrhau y bydd buddsoddiad newydd yn gyson gyda graddfa a swyddogaeth canol y ddinas/dref;
3. gwneud darpariaeth ar gyfer 372 metr sgwâr net o arwynebedd llawr newydd i nwyddau cyfleustra ac 9,353 metr sgwâr net o arwynebedd llawr i nwyddau cymharol erbyn 2026.
4. gwrthsefyll datblygiad sy'n tynnu oddi wrth eu bywiogrwydd a'u hyfywdra, ac amddiffyn yn erbyn colli unedau manwerthu yn y Prif Ardaloedd Siopa, fydd yn cael eu diffinio yn y Cynllun Adnau;
5. uchafu cyfleon i ailddefnyddio adeiladau priodol mewn canol trefi;
6. cyfyngu ar ehangiad datblygiadau manwerthu a hamdden tu allan i drefi.

Diogelu siopau a gwasanaethau mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol a Phentrefi sy'n darparu ar gyfer anghenion dydd i ddydd cymunedau rhag cael eu colli'n ddiangen a chefnogi cynigion ar gyfer gwasanaethau cymunedol amlbwrpas.

Cysondeb gyda pholisïau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO3, SO7, SO8, SO10, SO11 |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag economi lewyrchus; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus |
| Cynllun Integredig Mon | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd; Uchafu cyfleon gwaith gydag addysg a sgiliau o ansawdd dda |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Bydd yna gyfleon teg i bawb fod yn rhan o fyd gwaith |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mon gydag economi wledig ffyniannus a llewyrchus; Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol |

# TAI I GWRDD AG ANGEN LLEOL

# DARPARIAETH TAI CYTBWYS

## Cefndir

• Mae'n nod allweddol gan bolisi cynllunio cenedlaethol i greu cymunedau cymysg cynaliadwy ar gyfer y preswylwyr presennol a phreswylwyr y dyfodol

• Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd, neu y bydd yn dod ar gael, i ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai

• Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, mewn partneriaeth gyda'r gymuned, yn cynnwys y sector preifat, ddatblygu polisïau i ateb yr heriau a'r amgylchiadau penodol sy'n dod yn amlwg yn eu hardaloedd hwy mewn lleoliadau penodol

• Pwrpas y Strategaethau Cymunedol Integredig yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghynlluniau Busnes Ynys Môn a Gwynedd

• Trwy gyfrwng eu Cynlluniau Busnes, bydd y Cynghorau'n ceisio hwyluso darparu swm digonol o dai i ateb anghenion y cymunedau lleol o ran math a bod yn fforddiadwy.

## Cyflwyniad

7.66 Mae disgwyl i'r CDLl ar y Cyd gyflawni un o nodau allweddol y Llywodraeth, sy'n ceisio sicrhau bod mwy o dai o'r math iawn yn cael eu darparu a bod mwy o ddewis ar gael. Mae creu marchnad dai iach a chytbwys hefyd yn amcan allweddol gan y ddau Gyngor ac, ynghyd â strategaethau a rhaglenni eraill mae'r Cynghorau a chyrff eraill yn ymgymryd â hwy, dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau bod y defnydd o dir yn cefnogi cael cymunedau cynaliadwy.

7.67 Bydd awdurdodau lleol yn gallu dweud faint o nifer o dai fydd eu hangen, ond bydd y nifer sy'n cael eu hadeiladu mewn gwirionedd bob blwyddyn yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan ffactorau tu allan i'w rheolaeth. Mae'r CDLl ar y Cyd yn cael ei baratoi ar adeg pan mae ansicrwydd economaidd ac ariannol yn parhau. Mae amgylchiadau'r farchnad yn wan a hynny'n debyg o olygu bod adeiladu tai yn parhau i fod yn dawel yn y tymor byr. I gynorthwyo i symud ymlaen gyda darparu tai yn y tymor byr, mae'r Cynghorau a'u partneriaid yn edrych ar neu'n gweithredu cynlluniau lleol.

7.68 Mae cael amrediad o ran maint a math tai newydd yr un mor bwysig ag yw'r nifer cyffredinol ohonynt. Bydd amrywiaeth mewn mathau a daliadaeth tai o fewn Ardaloedd Marchnad Tai unigol, ac ar bob safle tai lle bo modd, yn creu cymunedau cymysg a chynaliadwy ac yn cynorthwyo i osgoi casgliadau gormodol o rai mathau o dai. Mae'n hanfodol cael gwaith dylunio ac adeiladu o ansawdd uchel er mwyn creu tai newydd sy'n ddeniadol i edrych arnynt ac yn gynaliadwy ac yn parhau'n llefydd dymunol i fyw ynddynt am amser hir i'r dyfodol.

7.69 O edrych ar yr amgylchiadau ar hyn o bryd ac i'r dyfodol e.e. effeithiau posibl y 'dreth ystafelloedd gwely' fel mae'n cael ei galw, mae'n cael ei ragweld y bydd mwy o aelwydydd cudd. Hefyd, o leiaf am y dyfodol y gellir ei ragweld, mae'n debygol y bydd perchnogaeth cartref yn ddewis ddim ond i bobl ar incwm uchel a rhai gydag arian o ffynonellau eraill, fel aelodau eraill o'r teulu neu trwy etifeddiaeth. Felly mae'n hanfodol cael cyflenwad o gymaint ag y bo modd o dai fforddiadwy newydd ac mae Polisi Strategol PS12 yn gosod allan beth yw ffordd y Cynghorau o weithredu.

7.70 Bydd cyfran uchel o'r cynnydd a ragwelir yn y nifer o aelwydydd yn ardal y cynllun yn rai gyda phobl dros 65 mlwydd oed. Bydd llawer o'r rhain yn dymuno aros yn eu cartrefi, ond fe fydd rhai yn dymuno symud i eiddo sydd wedi cael ei ddylunio'n benodol ar gyfer pobl hyn. Bydd galluogi aelwydydd hyn i leihau eu cartrefi yn gallu rhyddhau eiddo mwy i'w meddiannu gan deuluoedd. Mae hyn yn ein cyfeirio at fwy o angen am dai i bobl hyn a gaiff ei ildio gan ystod amrywiol o ddarparwyr mewn sawl ffordd, gan gydnabod bod anghenion y boblogaeth hyn llawn mor amrywiol ag anghenion y boblogaeth weithiol. Fe all rhywfaint o'r tai yma gynnwys gwahanol lefelau o ofal gan gynnwys gofal ychwanegol.

7.71 Bydd darparu mwy o lety myfyrwyr mewn lleoliadau ym Mangor os oes angen am y math yma o lety yn rhyddhau tai yn y sector breifat a allai fod ar gael wedyn i gyfarch angen cyffredinol am dai.

7.72 Ar y cam yma deallir nad ellir darparu rhai o'r tai newydd os caiff isadeiledd newydd/ wedi ei uwchraddio gael ei ddarparu. Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda darparwyr isadeiledd i ddadwneud unrhyw ddiffyg yn amserol.

7.73 Mae'r Polisi Strategol a ganlyn yn amcanu i gyfarch materion tai o ran y nifer o dai, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai newydd yn ogystal â sicrhau bod anghenion a gofynion rhai grwpiau penodol, fel yr henoed, yn cael eu cwrdd.

# Polisi Strategol PS11 Darpariaeth tai cytbwys

**Wedi'i seilio ar y lefel o angen am dai sy'n cael ei ragweld, a'i gydbwyso yn erbyn beth sydd modd ei gyflawni, cyfyngiadau amgylcheddol a chapasiti'r tirlun, bydd y Cynghorau'n gwneud darpariaeth ar gyfer 7,665 o unedau tai rhwng 2011 a 2026. Bydd cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai yn cael ei gynnal.**

**Bydd y lefel yma o dwf yn cael ei ddosbarthu yn unol gyda'r strategaeth anheddiad ym Mholisïau Strategol PS3 a PS4**

**Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod yr holl ddatblygiad tai newydd yn cyfrannu at wella'r cydbwysedd o dai ac yn ateb yr angen sydd wedi cael ei weld ymysg y gymuned gyfan. Bydd y Cynghorau'n sicrhau datblygiad cymunedau cymysg cynaliadwy trwy:**

1. Ddarparu cymaint ag y bo modd o dai fforddiadwy (gan gynnwys angen lleol) ar draws ardal y cynllun;
2. Cyfrannu at unioni anghydbwysedd sy'n cael ei weld mewn marchnad dai lleol;
3. Sicrhau defnyddio tir tai mewn ffordd gynaliadwy, gan sicrhau dwysedd adeiladu effeithiol sy'n gweddu mwynderau lleol;
4. Sicrhau'r gymysgedd gywir o fathau o unedau a daliadaeth tai er mwyn ateb anghenion cymunedau ardal y cynllun ar hyn o bryd ac i'r dyfodol;
5. Gwneud darpariaeth ar gyfer anghenion tai penodol fel llety i fyfyrwyr, llety i'r henoed, llety gyda chefnogaeth, cartrefi nyrsio, preswyl a gofal ychwanegol;
6. Gwella ansawdd a chynaliadwyedd y stoc tai presennol;
7. Annog safonau uchel o ddyluniad sy'n creu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol.

Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO1, SO2, SO3, SO4, SO5, SO6, SO13, SO24, SO26. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy; Ardal lle mae plant a phobl ifanc yn llwyddiannus; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus. |
| Cynllun Integredig Mon | Gweithio efo'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a chael amgylchedd diogel a chynaliadwy i fyw; Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | A greater choice of accommodation appropriate to needs; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Cyflenwad o dai priodol yn y Sir. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Pobl Mon yn byw i'w llawn botensial. |

# TAI FFORDDIADWY

## Cefndir

• Mae gwella fforddiadwyedd yn amcan allweddol o bolisi cenedlaethol

• O dan bolisi cynllunio cenedlaethol, mae'n ofynnol i gynlluniau datblygu lleol osod targed, wedi'i seilio ar wybodaeth, ar gyfer tai fforddiadwy y gall y drefn gynllunio ei gyflawni, a maint trothwy tebygol ar gyfer datblygiadau

• Fe ddylai awdurdodau cynllunio lleol gydbwyso'r angen am dai fforddiadwy yn erbyn hyfywdra safleoedd

• Mae'n nod allweddol gan bolisi cenedlaethol i fod yn creu cymunedau cymysg, cynaliadwy ar gyfer y preswylwyr presennol a phreswylwyr y dyfodol

• Mae cael tai fforddiadwy yn fater difrifol ar draws ardal y Cynllun

• Yn ôl y dystiolaeth, mae'r angen am dai fforddiadwy'n fwy mewn pentrefi ar yr arfordir, yn enwedig o fewn yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ar hyd arfordir Meirionnydd

## Cyflwyniad

7.74 Mae darparu cartrefi fforddiadwy'n amcan yn y CDLl ar y Cyd. Mae darparu cartrefi fforddiadwy hefyd yn flaenoriaeth yn y ddau Gynllun Integredig Sengl ac yn flaenoriaeth allweddol i'r ddau Gyngor. Fe gafodd y mwyafrif o dai fforddiadwy sydd wedi'u hadeiladu yn ardal y Cynllun eu darparu fel rhan o ddatblygiad newydd. Felly, mae gan bolisïau cynllunio rôl ganolog mewn cynorthwyo i gael cartrefi cost isel trwy negodi cwotâu o dai fforddiadwy a'u darparu ar safleoedd tai marchnad agored. Mae'r Polisi Strategol a ganlyn yn gosod allan yr amgylchiadau ar gyfer sicrhau tai fforddiadwy, a fydd ymhen amser yn cael ei gefnogi gan bolisïau rheoli datblygiad yn y Cynllun Drafft Adnau ac mewn Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy.

7.75 ai Fforddiadwy'n cael eu diffinio mewn polisi cenedlaethol fel tai rhent cymdeithasol, tai rhent fforddiadwy a thai canolradd, wedi'u darparu i aelwydydd cymwys nad yw'r farchnad yn ateb eu hanghenion. Fel arfer, bydd tai cymdeithasol a thai rhent fforddiadwy'n cael eu rhentu oddi wrth Gymdeithas Tai. Mae Tai Canolradd yn dai sydd ar gael i'w prynu neu i'w prynu'n rhannol/rhentu'n rhannol ar bris sy'n is na phris y farchnad.

7.76 Ym Mai 2011, roedd pris tŷ ym Môn a Gwynedd ar gyfartaledd yn tua £170,471 a £169,780, yn ôl eu trefn. Er nad yw hyn yn cael ei ystyried yn uchel yn ôl safonau cenedlaethol, o'i gymharu gyda'r cyfartaledd incwm maen nhw'n cael eu hystyried tu allan i gyrraedd. Mae'r broblem yn fwy amlwg ar lefel dechrau yn y farchnad dai, gyda llawer o bobl leol, yn enwedig pobl ieuengach, yn aml yn gweld na allant fforddio i fynd i mewn i'r farchnad. Er gwaethaf y dirywiad economaidd ar hyn o bryd, mae mater tai fforddiadwy'n parhau'n bryder allweddol ar draws ardal y Cynllun. Yn ogystal, dros yr ychydig ddegawdau diwethaf mae gwerthu trwy 'Hawl i Brynu' a niferoedd yr ail gartrefi/cartrefi gwyliau wedi achosi lleihad sylweddol yn y cyflenwad tai sydd ar gael i ateb anghenion tai lleol yn y sector cymdeithasol ac ar y farchnad.

7.77 Mae'n thema allweddol mewn polisi cenedlaethol fod awdurdodau cynllunio lleol yn gallu ceisio cael darpariaeth o dai fforddiadwy trwy'r drefn gynllunio lle mae tystiolaeth gref o angen. Er mwyn dangos yr angen am dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun, fe wnaeth y Cynghorau gynnal Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, ac Asesiad Hyfywdra Tai.

7.78 Fe wnaeth yr Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol Uchod ddangos bod angen am dai fforddiadwy ym Môn a Gwynedd o tua 304 a 828 o unedau tai bob blwyddyn i ateb y galw oedd wedi cronni a'r anghenion sy'n dod i'r golwg. Bydd Astudiaeth Angen Tai mwy diweddar ar gyfer Ynys Mon yn rhoi darlun mwy diweddar o'r angen yn yr Ynys. Roedd yr asesiadau cyfredol hefyd yn dangos, ar draws ardal y Cynllun, bod y rhan fwyaf o'r angen am unedau cymdeithasol ar rent yn hytrach na rhai cydberchnogaeth. Bydd Tai Teg, sef cofrestr tai fforddiadwy yn ffynhonnell bwysig am gynlluniau canolradd/ 'shared equity' yn ardal y Cynllun. Hyd nes caiff safleoedd eu hadnabod i gwrdd â hoff strategaeth CDLl ar y Cyd o ran tai yn gyffredinol, ni fydd yn bosib dod i gasgliad pendant o ran y nifer o unedau tai fforddiadwy ellir eu cael neu y dylid ei adnabod fel y targed tai fforddiadwy.

7.79 Gan mai'r sector preifat yw'r adeiladwr tai mwyaf o bell ffordd, mae'n cael ei gydnabod y gall darparu tai fforddiadwy effeithio ar ba mor broffidiol a hyfyw fydd datblygiad tai. Mae'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy wedi cael ei gynhyrchu i ddangos ar ba lefelau mae modd darparu datblygiad tai yn broffidiol tra ar yr un pryd ddarparu lefel briodol o dai fforddiadwy a chymysgedd o ddaliadaeth.

7.80 Mae canlyniadau'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy'n dangos ei bod yn her i ddarparu tai fforddiadwy yn rhannau is y farchnad, oherwydd prisiau tir a phrisiau tai. Mewn rhannau eraill, yng nghanol y farchnad a'r rhannau uwch, mae prisiau tir a phrisiau tai'n awgrymu bod datblygiad yn gallu darparu lefelau uwch o dai fforddiadwy heb gael effaith niweidiol ar ba mor broffidiol yw safleoedd. Ymhellach, wrth i amgylchiadau'r farchnad wella, dylai safleoedd ar draws ardal y cynllun allu cymryd lefelau uwch o dai fforddiadwy heb gael ardrawiad ar ba mor broffidiol ydynt.

# Polisi Strategol PS12 Tai Fforddiadwy

**Bydd y Cynghorau'n ceisio cael lefel briodol o dai fforddiadwy ar draws ardal y cynllun trwy weithio mewn partneriaeth gyda Darparwyr Cofrestredig, datblygwyr a chymunedau lleol (caiff targed tai fforddiadwy hyfyw a realistig ei osod yn y Cynllun Adnau).**

Er mwyn rhoi sylw i'r angen wedi ei brofi am dai fforddiadwy, bydd y Cynghorau'n ceisio trefnu bod datblygwyr preswyl yn darparu cyfran o dai fforddiadwy am byth. Bydd disgwyl i ddatblygiadau tai o 5 o unedau tai neu fwy yn y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaethol Trefol, Canolfannau Gwasanaethol Lleol, a datblygiadau tai o 3 o unedau neu fwy yn y Pentrefi Gwasanaethol wneud darpariaeth ar gyfer cyfran o dai fforddiadwy yn benodol i bob Ardal Marchnad Dai, a fydd rhwng 10% a 30%. Ystyrir cyfraniadau arian dim ond lle nad yw darpariaeth ar safle yn hyfyw neu'n realistig. Dim ond safleoedd 100% tai fforddiadwy gaiff eu cymeradwyo mewn Clystyrau.

Lle mae'n briodol, bydd yn ofynnol gan y Cynghorau i'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy gael ei dosbarthu i bob rhan o'r datblygiad a'i bod yn adlewyrchu'r ddaliadaeth sydd wedi cael ei henwi yn yr asesiadau o'r farchnad dai lleol neu unrhyw asesiad arall amgen gan y Cyngor neu ei phartneriaid. Disgwylir i'r cymysgedd o ddaliadaeth fod yn gyson ag anghenion pob ardal marchnad dai oni bai bod amgylchiadau lleol yn dweud fel arall.

Lle bydd hyfywdra cynlluniau unigol yn is na'r gofynion polisi sydd wedi'u pennu, bydd y cyfrifoldeb ar y datblygwr/tirfeddiannwr i dangos yn eglur beth yw'r amgylchiadau i gyfiawnhau cyfraniad is o dai fforddiadwy neu gymysgedd o ddaliadaeth.

Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO1, SO2, SO3, SO5, SO24. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy; Ardal lle mae plant a phobl ifanc yn llwyddiannus; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus. |
| Cynllun Integredig Mon | Gweithio efo'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a chael amgylchedd diogel a chynaliadwy i fyw; Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | A greater choice of accommodation appropriate to needs; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Cyflenwad o dai priodol yn y Sir. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Pobl Mon yn byw i'w llawn botensial. |

# DARPARIAETH I SIPSIWN A THEITHWYR

## Cefndir

- O dan Ddeddf Tai 2004, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn eu proses Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a bod ganddynt strategaeth yn ei lle sy'n dangos sut bydd unrhyw angen sydd i'w weld yn cael ei ateb fel rhan o'u Strategaeth Dai ehangach
- Roedd Cylchlythyr 30/07 Llywodraeth y Cynulliad, Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafannau Sipsiwn a Theithwyr, yn cryfhau'r gofyn i awdurdodau lleol ganfod safleoedd addas a gwneud darpariaeth ar eu cyfer yn eu cynlluniau lleol
- Mae dogfen Llywodraeth Cymru "Travelling for a Better Future" yn rhoi fframwaith bolisi manwl i'r Cynghorau
- Mae gwersylla heb ganiatâd yn digwydd yn ardal y Cynllun
- Yn ôl y dystiolaeth, mae angen am safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliadau priodol yn ardal y Cynllun.

## Cyflwyniad

7.81 Mae polisi cenedlaethol yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i osod allan y strategaeth a'r meini prawf i gael eu defnyddio i lywio datblygiad safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn ardal y Cynllun. Fe gynhaliwyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru a Sir y Fflint (2011), ar gyfer pob awdurdod cynllunio lleol yng Ngogledd Cymru heblaw am Wrecsam (a oedd wedi gwneud astudiaeth ar wahân) ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Yn ôl yr astudiaeth, yn 2011 roedd 5 o lefydd preifat, 25 o lefydd sy'n cael ei goddef, 11 o lefydd awdurdod lleol a 3 o lefydd heb ganiatâd tu mewn i ardal y Cynllun.. Rhwng 2011-2016 fe welodd yr astudiaeth y byddai angen (i'w gadarnhau) o lefydd ychwanegol yng Ngogledd Cymru. Fe fydd y cynghorau oedd yn cymryd rhan yn trafod sut i ateb yr angen hwn.

## Polisi Strategol PS13 Darpariaeth i Sipsiwn a Theithwyr

**Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda phartneriaid i roi sylw i ofynion Sipsiwn a Theithwyr ar hyn o bryd ac i'r dyfodol trwy:**

1. Ddiogelu'r tir presennol sydd wedi'i awdurdodi fel darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Llandygai, ger Bangor
2. Dyrannu tir ar gyfer llefydd unigol ychwanegol, ar gyfer angen nad yw'n cael ei ateb ar hyn o bryd am safleoedd dros dro, rhai wrth deithio neu barhaol, ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn ardal y Cynllun (yn unol â gwaith ar y cyd).

### Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO2. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy; Ardal lle mae plant a phobl ifanc yn llwyddiannus; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus. |
| Cynllun Integredig Mon | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Pobl Mon yn byw i'w llawn botensial. |

# CYFOETHOGI ASEDAU AMGYLCHEDDOL YR ARDAL

## *GWARCHOD A GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL*

### Cefndir

• Mae'n rôl allweddol o ran y drefn gynllunio i sicrhau bod gofynion cymdeithas am dir yn cael eu hateb mewn ffyrdd nad ydynt yn gosod cyfyngiadau diangen ar ddatblygiad, wrth sicrhau cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu neu wella'r amgylchedd

• Mae'n bwysig cymryd materion bioamrywiaeth a thirwedd i ystyriaeth yn gynnar ymlaen yn y broses wrth baratoi cynllun datblygu a gyda rheoli datblygiad

• O dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, mae dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i ystyried, cyn belled ag sy'n gyson gydag ymarfer y swyddogaethau hynny'n gywir, y diben o gadwraeth bioamrywiaeth

• Mae gan y Llywodraeth ymrwymiad i hyrwyddo Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Cynefinoedd a Rhywogaethau sy'n berthnasol i Gymru ac wedi'u paratoi o dan Gynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth, i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

• Mae'r ddau Gyngor wedi paratoi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

• Mae gan y drefn gynllunio rhan bwysig i'w chwarae mewn ateb amcanion bioamrywiaeth trwy hyrwyddo agweddau tuag at ddatblygiad sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, atal colli bioamrywiaeth, neu ddigolledu am golledion lle nad oes modd osgoi difrod

• Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ystyried dibenion Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), sef cadwraeth a gwella eu prydferthwch naturiol

• Mae'r ddyletswydd i ystyried dibenion y Parc Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn gymwys ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar yr ardaloedd hyn, boed y gweithgareddau hyn tu mewn neu du allan i'r ardaloedd sydd wedi'u dynodi

### Cyflwyniad

7.82 Mae gan ardal y Cynllun dirwedd arbennig ac amrywiol, yn cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Arfordir Môn ac AHNE Llŷn, hyd at ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ogystal â'r AHNE, sydd wedi'u diogelu ar sail genedlaethol, mae gan ardal ehangach y Cynllun ddarnau o gefn gwlad sydd heb gael ei ddifetha ac sy'n arbennig yn lleol fel bod yn werth eu dynodi'n Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mae cymeriad a phrydferthwch y dirwedd yn gwella ansawdd bywyd y trigolion yn sylweddol, ac yn dod â buddion mawr, yn gymdeithasol ac o ran iechyd. Mae hefyd yn atyniad mawr i bobl sy'n dymuno ymweld â'r ardal, a thrwy hynny'n cyflawni rôl bwysig ar gyfer yr economi leol.

7.83 Tu mewn i ardal y Cynllun, mae llawer o asedau pwysig o ran bioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Mae nifer o safleoedd sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ac wedi'u dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol, sy'n ardaloedd o bwysigrwydd cenedlaethol ar gyfer cadwraeth natur a daeareg. Mae rhan o Ynys Môn wedi'i ddynodi fel Geoparc. Mae nifer o rywogaethau sydd wedi'u diogelu i'w cael tu mewn a thu allan i'r safleoedd dynodedig hyn, fel y Wiwer Goch, Tylluan Wen, a'r Ystlum Pedol Lleiaf.

7.84 Mae'n bwysig cydnabod bod modd canfod asedau gwerthfawr, yn enwedig rhai'n ymwneud gyda bioamrywiaeth, mewn lleoliadau gwledig a threfol yn ardal y Cynllun. Fe all tir llwyd sy'n wag fod yn gynefin delfrydol i fywyd gwyllt ffynnu ynddo, yn blanhigion ac anifeiliaid, yn enwedig os bydd yn cael ei adael heb ei ddatblygu a heb darfu arno. Gyda'i gilydd, gall parciau, llecynnau gwyrdd, tir ar ymylon ffyrdd ac afonydd greu rhwydwaith o safleoedd bioamrywiaeth a 'choridorau' lle gall bywyd gwyllt fyw a theithio trwodd. Felly mae angen sicrhau nad yw datblygiad mewn ardaloedd gwledig a threfol yn niweidio gwahanol gynefinoedd neu'n ymyrryd ar dir sy'n rhan o rwydwaith ehangach o goridorau bywyd gwyllt.

# Polisi Strategol PS14 Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol

**Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiad er mwyn gwarchod, a lle bo modd, gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun trwy:**

1. Ddiogelu bioamrywiaeth, daeareg, cynefinoedd, hanes a thirweddau ardal y Cynllun trwy amddiffyn a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a'u gosodiad, gan roi sylw i arwyddocâd cymharol y dynodiadau wrth ystyried y pwysau i roi ar fuddiannau cydnabyddedig;
2. Anelu am ddim colled net mewn bioamrywiaeth o fewn ardal y Cynllun a gwella a/neu adfer rhwydwaith cynefinoedd naturiol;
3. Gwarchod a gwella gwasanaethau ecosystemau trwy rwydwaith o isadeiledd gwyrdd/ glas;
4. Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig er mwyn rheoli datblygiad;
5. Diogelu gosodiad Parc Cenedlaethol Eryri
6. Diogelu rhywogaethau sydd wedi'u hamddiffyn, a gwella eu cynefinoedd
7. Lleihau faint o dir amaethyddol Graddfa 1, 2 a 3a sy'n cael ei golli i ddatblygiad newydd
8. Parchu, cadw neu wella cymeriad a hynodrwydd lleol yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd unigol.

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO24. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy. |
| Cynllun Integredig Mon | Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Amgylchedd diogel a chynaliadwy. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol. |

# DIOGELU A GWELLA ASEDAU DIWYLLIANNOL A HANESYDDOL

## Cefndir

• Mae'n bwysig bod yr amgylchedd hanesyddol – sy'n cynnwys archeoleg a henebion, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol – yn cael ei ddiogelu

• Mae gan awdurdodau cynllunio lleol rôl bwysig mewn sicrhau cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol ac ar yr un pryd sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer ac yn parhau'n ymatebol i anghenion y dyddiau hyn

## Cyflwyniad

7.85 Mae gan y Cynghorau ddyletswydd o ran cadwraeth a gwella pwysigrwydd, cymeriad ac ymddangosiad amgylchedd diwylliannol a hanesyddol ardal y Cynllun. Mae'n cael ei gydnabod bod yr amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at fwynhad o fywyd yn ardal y Cynllun, yn darparu teimlad unigryw o hunaniaeth ac yn ased economaidd gwerthfawr. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn cynnwys nid yn unig safleoedd archeolegol, adeiladau hanesyddol ac aneddiadau ond hefyd y tirlun hanesyddol ehangach ynghyd ag adeiladau, ardaloedd a nodweddion sy'n arbennig, yn werthfawr ac yn bwysig yn lleol.

# Polisi Strategol PS15 Amddiffyn a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth

**Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd y Cynghorau'n amddiffyn, a lle bo'n briodol, gwella ei asedau o ran diwylliant a threftadaeth trwy:**

1. Diogelu a gwella'r asedau diwylliannol a threftadaeth a ganlyn a, lle bo'n briodol, eu cefndir a golygfeydd pwysig:

   i. Ardaloedd Cadwraeth;

   ii. Safleoedd Treftadaeth y Byd Castell Biwmares a Chastell a Muriau Tref Caernarfon;

   iii. Yr Ymgeisydd am Statws Treftadaeth y Byd, Diwydiant Llechi Gogledd Cymru;

   iv. Tirweddau, parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig;

   v. Adeiladau Rhestredig;

   vi. Henebion Rhestredig a mannau eraill o bwysigrwydd archeolegol;

2. Gwella asedau treftadaeth trwy gyfrwng cynlluniau treftadaeth ac adfywio

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO25. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy. |
| Cynllun Integredig Mon | Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Amgylchedd diogel a chynaliadwy |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol. |

# TECHNOLEG ADNEWYDDOL

## Cefndir

• Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gosod targed o gyflenwi 15% o ynni'r Deyrnas Unedig o ynni adnewyddol erbyn 2020.

• Mewn Datganiad Polisi ynni (2010) mae Llywodraeth Cymru wedi datgan beth yw'r potensial ynni adnewyddol cynaliadwy ar gyfer amrywiaeth o wahanol dechnolegau, yn ogystal â sefydlu ymrwymiad i effeithlonrwydd ynni

• Un ffordd y gall awdurdodau cynllunio lleol gynorthwyo gyda hyn yw trwy gynnwys polisïau cynllunio cadarnhaol ar gyfer ynni adnewyddol

• Does dim Ardaloedd Chwilio Strategol ar gyfer ffermydd gwynt masnachol tu mewn i ardal y Cynllun

• Tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol, mae cynlluniau ar gyfer ffermydd gwynt bychan wedi'u seilio ar y gymuned (yn gyffredinol yn llai na 5MW) yn cael eu cefnogi

• Mae'r ddau Gyngor, trwy Raglen Ynys Ynni Môn a Phrosiect Gwynedd Werdd, yn cefnogi mentrau cymunedol, gwledig a rhai ar raddfa fwy, lle bo'n briodol

## Cyflwyniad

7.86 Yn 2012 fe gafodd Astudiaethau Capasiti Ynni Adnewyddol eu paratoi ar gyfer (Sir) Gwynedd ac Ynys Môn i asesu'r capasiti posibl ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddol. Pwrpas yr Astudiaethau oedd cynorthwyo'r Cynghorau i ddeall yr adnoddau oedd yn bosibl oddi wrth y gwahanol dechnolegau ynni adnewyddol. Fe fu'r Astudiaethau'n ystyried nifer o dechnolegau ar y tir e.e. gwynt ar y tir, pŵer dŵr, biomas. Roedd yr astudiaethau'n cydnabod technolegau allan yn y môr, ond nid yw'r rheiny'n cyfrannu at ffigyrau capasiti ynni adnewyddol ardal y Cynllun. Fe welodd yr Astudiaethau, tra bod gan ardal y Cynllun adnodd naturiol uchel ar gyfer ynni adnewyddol, fod hefyd nifer fawr o dirweddau yn rhai o ansawdd uchel, sy'n lleihau beth mae modd ei ddefnyddio. Bydd gwaith pellach yn digwydd er mwyn deall y cyfyngiadau eraill y gallent effeithio ar ddefnyddio ynni adnewyddol, e.e. isadeiledd (grid), hyfywdra economaidd. Does dim bwriad gosod targedau penodol yn y CDLl ar y Cyd ar yr adeg hon ar gyfer technolegau ynni adnewyddol. Yn hytrach, mae'r Polisi Strategol a ganlyn yn rhoi fframwaith cadarnhaol ar gyfer darparu ynni o ffynonellau adnewyddol.

# Polisi Strategol PS16 Technoleg adnewyddadwy

**Bydd y Cynghorau'n ceisio sicrhau bod ardal y Cynllun yn cyflawni ei botensial fel ardal arweiniol ar gyfer mentrau wedi'u seilio ar dechnolegau adnewyddadwy neu garbon isel lle bynnag y bydd hynny'n ymarferol a hyfyw trwy:**

a.gael technolegau ynni adnewyddol fel rhan o gynigion datblygu fydd yn cefnogi cynhyrchu ynni o ffynonellau amrywiol sy'n cynnwys, biomas, morol, gwastraff, dwr, daear, haul, a ffynonellau gwynt, gan gynnwys micro gynhyrchu;

b. datblygiad technoleg ynni adnewyddol ar ben ei hun

Caiff hyn ei gyfarch trwy:

1. sicrhau nad yw cyfarpar mewn ardaloedd wedi'u cynnwys o dan ddynodiadau tirwedd ryngwladol neu genedlaethol ac i'w gweld tu draw i'w ffiniau, neu ardaloedd o werth lleol ar gyfer y dirwedd, yn unol â Pholisi Strategol PS15, ddim, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn cyfaddawdu amcanion y dynodiadau, yn enwedig o ran cymeriad y dirwedd, yr effaith weledol ac amwynder preswyl.

2. sicrhau nad yw cyfarpar yn unol â Pholisi Strategol PS14 ar ben ei hun neu'n gronnol yn gwrthdaro gydag amcanion y dynodiad rhyngwladol, cenedlaethol neu leol;

3. cefnogi gosod cyfarpar tu allan i ardaloedd wedi'u dynodi, cyn belled nad yw'r cyfarpar yn achosi niwed sylweddol y gellir ei brofi i gymeriad y dirwedd, amwynder preswyl, naill ai yn unigol neu gyda'i gilydd.

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO8, SO13, SO18, SO24, SO25. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy. |
| Cynllun Integredig Mon | Gweithio efo'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a chael amgylchedd diogel a chynaliadwy i fyw; Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Amgylchedd diogel a chynaliadwy. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mon gydag economi wledig ffyniannus a llewyrchus; Pobl Mon yn byw i'w llawn botensial; Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol. |

# RHEOLI GWASTRAFF

## Cefndir

• Mae Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru'n darparu fframwaith defnydd tir ar gyfer rheoli pob math o wastraff

• Mae awdurdodau gwastraff Gogledd Cymru wedi arwyddo cytundeb i ddatblygu cynllun ar y cyd i ddelio gydag a thrin gwastraff gweddillol mewn ffordd gynaliadwy sy'n lleihau'r ddibyniaeth ar gludo gwastraff i safleoedd tirlenwi.

## Cyflwyniad

7.87 Mae'r Ddogfen Hoff Strategaeth yn ystyried, ac yn cydweddu gyda, chynnwys Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru trwy ei bod yn cefnogi amrediad o weithgareddau rheoli gwastraff i sicrhau bod targedau statudol cenedlaethol ac Ewropeaidd yn cael eu hateb. Er mwyn ateb y gofynion capasiti ar gyfer cyfleusterau gwastraff newydd, bydd y CDLl ar y Cyd Adnau'n enwi safleoedd priodol lle gellid gosod cyfleusterau newydd.

# Polisi Strategol PS17 Rheoli gwastraff

**Bydd y Cynghorau'n ceisio sicrhau bod tir digonol ar gael ar gyfer rhwydwaith o gyfleusterau gwastraff i ateb oblygiadau rhanbarthol a lleol yn unol gyda gofynion Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bydd y safleoedd a'r mathau o gyfleusterau sy'n cael eu dewis yn hyrwyddo agwedd gynaliadwy tuag at reoli gwastraff, wedi'i seilio ar Goeden o leihau, ailddefnyddio ac adennill.**

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO13, SO17. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy. |
| Cynllun Integredig Mon | Gweithio efo'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a chael amgylchedd diogel a chynaliadwy i fyw; Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Amgylchedd diogel a chynaliadwy. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mae pobl Mon yn ddiogel ac yn iach. |

# MWYNAU

## Cefndir

• Yr amcan trosfwol wrth gynllunio ar gyfer darpariaeth agregau yw sicrhau bod y cyflenwad yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy er mwyn cael y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Ar yr un pryd mae angen sicrhau bod ardrawiadau unrhyw waith alldynnu, o ran yr amgylchedd ac amwynder, yn cael eu cadw i lefel sy'n osgoi achosi niwed y gellir ei ddangos i ddiddordebau sydd o bwysigrwydd cydnabyddedig.

• Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn gosod allan sut bydd y galw am agregau'n cael ei ateb yn y rhanbarth am gyfnod o 15 mlynedd hyd at 2021 ac yn darparu sylfaen strategol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yn y rhanbarth.

## Cyflwyniad

7.88 Mae gan ardal y CDLl ar y Cyd ddyddodion mawr o bron bob un o'r prif fathau o graig, yn cynnwys llechi, calchfaen, glo, gwahanol greigiau igneaidd a thywodfaen, yn cynnwys dyddodion tywod a graean. Fe fydd ymarfer yn mynd ymlaen ar gyfer y CDLl ar y Cyd i ddiogelu'r cyflenwad mwynau presennol ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol yn unol gydag MTAN 1, mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys gweithredwyr mwynau lleol. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn argymell y dylai'r CDLl wneud dyraniadau ar gyfer adnoddau tywod a graean ar y tir y dylid eu diogelu.

# Polisi Strategol PS18 Mwynau

**Bydd y Cynghorau'n cyfrannu at ateb y galw rhanbarthol a lleol am gyflenwad di-dor a diogel o fwynau trwy:**

1. Ddiogelu adnoddau agregau mae gwybod amdanynt yn barod / allent ddod ar gael rhag datblygiad parhaol fyddai'n eu sterileiddio neu'n rhwystr i waith alldynnu;
2. Cynnal banc tir 12 mlynedd o Dywod a Graean a banc tir 15 mlynedd o agregau craig wedi'i malu, yn unol gyda chyfarwyddyd cenedlaethol;
3. Defnyddio gymaint ag y bo modd o ddeunyddiau eilaidd a rhai wedi'u hailgylchi a gwastraff mwynau.
4. Cydnabod bod estyn chwareli agregau sy'n bodoli'n barod yn debygol o fod yn briodol lle mae modd cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy.
5. Lle mae angen am ardaloedd newydd o gyflenwi agregau, dylai'r rheiny ddod o leoliadau lle mae lefelau isel o gyfyngiadau amgylcheddol, a chymryd yr oblygiadau cludiant i ystyriaeth.
6. Cynnal cyflenwad o agregau morol yn gyson gyda gofynion arfer amgylcheddol da.
7. Sicrhau adfer ac ôl-ofal digonol.

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO12. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag economi lewyrchus; |
| Cynllun Integredig Mon | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy.<br>Gweithio efo'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a chael amgylchedd diogel a chynaliadwy i fyw; Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Bydd yr economi yng Ngwynedd yn ffynnu; Amgylchedd diogel a chynaliadwy. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mon gydag economi wledig ffyniannus a llewyrchus; Pobl Mon yn byw i'w llawn botensial; Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol. |

# CRYFHAU EIN CYMUNEDAU – GWLEDIG A THREFOL

## *YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIG*

### Cefndir

- Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhan o'r ffabrig cymdeithasol, ac os oes mae'n cael ei ystyried yn briodol cymryd hynny i ystyriaeth wrth lunio polisïau defnydd tir
- Mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn un o'r egwyddorion sy'n ganolog i'r ddau Gynllun Integredig Sengl

### Cyflwyniad

7.89 Mae'r iaith Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd preswylwyr ac ymwelwyr ardal y Cynllun. Yn 2001, roedd 60% a 69% o boblogaeth Ynys Môn a (Sir) Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg. Mae defnydd o'r iaith yn amrywio o le i le yn yr ardal. Mae'r gyfrol gyntaf o wybodaeth am yr iaith Gymraeg allan o Gyfrifiad 2011 yn dangos lefelau is o siaradwyr Cymraeg yn y ddwy Sir: 57% a 65% yn Mon a Gwynedd, yn y drefn honno. Caiff manylion am gymunedau unigol eu rhyddhau yn ystod 2013.

7.90 Lle mae bwriad i ddatblygu, rhaid ystyried gwella a diogelu'r iaith a diwylliant. Mae Polisi Strategol PS19 yn gosod y cefndir ar gyfer asesu'r effaith y gallai cynigion datblygu ei chael ar yr iaith a'r diwylliant, a hefyd ddarparu gwybodaeth o ran graddfa a lleoliad datblygiad newydd fel sy'n cael ei fwriadu o fewn y strategaeth aneddleoedd.

## Polisi Strategol PS19 Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

**Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:**

1. Ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad iddynt;
2. Wrthod datblygiad fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned;
3. Annog bod yr holl arwyddion gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes yn ddwyieithog;
4. Annog defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.

### Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO3, SO5, SO24. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy; Ardal lle mae plant a phobl ifanc yn llwyddiannus; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus. |
| Cynllun Integredig Mon | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Pobl Mon yn byw i'w llawn botensial. |

# ISADEILEDD CYMUNEDOL

## Cefndir

• Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori bod isadeiledd digonol ac effeithlon, yn cynnwys gwasanaethau fel cyfleusterau addysg ac iechyd ynghyd â chyflenwad dŵr, carthffosydd, rheoli gwastraff, trydan a nwy (y cyfleustodau) a thelathrebu, yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pob rhan o Gymru

• Efallai bydd angen i ddatblygiad ddigwydd fesul rhan, mewn ymgynghoriad gyda'r darparwyr cyfleustodau perthnasol, er mwyn caniatáu amser i sicrhau bod modd rheoli darparu cyfleustodau

## Cyflwyniad

7.91 Mae cymunedau cytbwys eu hoed cynaliadwy'n dibynnu ar bresenoldeb isadeiledd yn gwasanaethu'r gymuned. Yng nghyswllt Polisi Strategol PS20 mae isadeiledd yn cynnwys y rhwydwaith cludiant, cyfleustodau (yn cynnwys gwasanaethau trydan, nwy, dŵr, dŵr gwastraff a thelathrebu), cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol a thir agored sy'n cyfarch anghenion trigolion amrywiol (e.e. o ran oed).. Mae'r rhwydwaith cludiant yn cynnwys cludiant cyhoeddus a'r rhwydwaith ffyrdd strategol a lleol yn ogystal â llwybrau beicio a cherdded. Mae cyfleustodau'n hanfodol i'r holl drigolion a phobl sy'n ymweld, yn gweithio ac yn astudio yn ardal y Cynllun; felly mae'n hanfodol gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer rhwydweithiau cyfleustodau a bod digon o gapasiti. Bydd twf tai a chyflogaeth yn arwain at gynnydd yn y galw am yr holl gyfleusterau cymdeithasol a chymuned, yn ogystal â thir agored, ond mae twf yn arbennig o debygol o gael ardrawiad ar y ddarpariaeth ysgolion a gofal iechyd.

7.92 Mae datblygiad newydd yn debygol o ddefnyddio'r cyfleusterau presennol, a gall fod angen ehangu rhai ohonynt o ganlyniad. Felly bydd y Cynghorau'n gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ac amserol o isadeiledd ar gael i gefnogi datblygiad a thwf.

7.93 Bydd asesiad o anghenion isadeiledd cymunedol yn ardal y Cynllun yn cael ei wneud i sefydlu'r angen am fathau penodol o gyfleusterau dros oes y Cynllun – caiff y dystiolaeth yma ei gynnwys mewn ystod o Bapurau Cefndir

# Polisi Strategol PS20 Isadeiledd Cymunedol

**Bydd y Cynghorau'n sicrhau, wrth annog cael tai a thwf yn ardal y Cynllun, bod isadeiledd addas yn cael ei ddarparu ar gyfer anghenion y poblogaethau presennol a'r rhai i'r dyfodol, trwy;**

1. wrthsefyll colli a hyrwyddo gwella'r cyfleusterau isadeiledd cymdeithasol presennol, yn arbennig y rhai sy'n bwysig i grwpiau bregus yn y gymuned;
2. gwneud y defnydd mwyaf sydd modd o gyfleoedd i ddarparu cyfleusterau ffisegol, cymdeithasol, gwyrdd/glas ychwanegol yn amserol fel rhan o ddatblygiadau newydd;
3. annog cyfleusterau cymdeithasol amlbwrpas sy'n darparu amrediad o wasanaethau;
4. sicrhau bod cyfleusterau newydd yn cael eu lleoli'n briodol i ddarparu ar gyfer y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu a bod modd eu cyrraedd trwy gerdded a beicio;
5. ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gyfrannu tuag at ddarparu isadeiledd cymdeithasol, gyda chyfraniadau naill ai ar y safle neu trwy gyfraniadau cynllunio, yn unol gyda Pholisi Strategol PS5 a PS12;
6. gwella'r rhwydwaith isadeiledd gwyrdd/ glas trwy greu a gwella llefydd agored, chwarae a hamdden, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae diffyg;
7. ceisio cael darpariaeth ddigonol a defnydd effeithlon o randiroedd a mannau eraill i dyfu bwyd a phlanhigion arnynt;
8. sicrhau bod isadeiledd ffisegol (gan gynnwys prifion cyhoeddus) priodol yn cael eu darparu'n amserol lle mae datblygiad newydd angen hynny.

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO4, SO5, SO26. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Good health and the best possible care in the community. |
| Cynllun Integredig Mon | Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus; Less disadvantaged because of poverty, Better access to a range of informal learning experiences that provide opportunities to gain skills, to venture and to enjoy; Amgylchedd diogel a chynaliadwy. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | People in Anglesey are healthy and safe; Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol. |

# TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

## Cefndir

• Mae'n nod gan y Llywodraeth i gael yr isadeiledd amgylcheddol a thelathrebu sydd ei hangen ar gyfer cyflawni amcanion datblygiad cynaliadwy, a chael cyn lleied ag y bo modd o ardrawiadau niweidiol ar yr amgylchedd, iechyd a chymunedau

• Mae'n nod ganddi i hwyluso datblygiad isadeiledd telathrebu band eang uwch trwy bob rhan o Gymru a hyrwyddo dull integredig o weithredu o ran darparu ac adnewyddu isadeiledd telathrebu



• Mae Cyngor Gwynedd, trwy gyfrwng y prosiect Gwynedd Ddigidol, yn ceisio sefydlu Gwynedd fel ardal gwbl digidol

# Polisi Strategol PS21 Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

**Bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygiad isadeiledd sy'n ceisio estyn neu wella cysylltiadau trwy gyfrwng y technolegau cyfathrebu presennol a rhai sy'n cael ei ddatblygu ("emerging") h.y band llydan cyflymder uchel, ffonau symudol a datblygiad ym mhob rhan o ardal y Cynllun, amodol ar fesurau amddiffyn priodol.**

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion strategol | SO4, SO5, SO7, SO8, SO22. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag economi lewyrchus; |
| | Ardal lle mae plant a phobl ifanc yn llwyddiannus; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus. |
| Cynllun Integredig Mon | Gweithio efo'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a chael amgylchedd diogel a chynaliadwy i fyw; Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd; Uchafu cyfleon gwaith gydag addysg a sgiliau o ansawdd dda. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Bydd yr economi yn llwyddo; An exciting place to live with vibrant communities. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mon gydag economi wledig ffyniannus a llewyrchus; Pobl Mon yn byw i'w llawn botensial. |

# TRAFNIDIAETH GYNALIADWY, DATBLYGIAD A HYGYRCHEDD



## Cefndir

• Mae'r Llywodraeth yn cefnogi Goeden cludiant mewn perthynas â datblygiad newydd, sy'n sefydlu blaenoriaethau yn y fath ffordd nes ei fod, lle bynnag bo modd, ar gael yn gyntaf trwy gerdded a beicio, wedyn gyda chludiant cyhoeddus ac yn olaf gyda cherbydau modur preifat

• Mae angen i strategaethau a pholisïau cynllun datblygu fod yn gyson ac yn integreiddio gyda'r strategaethau a pholisïau sydd mewn Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol, Adroddiadau Lleihau Trafnidiaeth Ffyrdd a Chynlluniau Rheoli Ansawdd Aer a gwybodaeth mewn Mapiau Sŵn Strategol

• Mae ardal y Cynllun mewn dau Gynllun Cludiant Rhanbarthol (TRACC a TAITH), sy'n darparu'r fframwaith perthnasol ar gyfer ardal y Cynllun

• Mesur Teithio Egniol – mae'r Mesur yma wedi bod yn destun ymgynghoriad dros yr haf 2012 ac i fod i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod gwanwyn 2013. Mae'n anelu i alluogi mwy o bobl i gerdded a beicio gyda dulliau mwy egniol.

## Cyflwyniad

7.94 Mae gan drafnidiaeth rol bwysig i chwarae ym mywydau trigolion ac ymwelwyr i ardal y Cynllun. Mae symudiad pobl a nwyddau'n dibynnu ar gysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy o bob math. Bydd trafnidiaeth gynaliadwy'n cefnogi meysydd polisïau eraill fel twristiaeth, yr economi, newid hinsawdd, datblygiad isadeiledd yn ogystal ag effeithio ar strategaethau aneddleoedd.

# Polisi Strategol PS22 Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

**Caiff datblygiad ei leoli i leihau'r angen i deithio. Bydd y Cynghorau'n cefnogi gwelliannau trafnidiaeth fydd yn uchafu hygyrchedd ar gyfer pob dull o deithio, ond yn arbennig ar droed, beic a chludiant cyhoeddus. Caiff hyn ei wireddu trwy gael mynediad hwylus ar lwybrau, isadeiledd beicio a chludiant cyhoeddus lle mae'n briodol, ac felly hyrwyddo'r defnydd o'r dulliau yma o deithio ar gyfer teithio lleol a lleihau'r angen i deithio yn y car.**

**Bydd y Cynghorau'n ceisio gwella hygyrchedd a cheisio newid ymddygiad teithio trwy weithio gyda phartneriaid i:**

1 gynnal gwasanaeth cludiant cyhoeddus priodol, gan gydnabod dulliau gwahanol o gynnal cyfleon teithio;

2. gynnal a gwella gorsafoedd, isadeiledd a gwasanaethau ar y prif Linellau Rheilffordd;

3. wneud ychwanegiadau neu welliannau i rwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio er mwyn gwella hygyrchedd i'r dulliau yma o deithio;

4. gefnogi gwelliannau a fydd yn gwella trafnidiaeth trwy gyfleusterau parcio/ rhannu a theithio i ardaloedd cyflogaeth a datblygiad newydd; cyfleusterau symud llwythau a gwelliannau eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd;

5. ddynodi neu warchod tir lle mae'n briodol er mwyn hyrwyddo cynlluniau trafnidiaeth strategol:

- A487 Ffordd osgoi Dinas – Bontnewydd – Caernarfon
- Man croesi'r Fenai

Bydd y Cynghorau'n disgwyl y bydd yr elfennau isadeiledd allweddol canlynol yn cael eu darparu fel rhan o gynlluniau datblygiadau isadeiledd mawr:

- A5025 Valley i Wylfa/ Amlwch i Wylfa a gwelliannau isadeiledd trafnidiaeth eraill yn gysylltiedig â datblygiad niwclear newydd yn Wylfa

Defnyddir ymrwymiadau cynllunio neu fecanweithiau priodol eraill gyda phob datblygiad ar safleoedd datblygiadau mawr i leihau eu heffaith ar system trafnidiaeth ardal y Cynllun yn unol â Pholisi Strategol PS5.

## Cysondeb gyda pholisiau a strategaethau eraill

| | |
|---|---|
| Amcanion stratego | SO1, SO5, SO9, SO13, SO21, SO22, SO23. |
| Cynllun Integredig Gwynedd | Ardal gydag economi lewyrchus; Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy; Ardal lle mae plant a phobl ifanc yn llwyddiannus; Lle gwefreiddiol i fyw, gyda chymunedau byrlymus. |
| Cynllun Integredig Mon | Gweithio efo'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a chael amgylchedd diogel a chynaliadwy i fyw; Cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywyd. |
| Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd | Bydd yr economi yn llwyddo; Amgylchedd diogel a chynaliadwy; Convenient and useful connections. |
| Cynllun Busnes Cyngor Sir Ynys Mon | Mon gydag economi wledig ffyniannus a llewyrchus; Pobl Mon yn byw i'w llawn botensial; Pobl yn Mon yn mwynhau, gwarchod a gwella'u hamgylchedd naturiol. |

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno fod yr Hoff Strategaeth a'r Polisiau Strategol yn darparu fframwaith briodol i gyfarch gweledigaeth ac amcanion strategol y CDLl ar y Cyd fel y'u gwelir ym Mhennod 5? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau.



## Pennod 8

# Beth fydd yn digwydd nesaf?



# Paratoi'r Cynllun Adneuo

8.1 Ar ôl ymgynghori ynglŷn â'r Ddogfen Hoff Strategaeth, rhaid i'r Cynghorau lunio fersiwn derfynol ei CDLl ar y Cyd a'i Adneuo er mwyn cynnal rownd ymgynghori arall.

8.2 Bydd y Cynllun Adneuo'n cynnwys polisïau manwl ac yn dyrannu safleoedd i gefnogi rhoi'r Hoff Strategaeth ar waith.

8.3 Mae'r Cynghorau'n rhagweld y bydd fformat y Cynllun Adneuo fel a ganlyn:

## Cyflwyniad

- Proses y cynllun datblygu
- Cyd-destun polisi
- Golwg gyffredinol ar y sir

## Strategaeth

- Mater allweddol sy'n gofyn sylw
- Gweledigaeth ac Amcanion
- Y Strategaeth a'r Ddiagram Allweddol
- Polisïau Strategol

## Polisi Manwl

- Polisïau ar gyfer y sir i gyd (polisïau rheoli datblygiadau a pholisïau ar bynciau penodol)
- Polisïau sy'n benodol i ardaloedd (yn berthnasol i rannau penodol o ardal y Cynllun yn unig)
- Mapiau'r Cynigion (yn dangos ardaloedd gwarchod, ardaloedd ar gyfer eu datblygu ac ati)

Gwireddu ac adolygu

- gweithredu a monitro

## Canllawiau Cynllunio Atodol

8.4 Er mwyn cynorthwyo i symleiddio'r CDLl ar y Cyd ei hun, gellir cynnwys unrhyw fanylion y mae eu hangen ynglŷn â gweithredu polisïau penodol mewn set o Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n cyd-fynd â'r cynllun.

8.5 Nid yw'n fwriad cynhyrchu'r holl Ganllawiau Cynllunio Atodol ochr yn ochr â chynhyrchu'r CDLl, ac eithrio ychydig o'r rhai allweddol. Fodd bynnag, pan fydd y CDLl ar y Cyd wedi cael ei fabwysiadu, gellir canolbwyntio adnoddau ar lunio'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno gyda strwythur arfaethedig y CDLl ar y Cyd Adneuo?

Cwestiwn 7: Os oes gennych chi ragor o sylwadau neu awgrymiadau am y ddogfen Hoff Strategaeth wnewch chi eu nodi nhw yma os gwelwch yn dda. Mae'n rhaid i chi ddweud pa ran o'r ddogfen rydych chi'n gyfeirio ato, h.y. rhif paragraff/ polisi.

ATODIAD 1: DOGFENNAU ALLWEDDOL

| | Enw |
|---|---|
| Papur Testun 1 | Diweddariad asesu safleoedd posib |
| Papur Testun 2 | Y cyd-destun polisi |
| Papur Testun 3 | Poblogaeth a thai |
| Papur Testun 4 | Disgrifio'r twf tai a gofodol |
| Papur Testun 5 | Datblygu'r strategaeth aneddleoedd |
| Papur Testun 6 | Astudiaeth capasiti trefol |
| Papur Testun 7 | Manwerthu |
| Papur Testun 8 | Asesiad Strategol Canlyniad Llifogydd (Lefel 1) |
| Papur Testun 9 | Twristiaeth |
| Papur Cefndir | Astudiaeth hyfywdra tai fforddiadwy |
| Papur Cefndir | Astudiaeth tir cyflogaeth |
| Papur Cefndir | Astudiaeth manwerthu Gwynedd a Môn |
| Papur Cefndir | Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig Gwynedd a Môn |
| Papur Cefndir | Canllaw Tirwedd Gwynedd |
| Papur Cefndir | Astudiaeth Capasiti Ynni Andewyddol Gwynedd |
| Papur Cefndir | Astudiaeth Capasiti Ynni Adnewyddol Môn |

## ATODIAD 2 – HUNAN ASESIAD PROFION CADERNID

| **Profion gweithdrefnol** | |
|---|---|
| Mae'r cynllun wedi cael ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC). | **Prif Gwestiwn:** A yw'r holl weithdrefnau ymgynghori / cyfranogi perthnasol a nodwyd yn y CCC wedi'u gweithredu hyd yma?<br><br>**Tystiolaeth:**<br><br>Mae'r Cytundeb Cyflenwi (fel y cytunwyd gan Lywodraeth Cymru) sy'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) yn nodi'r broses ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer ardaloedd Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Mon. Mae'n dweud sut a phryd y bydd y Cynghorau'n ymgynghori a gweithio gyda grwpiau, mudiadau ac unigolion yn ystod y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Cafodd y CC ei fabwysiadu gan y Cynghorau ym mis Medi a Hydref 2011 a chytunodd y Llywodraeth iddo ym mis Tachwedd 2011.<br><br>Gellir gweld y CC ar wefannau'r ddau Gyngor, yn y llyfrgelloedd cyhoeddus, ac ym mhrif swyddfeydd y Cynghorau.<br><br>Gellir mesur cydymffurfiaeth gyda'r prawf yma trwy restru'r camau a gymerwyd hyd yma:<br><br>• Adolygu'r sail dystiolaeth a pharatoi papurau cefndir/ trafod – cyfredol<br>• Adolygu'r sail dystiolaeth – galw am safleoedd – cyfredol<br>o Cyhoeddi dogfen methodoleg asesu – ymgynghori – haf 2011<br>o Agor y cyfnod galw am safleoedd trwy roi rhybudd yn y papurau lleol, datganiad i'r wasg, anfon llythyrau at unigolion a chyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol – Hydref 2011<br>o Ymgynghori a rhanddeiliaid perthnasol wrth fynd trwy'r broses asesu safleoedd |

| | |
|---|---|
| | • Arfarniad Cynaladwyedd (AC) drafft Adroddiad Sgopio – ymgynghoriad cyhoeddus haf 2011<br>• Paratoi'r Ddogfen Hoff Strategaeth a chyfranogiad cyhoeddus<br>o Cyhoeddi dogfen drafod am y materion allweddol, y weledigaeth, prif amcanion, opsiynau twf a dosbarthiad – ymgynghori - 8 Tachwedd – 13 Ionawr 2012 i ddechrau, ond estyniad hyd at 27 Ionawr 2012 (terfynol);<br>o Codi ymwybyddiaeth am y ddogfen drafod drwy anfon llythyrau/ ebost at Gynghorwyr ac unigolion sydd ar fasdata'r CDLl ar y Cyd, cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol (gweler Atodiadau 7 ac 8 y CC) – wythnos yn cychwyn 8 & 14 Tachwedd 2011;<br>o Cynnal Seminarau ar gyfer Cynghorwyr Cyngor Gwynedd (5 & 7 Rhagfyr 2011) a Chyngor Sir Ynys Mon (25 Tachwedd 2011);<br>o Cynnal cyfarfodydd Grwp Rhanddeiliaid Allweddol (Atodiad 9 y CC) - 24 Tachwedd 2011 a 9 Rhagfyr 2012;<br>o Cyflwyniad a thrafodaeth - Fforwm Plant a Phobl Ifanc Gwynedd – 28 Tachwedd 2011<br>o Gweithdy i Grwp Pobl Hyn Mon – 8 Rhagfyr 2011<br>o Cyflwyniad a thrafodaeth - i Partneriaeth Tai Gwynedd – 8 Rhagfyr 2011<br>o Cyflwyniad a thrafodaeth - Gyngor Pobl Hyn Gwynedd – 9 Rhagfyr 2011<br>o Cyflwyniad a thrafodaeth - Grwp Anabledd Craidd Gwynedd – 12 Rhagfyr 2011<br>o Cyflwyniad a thrafodaeth Llais Ni (Plant a Phobl Ifanc Mon) – 15 Rhagfyr 2011<br>o Cynnal cyfarfod buddeiliaid tai – 17 Ionawr 2012<br>o Cyflwyniad a thrafodaeth – Grwp Pobl Hyn Amlwch – 17 Ionawr 2012<br>o Mae swyddogion o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan fuddeiliaid, pan oedd adnoddau'n caniatau hynny<br>o Cynnal Seminarau ar gyfer Cynghorwyr Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon ar 2 & 5/10/12; 7/12/12; 10/1/13<br>o Rhoi diweddariad o ddatblygiad y Ddogfen Hoff Strategaeth i'r Grwp Rhanddaliad Allweddol ar 12/11/12 a rhoi cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau` |

| | |
|---|---|
| | • Ni lwyddwyd i fanteisio ar Banel Dinasyddion Gwynedd hyd at yma oherwydd nad yw'r amodau corfforaethol a gytunwyd o ran ymgysylltu a'r grwp yma wedi caniatau hynny. Anelir i fynd i'r afael a hynny erbyn y cyfnod ymgynghori am y ddogfen Hoff Strategaeth a datblygiad y Cynllun Adnau. |
| Mae'r cynllun a'i bolisïau wedi bod yn destun i arfarniad cynaliadwyedd gan gynnwys asesiad amgylcheddol strategol | **Prif Gwestiwn:** A oes arfarniad cynaliadwyedd (AC) yn cynnwys (AAS) wedi'i gynnal mewn cyswllt â'r CDLl ar y Cyd?<br><br>**Tystiolaeth:**<br>Cafodd yr Adroddiad Sgopio drafft yr AC/ AAS ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yng Ngorffennaf 2011.<br><br>Fe gynhaliwyd cyfarfod o'r Grwp Tasg Arfarniad Cynaladwyedd (gweler paragraff 2.4.4 o'r CC ac Atodiad 3 y CC) i roi barn ar yr Adroddiad Sgopio drafft.<br><br>Derbyniwyd mewnbwn am addasrwydd y fethodoleg oedd yn yr Adroddiad Sgopio drafft hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gyfeiriwyd ato uchod. Cafodd yr Adroddiad ei adolygu yn sgil y mewnbwn a dderbyniwyd.<br><br>Mae'r Adroddiad Sgopio AC terfynol yn adnabod nifer o faterion cynaladwyedd ac mae'r rheini wedi cael eu defnyddio i adnabod y materion allweddol sydd angen sylw yn y CDLl ar y Cyd.<br><br>Defnyddiwyd yr amcanion AC (sydd yn yr Adroddiad Sgopio) yn ail gyfarfod o'r Grwp Tasg Arfarniad Cynaladwyedd i asesu a phrofi cynnwys y ddogfen drafod er mwyn sicrhau bod yr amcanion strategol a'r cyfeiriad strategol yn gynaliadwy. Cafodd manylion am yr AC ac asesiadau eraill yn cael eu cynnwys o fewn adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'r Adroddiad AC Dechreuol a gaiff ei chyhoeddi run adeg a'r Ddogfen Hoff Strategaeth yn cofnodi'r broses a'r allbynnau. |

## ATODIAD 2 – HUNAN ASESIAD PROFION CADERNID

| | |
|---|---|
| **PROFION CYSONDEB** | |
| Mae'n gynllun defnydd tir sy'n ystyried cynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ardal neu ardaloedd cyfagos; | **Prif Gwestiynau:** A yw'r Cynllun yn cyflwyno cynigion ar gyfer defnydd a datblygiad o dir sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i'r berthynas â chynllun/polisïau/gofynion sefydliadau eraill (e.e. rhai cwmnïau gwasanaethau ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal)? A yw hyn yn cynnwys eu cynlluniau neu strategaeth ar gyfer y dyfodol ac unrhyw ofynion ar gyfer tir a safleoedd y dylid eu paratoi yn gyfochrog? A yw'n glir sut mae'r cynllun yn cysylltu â chynlluniau a strategaethau eraill sy'n dylanwadu'r cyflenwad o bolisïau a chynigion yn y cynllun?<br><br>**Tystiolaeth:** Mae'r broses hyd yma o gasglu tystiolaeth a pharatoi'r Ddogfen Hoff Strategaeth yn ystyried y berthynas â chynlluniau, polisïau a gofynion sefydliadau eraill. Mae papurau testun/ trafod sydd wrthi'n cael eu paratoi ac astudiaethau technegol/ arbenigol, e.e. Astudiaeth Tir Cyflogaeth, yn cofnodi'r berthynas neu'n crynhoi'r prif bwyntiau o'r cynlluniau a strategaethau perthnasol. Sefydlwyd grwpiau prosiect o fewn y ddau Gyngor sy'n cynnwys swyddogion a gwleidyddion er mwyn sicrhau bod amcanion strategol y ddau Gyngor yn cael eu cyfarch yn y CDLl ar y Cyd.<br><br>Mae Adroddiad AC/AAS Dechreuol yn crynhoi'r prif bwyntiau o gyfres gynhwysfawr o gynlluniau a strategaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.<br><br>Mae'r ddogfen drafod am y prif faterion, y weledigaeth, prif amcanion ac opsiynau twf a dosbarthiad posib yn cyfeirio at y berthynas rhwng Awdurdodau cyfagos. Mae trefniadau i drafod gydag Awdurdodau cyfagos fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnig gan yr Awdurdodau. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n cael ei gynrychioli ar y Grwp Rhanddeiliaid Allweddol ac fe gafwyd sgwrs ar wahan gyda'r Awdurdod ar 12/11/12. Mae'r ddogfen Hoff Strategaeth yn cyfeirio at rai o'r dogfennau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a gafodd eu hystyried yn ystod y broses o'i baratoi |

## ATODIAD 2 – HUNAN ASESIAD PROFION CADERNID

| | |
|---|---|
| Mae'n ystyried polisi cynllunio cenedlaethol | **Prif Gwestiynau:** Os yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw bolisïau neu gynigion sydd ddim yn gyson â pholisi cenedlaethol, a oes cyfiawnhad lleol? A yw'n osgoi ailadrodd gwastraffus/diangen o bolisi cenedlaethol?<br><br>**Tystiolaeth:** Mae'r broses o baratoi'r ddogfen Hoff Strategaeth wedi sicrhau bod gofynion polisi cenedlaethol yn cael eu hystyried wrth lunio amcanion strategol ac opsiynau twf a dosbarthiad posib.<br><br>Mae Adroddiad AC/AAS Dechreuol yn crynhoi'r prif bwyntiau o gyfres gynhwysfawr o gynlluniau a strategaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a'r gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol.<br><br>Mae'r gwaith o gasglu tystiolaeth yn edrych ar faterion sy'n bwysig yn lleol ac os fydd angen gwyro oddi wrth bolisi cynllunio cenedlaethol fe gofnodir hynny mewn papurau trafod/ testun ac yn rhannau perthnasol o'r CDLl ar y Cyd Adnau. |
| Mae'n ystyried Cynllun Gofodol Cymru | **Prif Gwestiynau:** A yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw bolisïau neu gynigion sydd ddim yn gyson â strategaethau eang Cynllun Gofodol Cymru? A yw'r cynllun yn ystyried gwaith cydweithredol maes perthnasol a wnaethpwyd i GGC (WSP)?<br><br>**Tystiolaeth:** Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn ffinio dwy ardal cynllun gofodol, ardal Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru ac ardal Cynllun Gofodol Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r broses o baratoi'r ddogfen drafod wedi ystyried y weledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer ardal Gogledd Orllewin Cymru (Eryri a Môn) ac ardal Canolbarth Cymru ac mae hynny'n cael ei gofnodi mewn papurau testun ac yn y Ddogfen Hoff Strategaeth. |
| Mae'n ystyried y strategaeth gymunedol | **Prif Gwestiynau:** A yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried y strategaeth gymunedol gan nodi polisïau a chynigion sy'n cyflenwi prif gydrannau'r strategaeth honno, sy'n gyson â pholisi |

| | |
|---|---|
| | cynllunio lefel uwch ac yn cysylltu â defnydd a datblygiad tir?<br><br>**Tystiolaeth:** Mae ddwy ddogfen yn trafod ardal y CDLl ar y Cyd sef Cynllun Integredig Gwynedd a Chynllun Integredig Sengl Môn (draft ymgynghorol). Rhoddwyd ystyriaeth i weledigaethau'r dogfennau yma wrth adnabod y prif faterion sydd angen sylw ac wrth lunio'r weledigaeth a'r Polisiau Strategol a welir yn y ddogfen Hoff Strategaeth. Cofnodir y berthynas mewn tablau ar ol pob Polisi Strategol yn y ddogfen Hoff Strategaeth. |
| **Profion Cysondeb ac Effeithiolrwydd** | |
| Mae'n nodi strategaeth ystyrlon ble mae ei pholisïau a dyraniadau'n llifo'n rhesymegol, ble fo materion traws ffiniol yn berthnasol, mae'n gydnaws â chynlluniau datblygiad sydd wedi'u paratoi gan awdurdodau cyfagos; | **Prif Gwestiynau:** A yw'r polisïau a dyraniadau'n cysylltu'n glir â'r nodau ac amcanion yn y strategaeth a nodwyd yn y cynllun a gyflwynwyd? Gall helpu os yw polisïau yn cael eu croesgyfeirio â'r prif nodau ac amcanion? A yw'r polisïau yn y CDLl eu hunain yn gyson?<br>A oes unrhyw fylchau amlwg yn nhrafodaeth y cynllun, gan ystyried ei bwrpas a gofyniad perthnasol mewn polisi cenedlaethol? A yw'n glir sut mae'r cynllun yn cysylltu â'r rheiny sydd wedi'u paratoi gan awdurdodau cyfagos a'r modd y mae materion traws ffiniol wedi cael sylw? Ble mae gorgyffwrdd, a yw'r rhain yn gyson / ategol?<br><br>**Tystiolaeth:** Er mwyn sicrhau perthynas rhwng y Strategaeth a gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, cofnodir y berthynas mewn tabl ar ol pob Polisi Strategol. Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, ar ran y ddau Gyngor, yn cydweithio ac yn trafod gydag Awdurdodau ar draws Gogledd Cymru a gydag Awdurdodau perthnasol yng Nghanolbarth Cymru ynglyn â sawl maes, e.e. y farchnad dai, yr angen am unedau tai newydd. Cafwyd trafodaeth gydag Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Tachwedd 2012 er mwyn sicrhau cymaint o gysondeb ag sy'n bosib rhwng yr awdurdodau. |
| Mae'r strategaeth, polisïau a dyraniadau | **Prif Gwestiynau:** A yw'n glir bod yr ACLl wedi ystyried yr opsiynau a dewisiadau amgen |

| | |
|---|---|
| yn realistig a phriodol ac wedi ystyried y dewisiadau amgen perthnasol ac wedi'u sylfaenu ar sylfaen tystiolaeth gadarn a chredadwy | perthnasol wrth baratoi'r Cynllun? Ni fydd disgwyl i AauCLl i ddelio â phob dewis neu opsiwn amgen posib ond bydd disgwyl iddynt i ystyried y rheiny sydd wedi'u rhoi iddynt yn ystod y broses o baratoi ac ymglymu. A yw'r tybiaethau yn y CDLl wedi'u nodi'n glir ac wedi'u cefnogi gan dystiolaeth? A yw'r dystiolaeth yn cefnogi strategaeth a pholisïau'r cynllun yn glir? Yw'r dystiolaeth yn gadarn a chredadwy ac a yw wedi'i baratoi'n unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau arfer da? Ble mae cydbwysedd wedi'i gyrraedd wrth wneud penderfyniadau rhwng dewisiadau amgen sy'n cystadlu - a yw'n glir sut y mae'r penderfyniadau hynny wedi'u gwneud?<br><br>**Tystiolaeth:** Mae'r Hoff Strategaeth yn seiliedig ar brif faterion ac opsiynau strategol a gafodd eu hystyried gan randdeiliaid, sy'n cynnwys Grwp Rhanddeiliaid Allweddol, Cynghorau Cymuned/ Dinas a Thref ac ymglymiad â'r cyhoedd cyffredinol. Mae'r broses AC/ AAS hefyd wedi tywys y Cynghorau i ddewis opsiwn gorau yn nhermau cynaladwyedd.<br><br>Mae'r holl safleoedd a gafodd eu cyflwyno yn ystod y broses galw am safleoedd hefyd yn ogystal a safleoedd posib eraill bydd y Cynghorau'n eu hadnabod yn destun gweithdrefn asesu lym, sydd i'w weld mewn papur cefndir am y Gofrestr Tir Posib.<br><br>Caiff cyfres o bapurau testun/ trafod eu cyhoeddi a'u rhoi mewn mannau cyhoeddus. Bydd y gyfres yn tyfu wrth fynd trwy'r broses. |
| Mae mecanweithiau clir ar gyfer gweithredu a monitro | **Prif Gwestiynau**: A yw'r cynllun yn cynnwys targedau a cherrig milltir realistig sy'n cysylltu â chyflenwad polisïau? A yw'n glir sut mae'r rhain i'w mesur a'r modd y maent wedi'u cysylltu i gynhyrchiad yr adroddiad monitro blynyddol? A yw'r mecanweithiau cyflenwi ac amserlenni ar gyfer gweithredu'r polisïau wedi'u dynodi'n glir? A yw'n glir pwy sydd i weithredu bob polisi? Ble fo'r gweithredoedd gofynnol y tu allan i reolaeth uniongyrchol yr ACLl a oes tystiolaeth bod yr ymrwymiad angenrheidiol gan y sefydliad perthnasol? A yw'r prosesau ar gyfer mesur llwyddiant y cynllun yn cydsynio â pholisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau arfer da? A yw'r cynllun yn nodi'r ffactorau sy'n hanfodol i gyflenwi prif amcanion polisi'r cynllun? |

| | |
|---|---|
| | **Tystiolaeth:** Mae'n rhy gynnar yn y broses i ateb y cwestiynau uchod ar wahân i nodi bod yr Adroddiad AC/ AAS Dechreuol yn adnabod dangosyddion a gaiff eu defnyddio i fesur cynnydd yn nhermau cynaladwyedd. |
| Mae'r cynllun y ddigon hyblyg i'w alluogi i ddelio ag amgylchiadau sy'n newid | **Prif Gwestiynau:** A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amrywiaeth o newidiadau, neu i newidiadau annisgwyl mewn amgylchiadau? A yw polisïau rheoli datblygiad wedi'u hysgrifennu ar ffurf sy'n eu galluogi i ddarparu fframwaith cadarn a chyson ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio?<br><br>**Tystiolaeth:** Mae'n rhy gynnar yn y broses i ateb y cwestiynau uchod. |

# Ardal Cynllunio Cyngor Môn a Gwynedd

lal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Profi

## Demograffeg & Dynameg Poblogaeth


**Dwysedd Poblogaeth (2011)** (persons/ha): 0.87

| **Poblogaeth (2011)** | Nifer | % |
|---|---|---|
| 2011 | 170,285 | |
| 2001 | 161,929 | |
| Newid poblogaeth 01-11 | 8,357 | 5.2% |
| Dynion | 83,630 | 49.1% |
| Merched | 86,655 | 50.9% |
| 0~15 | 29,546 | 17.4% |
| 16~24 | 21,788 | 12.8% |
| 25~44 | 38,635 | 22.7% |
| 45~64 | 45,127 | 26.5% |
| 65~84 | 30,450 | 17.9% |
| 85+ | 4,739 | 2.8% |
| 16-64 | 105,550 | 62.0% |

| **Nodweddion Poblogaeth (2011)** | | |
|---|---|---|
| Crefydd - Cristion | 104,284 | 61.2% |
| Pobl â salwch cyfyngedig hir-dymor | 36,335 | 21.3% |
| Ganwyd yng Ngymru | 114,998 | 67.5% |
| Ethnigrwydd - Ddim yn wyn | 5,230 | 3.1% |
| Holl boblogaeth 3+ mlwydd oed | 164,474 | |
| Siarad Cymraeg (oed 3+) | 103,037 | 62.6% |
| 1+ o sgiliau yn y Gymraeg (oed 3+) | 119,231 | 72.5% |

## Economi & Cyflogaeth

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Diweithdra (Cyfrif Hawlwyr)** | | |
| Rhagfyr 2012 | 4,139 | 3.9% |
| Medi 2012 | 3,777 | 3.6% |
| Mehefin 2012 | 3,596 | 3.4% |
| Mawrth 2012 | 4,141 | 3.9% |
| **Gweithgarwch Economaidd (2011)** | | |
| Holl Oed 16-74 | 124,273 | |
| Gweithgar Economaidd | 80,781 | 65.0% |
| *- di-waith* | 5,058 | 4.1% |
| An-weithgar Economaidd | 43,492 | 35.0% |
| *- parhaol sâl/anabl* | 5,866 | 4.7% |
| **Diwydiant Cyflogaeth (2011)** | | |
| Holl Oed 16-74 mewn cyflogaeth | 74,696 | |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 2,173 | 2.9% |
| Mwyngloddio a chwarela | 277 | 0.4% |
| Gweithgynhyrchu | 4,898 | 6.6% |
| Trydan, nwy, stêm/systemau aerdymheru | 1,376 | 1.8% |
| Dŵr; carthffosiaeth a rheoli gwastraff | 738 | 1.0% |
| Adeiladu | 6,872 | 9.2% |
| Masnach manwerthu a chyfanwerthu; atgyweirio cerbydau modur | 10,948 | 14.7% |
| Trafnidiaeth a storio | 3,118 | 4.2% |
| Llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd | 6,278 | 8.4% |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 1,405 | 1.9% |
| Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 823 | 1.1% |
| Gweithgareddau eiddo tiriog | 839 | 1.1% |
| Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 2,711 | 3.6% |
| Gweinyddol a gwasanaethau cymorth | 2,507 | 3.4% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 5,730 | 7.7% |
| Addysg | 9,078 | 12.2% |
| Iechyd a gwaith cymdeithasol | 11,202 | 15.0% |
| Arall | 3,724 | 5.0% |



| **Galwedigaeth (2011)** | | |
|---|---|---|
| Holl Oed 16-74 mewn cyflogaeth | 74,696 | |
| Rheolwyr, cyfarwyddwyr a uwch swyddogion | 7,308 | 9.8% |
| Galwedigaethau proffesiynol | 11,900 | 15.9% |
| Proffesiynol a thechnegol cyswllt | 7,273 | 9.7% |
| Gweinyddol ac ysgrifenyddol | 7,123 | 9.5% |
| Galwedigaethau crefftau medrus | 12,072 | 16.2% |
| Gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill | 8,704 | 11.7% |
| Gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid | 6,035 | 8.1% |
| Gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau | 5,327 | 7.1% |
| Galwedigaethau elfennol | 8,954 | 12.0% |

| **Teithio i'r Gwaith (2011)** | | |
|---|---|---|
| Holl Oed 16-74 | 124,273 | |
| Gweithio yn bennaf o adref | 5,382 | 4.3% |
| Teithio i'r gwaith mewn car/fan | 54,044 | 43.5% |
| Cerdded i'r gwaith | 9,356 | 7.5% |


*Defnyddir yr ystadegau o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.; Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2013*

# Ardal Cynllunio Cyngor Môn a Gwynedd

lal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Proffil Ardal -- Profi

## Tai

| | | |
|---|---|---|
| **Prisiau Tai - Ynys Môn** | | |
| Canolig (2011) | £ | 140,000 |
| Chwartel Isaf (2011) | £ | 100,000 |
| Cyfanswm o werthiannau 2011 | | 1,311 |
| **Prisiau Tai - Gwynedd (+ PCE)** | | |
| Canolig (2011) | £ | 132,000 |
| Chwartel Isaf (2011) | £ | 100,000 |
| Cyfanswm o werthiannau 2011 | | 1,252 |

| **Cymhareb Fforddiadwyaeth** | **2011/2012** |
|---|---|
| Ynys Môn - Canolig | 5.9 |
| Gwynedd (+PCE) - Canolig | 5.9 |

**Stoc Anheddau yn ôl band treth cyngor (2011)**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm Stoc Anheddau | 81,749 | 100% |
| Band A | 11,380 | 13.9% |
| Band B | 19,485 | 23.8% |
| Band C | 16,519 | 20.2% |
| Band D | 15,363 | 18.8% |
| Band E | 11,246 | 13.8% |
| Band F | 5,440 | 6.7% |
| Band G | 1,921 | 2.3% |
| Band H | 284 | 0.3% |
| Band I | 111 | 0.1% |

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| ***Holl Aelwydydd*** | 73,078 | |
| **Daliadaeth (2011)** | | |
| Perchennog Preswyl | 48,411 | 66.2% |
| Rhentu Cymdeithasol | 11,798 | 16.1% |
| Rhentu Arall | 12,869 | 17.6% |
| **Cyfleusterau Aelwydydd (2011)** | | |
| Dim gwres canolog | 4,767 | 6.5% |
| Dim car | 15,024 | 20.6% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd (2011)** | | |
| Aelwyd un person | 24,638 | 33.7% |
| - un person; pensiynwr | 11,595 | 15.9% |
| Aelwyd cwpwl | 29,452 | 40.3% |
| Aelwyd rhiant sengl | 7,151 | 9.8% |
| **Cartrefi (2011)** | | |
| Holl Gartrefi (*Household Spaces*) | 82,829 | |
| Gyda preswylwyr arferol | 73,078 | 88.2% |
| Dim preswylwyr arferol | 9,751 | 11.8% |
| Ar-wahân | 32,214 | 38.9% |
| Lled Ar-wahân | 18,698 | 22.6% |
| Tŷ Teras | 23,364 | 28.2% |
| Fflat a adeiladwyd i bwrpas | 4,934 | 6.0% |
| Fflat wedi ei throsi (cynnwys bedsit) | 1,868 | 2.3% |
| Mewn adeilad masnachol | 1,109 | 1.3% |
| Carafan neu arall | 642 | 0.8% |

## Incwm & Budd-daliadau

| | | £ |
|---|---|---|
| **Incwm Canolrifol Aelwyd (2012)** | | |
| Ynys Môn | £ | 23,770 |
| Gwynedd (+PCE) | £ | 22,369 |

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Budd-Daliadau (Chwefror 2012)** | | |
| Holl gleientiaid grŵp oed gweithio* | 16,066 | |
| Job seekers'* | 4,153 | 3.9% |
| Budd-dal analluogrwydd* | 7,305 | 6.9% |
| Rhiant Sengl* | 1,347 | 1.3% |
| Arall yn berthnasol i incwm* | 503 | 0.5% |
| Holl brif budd-daliadau allan o waith* | 13,318 | 12.6% |
| Cynhalwyr* | 1,357 | 1.3% |
| Anabl* | 1,176 | 1.1% |
| Mewn Profedigaeth* | 226 | 0.2% |
| **Budd-Daliadau (Chwefror 2011)** | | |
| Holl gleientiaid grŵp oed gweithio* | 16,223 | |
| Job seekers'* | 3,864 | 3.7% |
| Budd-dal analluogrwydd* | 7,723 | 7.3% |
| Rhiant Sengl* | 1,326 | 1.3% |
| Arall yn berthnasol i incwm* | 513 | 0.5% |
| Holl brif budd-daliadau allan o waith* | 13,426 | 12.7% |
| Cynhalwyr* | 1,364 | 1.3% |
| Anabl* | 1,195 | 1.1% |
| Mewn Profedigaeth* | 248 | 0.2% |

** % yw o holl bobl 16-64 mlwydd oed (2011)*

Mae'r wybodaeth yn y proffil yma wedi ei amcangyfrif gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth, Cyngor Gwynedd yn defnyddio cyfrannau LSOA sydd oddi fewn i Barc Cenedlaethol Eryri i gyfrifo Ardal Cynllunio Cyngor Gwynedd, ac yna ymuno'r data yma gyda data ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn. Dylai drin yr holl ffigyrau fel rhai mynegol.

**Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, Chwefror 2013** **www.gwynedd.gov.uk/ymchwil**

*Defnyddir yr ystadegau o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.; Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2013*